Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 40/2014

www.cymru.gov.uk

# Gwerthusiad Annibynnol o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed - Astudiaethau Achos

# Gwerthusiad Annibynnol o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed - Astudiaethau Achos

## SQW Ltd

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru.

Ceri Greenall
Social Research and Information
Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3811
E-bost: Ceri.greenall@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014
ISBN 978-1-4734-1190-6
© Hawlfraint y Goron

## Cynnwys

1 Prosiectau Cronfa Buddsoddi i Arbed ........................................................3
2 Prosiectau Dim Buddsoddi i Arbed..........................................................93

# 1 Prosiectau Cronfa Buddsoddi i Arbed

Yn yr adran hon ceir adroddiadau cryno ar gyfer astudiaethau achos o brosiectau Buddsoddi i Arbed a gynhaliwyd fel rhan o werthusiad y Gronfa dros chwe rownd gyntaf ei gweithgarwch.

Diben yr astudiaethau achos yw rhoi golwg fanylach ar waith ymarferol prosiectau, a nodi a lledaenu gwersi allweddol o brofiad.

Yr astudiaethau achos ar gyfer y prosiectau canlynol:

- Gweithio Ystwyth Sir y Fflint
- Cyflymu manteision Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus
- Ad-drefnu Adsefydlu ac Ymadfer Iechyd Meddwl
- Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un
- Ein Gofod Caerdydd
- Powys Di-bapur
- Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd y GIG
- Caffael ar y Cyd Cymru-gyfan y GIG
- Ymgyrch Wyn: Adennill a Chadw Annibyniaeth
- Rhaglen Cydweithio Gwell Adferiad ar ôl Llawdriniaeth 1000 o Fywydau a Mwy Cymru
- Gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Gweithio Ystwyth Sir y Fflint

- Nod prosiect Gweithio Ystwyth yw sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy leihau costau teithio, amserau teithio, a chostau swyddfa o ganlyniad i gadw cofnodion digidol a phoeth-ddesgio. Mae'r gallu i weithio o bell yn elfen allweddol o weithio ystwyth, ac mae caffael dyfeisiau symudol yn rhan o'r prosiect. Dyfarnwyd £262 mil o fuddsoddiad i'r prosiect gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed.
- Mae elfen gorfforaethol i'r prosiect o ran rheoli dyfeisiau yn gyffredinol, gyda thri phrosiect lefel gwasanaeth wedi'u teilwra ym meysydd Tai, Cynllunio a Rheoli Adeiladu.
- Mae'r prosiect wedi arwain yn llwyddiannus at arbedion effeithlonrwydd ar draws y tri gwasanaeth, gyda'r elfen strwythur corfforaethol yn golygu y gallai'r dulliau hyn gael eu cyflwyno mewn mannau eraill. Mae arbedion ariannol gwerth £460 mil wedi cael eu creu gan y prosiect.
- Heb arian Buddsoddi i Arbed byddai prosiect ar raddfa lai wedi digwydd, o bosibl mewn Rheoli Plâu, ond heb y raddfa a'r ysgogiad a gafwyd diolch i'r prosiect Buddsoddi i Arbed.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Gwahanol resymeg ar gyfer pob gwasanaeth:<br>• Rheoli Adeiladu yn gystadleuol ac felly mae angen hybu arbedion effeithlonrwydd<br>• Cynllunio wedi cael adolygiad gwasanaeth a nododd weithio ystwyth fel ffordd ymlaen<br>• Roedd Tai yn cael cyfres o newidiadau i wella perfformiad, gyda gweithio ystwyth yn cael ei weld fel ysgogwr pwysig | • Gwella effeithlonrwydd a pherfformiad sefydliadol drwy symudedd a alluogir gan TG ym meysydd:<br>• Rheoli Adeiladu<br>• Cynllunio<br>• Tai<br>• Gwella ymwybyddiaeth sefydliadol mewn arferion gweithio hyblyg | • Cyfanswm o tua £350 mil o ariannu, £262 mil ohono yn arian Buddsoddi i Arbed<br>• Timau Rheoli Adeiladu, Cynllunio a Thai a chyflwyno atebion gweithio symudol corfforaethol, yn cynnwys systemau TG a dyfeisiau symudol i alluogi gweithio o bell | • Manteision rhyddhau arian gwerth £460 mil y flwyddyn<br>• Cynnal 'Gwiriad Iechyd' ar gyfer Rheoli Adeiladu, wedi ei ddilyn gan gyflwyniad system a dyfeisiau electronig<br>• Cyflwyno dyfeisiau i'r tîm Gorfodi Cynllunio, tra bod y system rheoli datblygiad electronig yn cael ei rhoi ar waith<br>• Cyflwyno dyfeisiau i'r Tîm Cynnal a Chadw Tai gan leihau niferoedd staff gweinyddol | • Arwain at reolaeth gorfforaethol dyfeisiau, gan ganiatáu i'r Cyngor ddatblygu'r prosiect<br>• Gwneud Rheoli Adeiladu yn fwy cystadleuol, lleihau gofod swyddfeydd, costau amser, galluogi gweithio o bell<br>• Cyflawni arbedion effeithlonrwydd amser a chost ym maes Cynllunio gan alluogi gweithio a chyflwyno dogfennau o bell<br>• Gwell cynhyrchiant ym maes Tai, lleihau tasgau gweinyddol a staffio, gwella monitro gwaith, galluogi gweithio o bell |

*Cefndir y prosiect*

Mae'r prosiect Gweithio Ystwyth wedi deillio o raglen ar gyfer newid trawsffurfiol Cyngor Sir y Fflint, “Dyfodol Sir y Fflint”, gyda gweithio symudol ac ystwyth yn cael eu hystyried yn elfennau allweddol i gyflawni amcanion Rhaglen Asedau a rhaglen Newid Sefydliadol y Cyngor, sy'n rhan o'r rhaglen

newid trawsffurfiol.  Bu Tîm Rheoli'r Cyngor yn ystyried sut y gallai arian Buddsoddi i Arbed gael ei gymhwyso orau i'r rhaglen newid, gyda Gweithio Ystwyth wedi'i nodi, o gofio ei allu i sefydlu rhinweddau gweithio ystwyth drwy brosiectau peilot a chyflawni arbedion sylweddol.

Nod penodol y prosiect, a oedd yn rhedeg tan ddiwedd 2013, oedd:

- cyflwyno'r defnydd o dechnoleg symudol i wella perfformiad ac effeithlonrwydd sefydliadol, ar draws strwythur corfforaethol
- dangos yr hyn y gall y dechnoleg hon ei gyflawni, drwy dri phrosiect peilot yn yr adrannau Tai, Cynllunio a Rheoli Adeiladu
- codi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad o arferion gweithio hyblyg.

Cafodd y gwasanaethau peilot eu dewis fel meysydd a allai gael y budd mwyaf o gyflwyno gweithio ystwyth, gyda Rheoli Adeiladu, Gorfodi (Cynllunio), a Chynnal a Chadw Tai (Tai) wedi'u dewis ar gyfer cyflwyno:

- Mae angen i'r adran **Reoli Adeiladu**, sy'n unigryw mewn awdurdod lleol fel busnes cystadleuol, hybu arbedion effeithlonrwydd fel un o ofynion craidd ei fodel busnes, gyda'r prosiect gweithio ystwyth yn ffordd ddefnyddiol o wneud hynny.
- Roedd yr adran **Gynllunio** yn cael adolygiad gwasanaeth ar adeg cwmpasu'r prosiect, gydag adolygiad LEAN yn nodi y gallai arbedion effeithlonrwydd gael eu hybu drwy brosiect o'r fath, a gyda Llywodraeth Cymru yn gwthio agenda electronig ym maes Cynllunio.
- Yn yr adran **Tai**, fel yn yr adran Cynllunio, dywedodd adolygiad LEAN bod gweithio symudol yn alluogydd allweddol i fynd i'r afael â materion yn y gwasanaeth, ac mae'r prosiect gweithio ystwyth yn un rhan o gyfres o welliannau sy'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth yn fwy eang..

Cyn hyn nid oedd dyfeisiau symudol i alluogi staff i gofnodi a chyflwyno gwybodaeth a data o bell pan oeddent allan o'r swyddfa, wedi cael eu defnyddio yn y Cyngor ond yn yr adran Priffyrdd, a hynny mewn ffordd gyfyngedig, heb unrhyw reolaeth gorfforaethol ar waith. O ganlyniad, roedd gweithio symudol yn dechnoleg newydd i raddau helaeth ar gyfer y Cyngor ar y pryd.

*Gweithrediad y prosiect*

Gwnaeth Cyngor Sir y Fflint gais am arian Buddsoddi i Arbed yn 2009, a derbyniodd £262 mil, gyda'r Cyngor yn cyfrannu £87 mil, yn cynrychioli 25% mewn arian cyfatebol. Roedd tua hanner y cyfanswm pecyn ariannu hwn ar gyfer integreiddio systemau (trwyddedau meddalwedd ac ymgynghori), chwarter ar gyfer dyfeisiau llaw, a chwarter ar gyfer ailstrwythuro'r broses fusnes a rheoli newid.

Ar y cychwyn, roedd y prosiect yn disgwyl cyflawni arbedion o £460 mil, drwy leihau amser teithio a chostau staff, cynyddu cynhyrchiant, lleihau cymorth gweinyddol a chymorth goruchwylio a lleihau nifer y swyddfeydd. Yn ogystal, roedd disgwyl i'r prosiect gyflawni mwy o fodlonrwydd swydd a mwy o annibyniaeth a hyblygrwydd, tra'n gwella gwasanaeth a bodlonrwydd cwsmeriaid. Roedd disgwyl i'r rhan fwyaf o'r arbedion ddod o elfen Tai y prosiect, gyda Tai yn derbyn y rhan fwyaf o'r buddsoddiad - fel y'i dyrannwyd gan y Cyngor, gydag arian wedi'i reoli a'i ddosbarthu yn ganolog o fewn y Cyngor.

Cafodd y gwaith ei reoli fel Rhaglen yn cynnwys y tri phrosiect ar wahân, un ym mhob maes gwasanaeth. Y bedwaredd elfen oedd cyflwyno system rheoli dyfeisiau symudol corfforaethol. Mewn dau o'r prosiectau lefel gwasanaeth (Rheoli Adeiladu a Chynllunio), roedd rheoli dogfennau ac ôl- sganio yn alluogwyr allweddol gydag adnoddau Buddsoddi i Arbed yn cael eu defnyddio i gefnogi'r gwaith hwn. Mae'r tri gwasanaeth wedi gweithredu eu datrysiad mewn gwahanol ffyrdd, gan fod gan bob gwasanaeth anghenion gwahanol a gwahanol fannau cychwyn:

- Ar gyfer **Rheoli Adeiladu**, edrychodd y prosiect ar y gwasanaeth cyfan, gydag arbedion o £30 mil wedi'u nodi. Y cam cyntaf oedd ariannu “gwiriad iechyd” y gwasanaeth, i brofi a oedd y system fusnes gyfredol yn cael ei defnyddio i'r eithaf. Gan na allai darparwr y system fusnes gynnig ateb gweithio symudol integredig, roedd y penderfyniad ar sut i symud ymlaen yn syml o gymharu â'r ddau brosiect lefel-gwasanaeth arall. Datblygwyd ateb pwrpasol i alluogi gweithio symudol yn benodol ar gyfer y gwasanaeth, yn fewnol, gydag integreiddio llawn

i'r system cefn swyddfa a ddefnyddid gan y tîm. Roedd sganio dogfennau yn arbennig o bwysig ar gyfer Rheoli Adeiladu, gan ei bod yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar y gwasanaeth i gadw cofnodion am 15 mlynedd, sy'n golygu bod y ffeiliau wedi'u lledaenu ar draws amrywiaeth o leoliadau yn Neuadd y Sir, gan olygu gofynion sylweddol o ran gofod. Er mwyn i'r tîm allu gweithredu'n effeithiol mewn ffordd ystwyth, byddai hefyd angen iddo gael mynediad at y cofnodion allan yn y maes.

- Mae'r adran **Gynllunio** hefyd yn defnyddio system fusnes a gyflenwir ac yn yr achos hwn mae'r cyflenwr wedi datblygu ateb symudol ar gyfer Cynllunio, er mai dyma'r tro cyntaf i'r system gael ei rhoi ar waith. Yn yr ystyr hwn, roedd yn brosiect arloesol ar gyfer y Cyngor a'r darparwr. Fel gyda'r prosiectau eraill, mae hwn yn golygu cyflwyno dyfeisiau symudol, ar gyfer y tîm Gorfodi Cynllunio, a chyflwyno system gweithio symudol sy'n integreiddio'n llawn â'r system busnes cefn swyddfa, sy'n gallu cefnogi rheoli ceisiadau cynllunio, cydymffurfio a gorfodi yn electronig. Fel gyda Rheoli Adeiladu, roedd y prosiect yn cynnwys adolygiad LEAN a byddai hefyd yn gwneud defnydd o reoli dogfennau yn electronig. Unwaith eto, nodwyd £30 mil o arbedion.

- Yr adran **Tai** dderbyniodd y gyfran fwyaf o'r arian, gan fod disgwyl i'r gwasanaeth wneud y cyfraniad mwyaf at yr arbedion. Cafodd arbedion o £400 mil eu nodi, er mai ffactor cyfrannol yn unig yw gweithio ystwyth yn hyn o beth, gyda newidiadau ehangach i'r gwasanaeth yn cael eu gwneud. Ar gyfer tai, roedd sganio dogfennau yn llai o bryder, gyda’r gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau dyfeisiau symudol ar gyfer pob aelod o staff (tua 100) oedd yn gweithio yn yr adran Cynnal a Chadw Tai, a rhoi’r system cefn swyddfa orau bosibl ar waith, er mwyn lleihau'r gofynion gweinyddol**.** Gallai datrysiad gweithio symudol integredig fod wedi cael ei ddatblygu yn fewnol fel gyda Rheoli Adeiladu, ond yn dilyn gwerthusiad o’r opsiynau, gwnaed y penderfyniad i gaffael yr ateb gan ddarparwr systemau swyddfa gefn allanol, penderfyniad wedi'i ysgogi’n rhannol gan yr angen i sicrhau defnydd lle nad oedd signal ffôn symudol ar gael, na fyddai wedi cael ei alluogi trwy ateb mewnol.

Roedd y prosiect Gweithio Ystwyth wedi'i alinio a'i gysylltu â phrosiect newid trawsffurfiol ar wahân ar draws y Cyngor - cyflwyniad system rheoli dogfennau electronig (EDM) corfforaethol. Roedd lleihau dibyniaeth ar gofnodion papur yn alluogydd allweddol i ysgogi arbedion effeithlonrwydd proses, ac roedd yn hanfodol bod systemau busnes cefn swyddfa yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Roedd cyfuniad o adolygiadau LEAN ac ymgynghoriaeth gan y darparwyr system yn sicrhau bod defnydd y Cyngor o'r systemau yn cael ei archwilio'n feirniadol gydag argymhellion ar gyfer gwella lle bo hynny'n bosibl. Roedd hyn yn rhoi seiliau cadarn i adeiladu'r prosiectau gweithio symudol arnynt. Ochr yn ochr â sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy weithio symudol, cydnabuwyd bod diogelu'r dyfeisiau a'r data arnynt yn hanfodol, felly roedd caffael a gweithredu system reoli dyfeisiau symudol corfforaethol yn allweddol.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Cyflawnodd y prosiect yr hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud, gyda £460 mil o arbedion rhyddhau arian, manteision rhwydweithio a manteision o ran effeithlonrwydd wedi'u cyflawni yn ôl y disgwyl, gyda’r manteision yn rhai parhaus. Fodd bynnag, mae natur a graddfa'r manteision yn gwahaniaethu rhwng y tri gwasanaeth:

- **Rheoli Adeiladu**: mae gweithio ystwyth bellach yn ei le ar gyfer yr holl staff. Mae'r ateb yn integreiddio gyda rheoli dogfennau electronig ac mae ôl-sganio ffeiliau wedi golygu y gall staff gael mynediad at yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt o unrhyw leoliad, gyda manteision effeithlonrwydd. Mae'r ôl-sganio ac integreiddio gyda rheoli dogfennau electronig wedi arwain at lai o ofynion o ran gofod ar gyfer storio, gyda’r angen i storio gwerth 15 mlynedd o ddogfennau ar y safle bellach yn ddiangen. Mae hyn hefyd yn gwella dibynadwyedd. Mae gofynion gofod swyddfa hefyd wedi'u lleihau, gan ei bod bellach yn haws i staff weithio allan o'r swyddfa, sy'n golygu bod rhywfaint o boeth-ddesgio yn bosibl, gan leihau'r gymhareb o bobl i bob desg. Ar ben hynny, mae amser a chostau teithio yn cael eu lleihau, gan nad oes mwyach angen dychwelyd i'r ganolfan i gyflwyno nodiadau ymweliad, oherwydd gall y rhain gael eu cyflwyno o bell. Er nad yn un o nodau datganedig y prosiect, roedd manteision cynhyrchiant wedi

galluogi un aelod o staff i ymddeol yn gynnar, heb orfod cael gweithiwr arall yn ei le. Un fantais o ddatblygu ateb symudol yn fewnol oedd caniatáu o’r adran Rheoli Adeiladu ymateb yn gyflym i anghenion cwsmeriaid, sy'n bwysig yn y farchnad gystadleuol y mae’n gweithredu ynddi.

- **Cynllunio**: cafodd dyfeisiau symudol eu caffael, yn unol â'r cynlluniau, ar gyfer y rheiny yn yr adran Gorfodi Cynllunio. Roedd y manteision yn debyg i'r rhai ar gyfer Rheoli Adeiladu, gyda'r gallu i boeth-ddesgio, gweithio o gartref, neu weithio ar safle gyda chwsmeriaid. Er na fu lleihad yn nifer y staff, mae'r arbedion effeithlonrwydd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth gwrdd â gofynion strategaeth asedau'r Cyngor. Daeth y prosiect Buddsoddi i Arbed â phump o bobl i mewn i weithio ystwyth, gyda chynnydd parhaus ar gefn hyn yn golygu bod dyfeisiau bellach wedi cael eu caffael ar gyfer 16 o bobl.

- **Tai**: yn unol â'r cynlluniau mae dyfeisiau wedi eu caffael ar gyfer y rheiny sy'n gweithio yn yr adran Cynnal a Chadw Tai. Mae gwelliannau sy'n ymwneud â Buddsoddi i Arbed yn rhan o gyfres fwy o welliannau sy'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth, gan ei gwneud hi'n anodd i wahanu’r gwelliannau Buddsoddi i Arbed oddi wrth newidiadau eraill a wnaed, gan gynnwys:

  - Ailstrwythuro staffio i alluogi gwelliannau mewn rheoli ac arweinyddiaeth a sicrhau arbedion
  - Adolygiadau LEAN ar gyfer pob maes o'r gwasanaeth o dan arweiniad tîm o staff mewnol wedi'u hyfforddi yn y broses er mwyn cyflwyno gwelliannau mewn perfformiad ac arbedion
  - Cyflwyno oriau gwaith cywasgedig (pythefnos 8 diwrnod), gan ymestyn yr oriau gwasanaeth i 8.00-6.00 o ddydd Llun hyd ddydd Gwener gan gynnwys penwythnosau (ar gyfer gwasanaethu mwy) a heb unrhyw gost ychwanegol
  - Cyflwyno rhestr ddiwygiedig o gyfraddau - lleihau nifer yr eitemau yn y rhestr a defnyddio cyfraddau mwy cyfansawdd gan wneud y defnydd o'r dechnoleg symudol yn gyflymach ar

ddiwedd pob swydd gyda llai o eitemau unigol i gael eu codio a'u hychwanegu.

- Mae gwelliannau eraill yn cynnwys - cyflwyno canolfan gyswllt newydd i wella profiad y cwsmer, cau depo sydd wedi dyddio gan sicrhau arbedion mewn costau gweithredu, rhoi gwasanaeth stordai aneffeithiol i ddarparwr allanol, datblygu cynllunio buddsoddi asedau, gwella a datblygu aml-sgilio staff crefftau, cyflwyno system tracio cerbydau ar gyfer canlyniadau iechyd a diogelwch a gwerth am arian, cwblhau adolygiad Fflyd i ryddhau arbedion effeithlonrwydd, a chyflwyno atgyweiriadau drwy apwyntiadau a negeseuon atgoffa testun a thechnoleg gweithio symudol.

Mae cyflwyno gweithio symudol y mae'r prosiect Buddsoddi i Arbed wedi'i alluogi wedi bod yn rhan hanfodol ac ategol o'r rhaglen newid trawsffurfiol ehangach. Yn benodol, mae wedi galluogi'r Gwasanaeth Tai i symud o gael ei yrru gan bapur gyda'r staff Crefftau yn cadw gwerth wythnosau o docynnau yn eu faniau ac yn cael eu hatgoffa’n gyson i'w trosglwyddo (gan arwain at faterion o ran rheoli gwariant, ymrwymiadau a pherfformiad) i gael mynediad at ddata amser real, ac arwain at staff swyddfa gefn yn treulio amser yn prosesu tocynnau ac yn cyfateb gwariant deunyddiau gyda thocynnau ac amrywiadau. Yn ei dro, mae hyn wedi arwain at welliant mewn cadw cofnodion a rheoli stoc, gan fod y wybodaeth a’r adroddiadau angenrheidiol bellach yn gallu cael eu ffeilio o bell ac yn electronig. Mae gwelliannau cynhyrchiant wedi bod yn nodedig yn yr adran Tai, gyda chostau gweinyddu is a gostyngiad yn nifer y staff gweinyddol.

Mae tystiolaeth hefyd bod y prosiect wedi arwain at fanteision i ddefnyddwyr gwasanaeth, er enghraifft, gyda thîm yr adran Tai yn gallu darparu negeseuon atgoffa testun 'amser real' ar gyfer apwyntiadau, gan leihau nifer y swyddi sy'n cael eu canslo.

Yn ychwanegol at y manteision meintiol, mae mwy o wybodaeth sefydliadol ynglŷn â rheoli dyfeisiau symudol wedi golygu bod y Cyngor wedi gallu adolygu'r ddarpariaeth o ddyfeisiau symudol yn y gwasanaeth Priffyrdd, a

oedd eisoes yn defnyddio gweithio symudol cyn y prosiect Gweithio Ystwyth. Mae hyn wedi arwain at well diogelwch ac ymarferoldeb, gan ganiatáu i ddyfeisiau gael eu diweddaru a'u cefnogi o bell.

Mae'r defnydd o systemau rheoli prosiect ffurfiol i gyflwyno'r prosiect hefyd wedi cynhyrchu dysgu a phrofiad sydd wedi'u dogfennu ac y gellir eu rhannu gyda phrosiectau gweithio symudol a gweithio ystwyth pellach wrth i'r Cyngor symud ymlaen gyda'i raglen newid. Gall prosiectau yn y dyfodol ddysgu o'r profiadau hyn er mwyn gwella eu gweithrediadau eu hunain. Ni fyddai'r profiadau hyn wedi bod yn bosibl heb arian Buddsoddi i Arbed. Yn wir, mae prosiect Rheoli Plâu bron wedi'i gwblhau gyda rhagor i ddilyn.

Dywedodd partneriaid y Prosiect na fyddai'r prosiect Gweithio Ystwyth wedi cael ei gynnal yn y modd y cafodd ei gyflwyno oni bai am arian Buddsoddi i Arbed - byddai gweithgarwch wedi bod ar raddfa lai, gan leihau'r potensial i ddangos yr arbedion effeithlonrwydd a'r manteision y gall gwasanaethau eu hennill, o ran gwelliant gweithredol a gwella gwasanaethau.

*Beth weithiodd yn dda…*

Rhoddodd Buddsoddi i Arbed hwb i'r prosiect ac, er ei bod yn debygol y byddai wedi digwydd i raddau llai beth bynnag, roedd wedi galluogi prosiect mwy uchelgeisiol. Er y byddai grant wedi bod yn well mewn termau ariannol, roedd y buddsoddiad ad-daladwy yn ddefnyddiol wrth flaenoriaethu ymdrech, canolbwyntio ar wneud y newidiadau angenrheidiol i adennill yr arian, a gyrru effeithlonrwydd yn ei flaen.

Bu cydberthynas gref ac arweinyddiaeth uchelgeisiol yn gymorth i'r prosiect, gan gynnwys rhwng y gwasanaethau a'r Isadran TG corfforaethol. Mae meithrin a rheoli cydberthynas gyda chyflenwyr dyfeisiau a meddalwedd wedi bod yn hanfodol, yn enwedig lle nad yw technolegau efallai wedi cyflawni yn ôl y disgwyl. Mae datblygu ateb mewnol llwyddiannus hefyd wedi dangos uchelgais ac wedi datblygu sgiliau mewnol y gellir eu defnyddio ar gyfer datblygiadau pellach, er enghraifft mewn Rheoli Plâu. Yn ogystal, gyda rheoli dyfeisiau corfforaethol mewn lle, mae'r sefydliad mewn sefyllfa dda i barhau gydag atebion gweithio symudol mewn rhannau eraill o'r sefydliad.

Dywedwyd hefyd bod llwyddiant y prosiect wedi codi proffil y gwasanaethau dan sylw, ac mae rhwydweithio wedi digwydd gydag asiantaethau allanol eraill. Er enghraifft, cysylltodd Cyngor Swydd Henffordd â'r adran Rheoli Adeiladu ynglŷn ag ateb gweithio symudol.

*… a beth allai fod wedi gweithio'n well*

Mae nifer o ffyrdd y gallai'r prosiect fod wedi gweithio'n well:

- Mae rheoli disgwyliadau defnyddwyr yn allweddol i lwyddiant y prosiectau. Gyda'r rhain yn dechnolegau newydd ar gyfer y cyngor, gwelwyd bod yr amserlenni yn rhy uchelgeisiol. Mae cwmpas signal ffôn symudol yn broblem, hyd yn oed mewn dinasoedd mawr ac felly mae'r cyfleuster i weithio mewn modd 'all-lein' yn hanfodol ond yn anodd i rai defnyddwyr ei ddeall fel cyfyngiad, yn enwedig os nad yw'r ateb symudol wedi ei gynllunio yn dda. Hyd yn oed ar y cam hwn, mae un cyflenwr yn ailedrych ar yr ateb gan nad oedd wedi ystyried y cysyniad o gloi cofnodion yn y system swyddfa gefn tra bod y cofnod yn cael ei gyrchu a'i weithio arno o bell.
- Roedd gan bob un o'r tri phrosiect anawsterau, yn ymwneud â chyflenwyr, goresgyn problemau â chwmpas signal a sicrhau bod systemau cefn swyddfa presennol yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Cynorthwyodd Buddsoddi i Arbed i ddatrys hyn gan ei fod yn sicrhau y gallai arbenigedd gael ei ddwyn i mewn i gynorthwyo pan fo angen. Lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl, gofynnwyd am gymorth gan sefydliadau eraill, ond canfuwyd bod llawer ohonynt yn cael problemau tebyg neu nad oeddent yn destun yr un gofynion diogelwch llym ag y mae Llywodraeth Leol, a bod gweithredu felly yn fwy syml ar gyfer y rheiny.
- Yn ystod cam cychwynnol y prosiect, byddai wedi bod yn ddefnyddiol i gael dealltwriaeth o beryglon posibl a chyfyngiadau technolegau symudol. Gwnaed ymgais i ymgysylltu ag eraill, ond roedd llawer mewn sefyllfaoedd tebyg ar y pryd.
- Adroddwyd bod cyflenwyr sy'n "addo'r Byd" ac yna ddim yn cyflawni hynny yn broblem. Er enghraifft, nid oedd cyflenwyr yn ystyried sut y

byddent yn darparu ar gyfer signal ffôn symudol gwael ac mewn rhai achosion nid oeddent wedi ymgysylltu â chyflenwyr dyfeisiau symudol er mwyn asesu'r ffordd orau bosibl o ddatblygu'r ateb yn y ffordd fwyaf effeithiol. Adroddwyd ei bod ar adegau yn anodd cynnal perthynas gadarnhaol â'r cyflenwr wrth weithio drwy broblemau o'r fath.

- Roedd adrodd chwarterol ar gyfer y prosiect hwn yn cael ei ystyried yn feichus gan y rhai oedd yn cymryd rhan. Oherwydd natur y prosiect, ychydig o gynnydd oedd o chwarter i chwarter yn aml, gan olygu bod rhai yn sôn am wastraff ymdrech. Y broblem yma oedd amlder, yn hytrach na'r angen i ddarparu adroddiadau monitro. Mae modd dadlau bod dull mwy hyblyg yn bosibl.

*Gwersi allweddol*

Mae tair gwers allweddol yn ymddangos o'r prosiect:

- Roedd adborth gan ymgyngoreion yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau cymorth technegol amserol. Mae gwers bwysig yma, tu hwnt i brosiectau technegol yn unig, o ran cwmpasu'r prosiectau a deall yn llawn beth yw gofynion systemau, technegol neu fel arall, sy'n cael eu rhoi ar waith er mwyn lleihau unrhyw effaith negyddol.

- Mae rheoli disgwyliadau yn arbennig o bwysig lle mae pob elfen unigol i bob pwrpas yn 'beilot'. Mae hyn yn cynnwys rheoli disgwyliadau'r rhai y disgwylir iddynt ddatblygu ffyrdd newydd o weithio - bod yn glir ynglŷn â beth fydd hyn yn ei olygu yn eu gwaith o ddydd i ddydd - ond hefyd y rhai sy'n dyst i'r newidiadau, ond sydd heb dderbyn yr ateb gweithio symudol. Er enghraifft, gyda Chynllunio a Thai, nid yw'r holl staff wedi derbyn dyfeisiau symudol ac felly nid ydynt wedi cael yr hyblygrwydd gwaith a roddir gan weithio ystwyth. Mae Gofal Cymdeithasol wedi bod â diddordeb mewn datblygu atebion symudol, tra bo Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach yn ddau wasanaeth arall a fyddai'n elwa o weithio symudol. Gyda llwyddiant y prosiect, mae'n bwysig i fod â dull ar gyfer symud ymlaen i'r camau nesaf a gwasanaethau ychwanegol fel y rhain. Yn yr achos hwn, mae'r Cyngor yn awyddus i

gyflwyno gweithgarwch y prosiect, o bosibl ym maes Rheoli Plâu, gan sicrhau etifeddiaeth gadarnhaol o'r prosiect.

- Roedd adborth yn tynnu sylw at anawsterau wrth wahanu manteision Buddsoddi i Arbed pan oedd yn un rhan o gyfres o ymyriadau. Roedd sut y gall cyfraniad penodol y Gronfa gael ei fonitro a sut i ddarparu tystiolaeth yn cael ei ystyried yn bwysig yn y dyfodol.

## Cyflymu manteision Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA)

- Menter gan Lywodraeth Cymru yw PSBA i ddarparu rhwydwaith telathrebu gwasanaeth cyhoeddus cyfunol ar gyfer Cymru gyfan trwy gyd-gasglu'r galw am fand eang. Defnyddiwyd Buddsoddi i Arbed er mwyn cynorthwyo i gyflymu'r ymrwymiad i PSBA ar draws Cymru, ochr yn ochr â nifer o ymyriadau lle-benodol.
- Datblygwyd y rhwydwaith PSBA yn wreiddiol i fynd i'r afael â methiannau cydgysylltu, ac roedd yn ymateb i'r angen (a'r cyfle) i ysgogi arbedion effeithlonrwydd yn y defnydd o TGCh wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, tra'n cynnal a gwella ansawdd y gwasanaethau. Roedd angen Buddsoddi i Arbed i fynd i'r afael â'r 'costau newid' sylweddol ymlaen llaw er mwyn i sefydliadau ymuno â'r rhwydwaith PSBA a rennir.
- Mae ymgynghoriadau yn dynodi bod y prosiect Buddsoddi i Arbed wedi cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y proseict gymaint â hanner. Fodd bynnag, roedd y ffocws ar gyflymu cyfradd ymrwymiad i'r proseict yn golygu mai rhannol oedd 'potensial ychwanegedd' y prosiect o'r cychwyn cyntaf, ac efallai y byddai rhai o'r sefydliadau a gefnogwyd wedi ymuno rywbryd yn y dyfodol.
- Roedd y prosiect Buddsoddi i Arbed yn syml, gyda baich gweinyddol cyfyngedig, ac roedd yn rhoi lefel bwysig o hyblygrwydd, y ddwy elfen yn bwysig. Roedd partneriaid y prosiect hefyd yn ystyried bod cefnogaeth Buddsoddi i Arbed yn arddangosiad pwysig o bwysigrwydd strategol PSBA, gan helpu i ddatblygu ei hygrededd ymhlith sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Methiannau cydlynu lle bo gan sefydliadau unigol eu rhwydweithiau band eang eu hunain, gan arwain at amrywiaeth o ran ansawdd a gwytnwch<br>• Angen gwella darpariaeth gwasanaeth drwy TGCh ochr yn ochr â cheisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd costau<br>• Ymateb i'r galw cynyddol am gysylltedd hyblyg, cyflymder uchel ar draws y sector cyhoeddus<br>• Costau pen blaen sylweddol y broses o newid yn cyfyngu ar ymrwymiad sefydliadau i PSBA | • Cynorthwyo sefydliadau sector cyhoeddus ledled Cymru i symud i wasanaethau cysylltedd PSBA yn gyflymach<br>• Gwell ymrwymiad i PSBA yn arwain at<br>➢ arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau cysylltedd<br>➢ gwneud gwasanaethau arbed costau eraill yn hygyrch ynghynt<br>➢ adeiladu llwyfan cyffredin ar gyfer cydweithio a gwasanaethau a rennir | • Gwerth £4.0 miliwn o adnodd Buddsoddi i Arbed, wedi ei gyfateb i gyfraniadau ariannol lleol gan bartneriaid<br>• Defnyddio'r arian i ddarparu cyllid pen blaen i fynd i'r afael â 'chostau newid' sylweddol mewn cofrestru ac integreiddio gyda'r rhwydwaith PSBA | • Cynnydd yn nifer y sefydliadau sydd wedi cofrestru ar gyfer ac sy'n defnyddio PSBA<br>• Manteision rhyddhau arian ac nad sy'n rhyddhau arian yn cael eu creu drwy ddefnydd PSBA, yn cynnwys<br>➢ Lleihad o 20% mewn costau cysylltedd rhwydwaith<br>➢ rhagweld arbedion effeithlonrwydd gwerth £1 miliwn y flwyddyn | • Effeithlonrwydd mewn cyflenwi sector cyhoeddus, lleihau cost TGCh<br>• Gwell cydweithredu o ran gwasanaethau rhwng sefydliadau cyhoeddus, yn cynnwys gwasanaethau a rennir<br>• Gwell darpariaeth gwasanaeth gan alluogi ffyrdd newydd o weithio a gwasanaethau newydd i'r dinesydd newydd<br>• Gwell arloesedd mewn TGCh yn y sector cyhoeddus e.e. cyfrifiadura cwmwl, fideo gynadledda<br>• Potensial ar gyfer gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr drwy ddarpariaeth gwasanaeth cryfach |

*Cefndir y prosiect*

Mae Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) yn fenter a arweinir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu rhwydwaith telathrebu gwasanaeth cyhoeddus cyfunol ar gyfer Cymru gyfan trwy gyd-gasglu’r galw am fand eang ar draws rhannau helaeth o'r gwasanaeth cyhoeddus. Ei nod cyffredinol yw cefnogi ‘cyflenwi gwasanaethau mewn modd cydweithredol ac ar y cyd, fel bod dinasyddion Cymru yn cael budd o wasanaethau cyhoeddus gwell’.1

Wedi'i sefydlu yn wreiddiol yn 2004, ac yn weithredol ers 2008, mae PSBA yn galluogi sefydliadau partner ledled Cymru i rannu'r un rhwydwaith band eang diogel, a seilwaith dibynadwy i gefnogi gwell modd o ddarparu gwasanaethau. Mae PSBA yn dwyn ynghyd brosesau caffael, cyflenwi, gweithredu a rheoli TGCh mewn un rhwydwaith cyfathrebu i Gymru.

Sefydlwyd PSBA i fynd i'r afael â methiannau cydgysylltu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, lle yn draddodiadol roedd gan sefydliadau unigol eu rhwydweithiau band eang eu hunain oedd yn amrywio o ran ansawdd a dibynadwyedd. Roedd hefyd yn ymateb i'r angen (a'r cyfle) i ysgogi arbedion effeithlonrwydd yn y defnydd o TGCh wrth gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, drwy arbedion maint, tra'n cynnal a gwella ansawdd y gwasanaethau a'r cynnig i ddinasyddion o bob rhan o'r sector cyhoeddus.

Mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed wedi cefnogi nifer o wahanol brosiectau sy'n gysylltiedig â PSBA, gyda chyfanswm gwerth buddsoddiad o tua £13 miliwn dros y cyfnod 2010-2012 a gwmpesir gan y gwerthusiad. Mae'r prosiectau hyn wedi canolbwyntio ar gefnogi sefydliadau i ymuno â'r rhwydwaith mewn ardaloedd penodol, gan gynnwys Gwent a Gogledd Cymru, a ledled Cymru yn fwy cyffredinol. Mae’r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio’n bennaf ar un o'r prosiectau, sef y prosiect '*Cyflymu manteision PSBA*'. Wedi dweud hynny, mae gwahanu effeithiau'r gweithgarwch hwn a ariennir yn benodol oddi wrth y cymorth ehangach o'r Gronfa i PSBA, a'r ymyrraeth PSBA ehangach, yn anodd.

[1] Cyflwyniad i PSBA – gweler http://www.psba.org.uk/Libraries/Publications/1_PSBA_introduction-15364.sflb.ashx

Dan arweiniad Llywodraeth Cymru ei hun, nod cyffredinol prosiect '*Cyflymu manteision PSBA*' oedd i sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus symud i wasanaethau cysylltedd PSBA yn gynt nag a fyddai wedi digwydd fel arall. Trwy gyflymu ymrwymiad i PSBA, roedd y prosiect yn ceisio sicrhau arbedion adnoddau ar wasanaethau cysylltedd, gwneud gwasanaethau arbed costau eraill yn hygyrch i'r sefydliadau hyn ynghynt drwy PSBA, a datblygu ac adeiladu ymhellach y llwyfan cyffredin ar gyfer cydweithio a rhannu gwasanaethau. Yn bwysig, fodd bynnag, yn hytrach na gweithredu fel ymyrraeth Buddsoddi i Arbed ar wahân, cydnabuwyd yn glir o'r cychwyn bod y prosiect yn darparu cymorth ychwanegol i fenter oedd eisoes yn bodoli ac yn gwella cynnig y fenter honno.

Yn y cyd-destun hwn, pam oedd angen cymorth Buddsoddi i Arbed, o gofio bod y PSBA wedi ei hen sefydlu ac yn weithredol? Mae'r ymchwil astudiaeth achos yn dangos bod dau fater allweddol ar waith:

- yn gyntaf, roedd angen cyllid ysgogi i fynd i'r afael â'r costau cychwynnol sylweddol sydd eu hangen i sefydliadau ymuno â'r rhwydwaith PSBA, sy'n cynnwys gwariant sylweddol na fydd yn cael ei ad-dalu am bump neu chwe blynedd. Rôl Buddsoddi i Arbed oedd mynd i'r afael â'r rhwystr ariannol hwn, gan oresgyn 'cost y newid' a fyddai fel arall wedi atal sefydliadau rhag mynd ati i ddefnyddio PSBA
- yn ail, o ystyried natur y gweithgarwch, nid oedd mathau o gyllid nad oedd angen eu talu'n ôl yn bosibl o gofio materion yn ymwneud â Chymorth Gwladwriaethol ynghylch ymyrryd yn y farchnad (h.y. darparu gwasanaethau band eang â chymhorthdal), gan olygu bod angen math ad-daladwy o unrhyw gymorth cyhoeddus i fynd i'r afael â'r rhwystrau ariannol..

Mae ymgynghoriadau yn awgrymu yr ystyrid hefyd bod y Gronfa Buddsoddi i Arbed yn cyd-fynd yn strategol â PSBA, gyda ffocws ar sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau, gan ddarparu cyfuniad o ysgogwyr ariannol a strategol yn cyfiawnhau cymorth gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed.

*Gweithrediad y prosiect*

Dyfarnwyd £4 miliwn o gymorth Buddsoddi i Arbed i brosiect '*Cyflymu manteision PSBA*' yn 2010, gyda'r cyllid wedi'i roi i'r tîm PSBA dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y cyfraniad ariannol i gynorthwyo i dalu'r costau sefydlu er mwyn i sefydliadau unigol ledled Cymru ymuno â'r rhwydwaith PSBA, gan fynd i'r afael â'r costau cychwynnol sylweddol o integreiddio'r dechnoleg. Roedd y sefydliadau a gefnogwyd yn cynnwys Awdurdodau Lleol, sefydliadau addysgol ac asiantaethau cyhoeddus eraill ledled Cymru.

Mae'r ystod o wasanaethau sydd ar gael ers hynny i sefydliadau ar y rhwydwaith PSBA - er nad yw'r rhain yn cael eu hariannu'n benodol gan Buddsoddi i Arbed - wedi'u crynhoi yn y Tabl isod.

| **Cydran Gwasanaeth** | **Nodweddion PSBA** |
|---|---|
| Gwasanaethau Rhwydwaith Craidd | • Lled band rhwng 1Mbps a 1Gbps<br>• Mynediad i'r Rhyngrwyd a Gwasanaethau Porth<br>• Gallu aml-gast a gwasanaethau cyfeirio IP<br>• Gwasanaethau System Enw Parth (DNS) a chofrestrfa parth<br>• Hidlo cynnwys i fodloni safonau'r Sefydliad Gwylio’r Rhyngrwyd<br>• Cysylltiadau diogel at adnoddau a rennir ac er mwyn gallu rhannu gwasanaethau<br>• Cyrchiad pell |
| Gwasanaethau Rhwydwaith Uwch | Yn ogystal â'r gwasanaethau rhwydwaith craidd gall PSBA ddarparu:<br>• Gwasanaeth Wal Dân a reolir<br>• Gwasanaeth NAT lleol<br>• Anghenion Hydwythedd Arferion<br>• Gwasanaethau terfynu Rhwydwaith Preifat Rhithiwr lleol<br>• Cymorth ar gyfer traffig sydd wedi'i Farcio'n Ddiogel hyd at CYFYNGEDIG<br>Darperir pyrth hefyd i rwydweithiau JANET (ar gyfer addysg), N3 (ar gyfer iechyd) a GCSx (ar gyfer Awdurdodau Lleol). |
| Gwasanaethau Proffesiynol | Mae ymgynghorwyr technegol ar gael ar gyfer gwasanaethau canlynol:<br>• Cyngor technegol gan gynnwys cynllunio capasiti<br>• Cymorth mudo<br>• Ymgynghoriaeth dylunio ac optimeiddio'r Rhwydwaith |

*Ffynhonnell: www.psba.org.uk*

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Mae prosiect PSBA yn ei gyfanrwydd wedi creu manteision rhyddhau arian a manteision nad sy'n rhyddhau arian sylweddol. Y manteision meintiol yn y cyfnod hyd at ddiwedd 2011 oedd £8.5 miliwn mewn manteision rhyddhau arian, ac amcangyfrif o £3.9 miliwn mewn manteision nad sy'n rhyddhau arian. Yn y flwyddyn ariannol 2011/12, y flwyddyn ariannol lawn gyntaf yn dilyn prosiect 'Cyflymu manteision PSBA' , yr amcangyfrif o'r manteision rhyddhau arian oedd £3.4 miliwn a'r amcangyfrif o'r manteision nad sy'n rhyddhau arian oedd £2.4 miliwn.[2]

Ni ellir priodoli'r manteision hyn yn uniongyrchol i'r prosiect 'Cyflymu manteision PSBA'. Fodd bynnag, mae ymgynghoriadau gyda phartneriaid y prosiect yn awgrymu y byddai nifer y sefydliadau sydd wedi ymrwymo i PSBA, wedi bod yn sylweddol is heb y prosiect, o bosibl cymaint â hanner yn is erbyn diwedd y prosiect. Yn ddangosol felly gellir cysylltu tua hanner y manteision amcangyfrifedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 (nid y data cyfanredol hyd at y pwynt hwn), er nad yn uniongyrchol, â phrosiect y Gronfa. O ystyried y potensial ar gyfer cynnal y manteision hyn dros y tymor hwy, mae'r astudiaeth achos yn awgrymu enillion cadarnhaol posibl ar y buddsoddiad ar gyfer cyfraniad sylweddol y Gronfa i PSBA, er nad oes modd mesur yn gywir ar yr adeg hon.

Wedi dweud hynny, bydd effaith y prosiect yn dadfeilio dros gyfnod o amser, gan ei bod yn bwysig cydnabod bod ffocws y prosiect yn benodol ar *gyflymu* ymrwymiad i PSBA, hynny yw darparu ychwanegedd amseru, neu wneud i bethau ddigwydd yn gyflymach nag y byddent wedi digwydd fel arall. Er nad yw'n bosibl i fod yn bendant, mae'n debygol y byddai rhai (os nad pob un) o'r sefydliadau a gefnogir gan y prosiect wedi ymrwymo i PSBA ar ryw adeg, hyd yn oed heb y gefnogaeth ariannol a ddarparwyd. Yn wir, roedd 'potensial ychwanegedd' y prosiect yn ei sail yn canolbwyntio ar amseru, ac felly yn ychwanegedd rhannol, yn hytrach nag ychwanegedd llawn.

Mae manteision ehangach ymyrraeth PSBA wedi cael eu crynhoi'n eang mewn mannau eraill, ac nid oedd tystiolaeth benodol ar gyfer y gwaith hwn o

[2] Gweler http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/valuewales/121002i2s1.pdf

ystyried yr heriau o ran priodoli. Fodd bynnag, mae manteision penodol yn cynnwys gwella trosglwyddo data - o ran diogelwch ac amseru - o fewn a rhwng sefydliadau, a hwyluso ffyrdd newydd o weithio drwy fanteisio ar dechnolegau sy'n dod i'r amlwg (e.e. fideo-gynadledda, cymwysiadau cwmwl, a Phrotocol Llais dros y Rhyngrwyd).

Yn o gystal, drwy gynyddu nifer y sefydliadau ar y rhwydwaith PSBA (drwy gyflymu'r ymrwymiad iddo), mae gwytnwch cyffredinol a chynaliadwyedd ariannol y rhwydwaith wedi gwella o ystyried bod y seilwaith craidd yn cael ei gefnogi trwy gyfrwng cyfraniadau ariannol parhaus gan bartneriaid. Bu'r prosiect Buddsoddi i Arbed felly yn gymorth i ymestyn ac ymgorffori'r rhwydwaith ledled Cymru.

*Beth weithiodd yn dda…*

Rôl y prosiect '*Cyflymu manteision'* oedd darparu cyllid i alluogi sefydliadau i gael mynediad at set o weithgareddau oedd yn bodoli eisoes trwy rwydwaith sefydledig PSBA. Yn hyn o beth, roedd y prosiect Buddsoddi i Arbed yn cynrychioli hwyluso proses oedd wedi'i hen sefydlu, gan chwarae rhan bwysig o 'glirio rhwystrau', ond yn hanfodol nid oedd yn cyflwyno gweithgaredd 'newydd' neu 'wahanol'. Felly, roedd disgwyl i brosiectau gael eu cwblhau a’u chyflwyno’n llwyddiannus.

Wedi dweud hyn, roedd ymgynghoriadau ar gyfer yr astudiaeth achos hon yn dangos bod yr ymyrraeth Buddsoddi i Arbed yn syml, yn cynnwys baich weinyddol gyfyngedig, ac yn rhoi lefel bwysig o hyblygrwydd o ran gweithredu, y ddau ohonynt yn bwysig yn llwyddiant y gweithgaredd.

*… a beth allai fod wedi gweithio’n well*

Mae dau fater yn codi o ran yr hyn a allai fod wedi gweithio’n well, y ddau yn ymwneud â 'phroses' yn hytrach nac 'effaith':

- Yn gyntaf, fel y nodwyd uchod, roedd prosiect '*Cyflymu manteision PSBA*' Buddsoddi i Arbed yn rhan o raglen a chyfres o fuddsoddiadau ehangach sy'n golygu bod gwahanu cyfraniad penodol y Gronfa o ran y manteision a grëwyd yn anodd, ac ar hyn o bryd nid yw'r data ar gael i roi arwydd clir o'r enillion penodol ar fuddsoddiad a grëwyd gan y

buddsoddiad (sylweddol) a ddarparwyd gan y Gronfa. Mae ymgynghoriadau yn dangos bod y Gronfa wedi bod yn bwysig i PSBA, ond mae'n anodd dangos tystiolaeth feintiol i brofi pa mor bwysig.

- Yn ail, nid oedd ad-daliadau wedi eu cysylltu'n uniongyrchol i'r arbedion a grëwyd (h.y. cafodd arian Buddsoddi i Arbed ei ad-dalu yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni, nid pan oedd yr arbedion wedi eu gwireddu yn ymarferol), ac o ystyried y trefniant hwn, byddai mwy o hyblygrwydd o ran amseru ad-daliadau ac amser rhagarweiniol wedi gallu bod yn ddefnyddiol.

*Gwersi allweddol*

Mae tair gwers allweddol sy'n gysylltiedig â chymorth Buddsoddi i Arbed ar gyfer gweithgaredd PSBA yn dod i'r amlwg o'r astudiaeth achos:

- bu'r gefnogaeth gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed yn gymorth i roi mwy o hygrededd a chydnabyddiaeth i PSBA ymhlith y sector cyhoeddus. Yn hyn o beth gall Buddsoddi i Arbed fod yn arddangosiad defnyddiol o bwysigrwydd strategol a phroffil ymyrraeth arloesol a/neu newydd
- er ei fod yn canolbwyntio ar dechnoleg, mae'n bwysig nad yw PSBA - gyda chefnogaeth Buddsoddi i Arbed - wedi cael ei ystyried fel prosiect 'technegol' neu brosiect 'seilwaith' yn unig; mae hyn wedi helpu i sicrhau cefnogaeth ac ymgysylltiad, a sicrhau bod ffocws yr ymyrraeth ar wella gwasanaethau yn cael ei gynnal
- roedd darparu arian ysgogi yn bwysig o ran denu sefydliadau i'r prosiect (neu gyflymu eu hymrwymiad), gan roi hygyrchedd a hyblygrwydd yn y prosiect na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall - yn hyn o beth roedd y 'cynnig ariannol' syml gan Buddsoddi i Arbed yn allweddol i fynd i'r afael â'r rhwystrau ariannol sy'n effeithio ar sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

## Ad-drefnu Adsefydlu ac Ymadfer Iechyd Meddwl

- Derbyniodd y prosiect Ad-drefnu Adsefydlu ac Ymadfer Iechyd Meddwl £564 mil o arian Buddsoddi i Arbed, gan alluogi i lety a gwasanaethau newydd gael eu datblygu o fewn eu hardal ar gyfer cleifion iechyd meddwl. Cyn y prosiect, roedd nifer fawr o gleifion yn cael eu hanfon y tu allan i'r ardal am lety, a oedd yn gostus ac yn rhoi canlyniadau israddol i gleifion.
- Roedd y prosiect yn caniatáu i un ward gael ei datgomisiynu un ward, ac agor llety newydd, gan arwain at ddychwelyd cleifion o'r tu allan i'r ardal, atal mwy o gleifion rhag mynd y tu allan i'r ardal yn y lle cyntaf, a chyflwyno nifer o wasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned.
- Llwyddodd y prosiect i sicrhau arbedion sylweddol gwerth dros £500 mil o'i flwyddyn gyntaf ymlaen, ac mae wedi dod yn brosiect uchel ei broffil o fewn y Bwrdd Iechyd a thu hwnt.
- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu na fyddai pob un o'r datblygiadau a gyflawnwyd wedi bod yn bosibl heb arian Buddsoddi i Arbed h.y. crëwyd ychwanegedd maint.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Costau anfon cleifion allan o'r ardal yn uwch na darparu gofal yn lleol, a bod gofal lleol yn cael ei ystyried i fod yn darparu gwell canlyniadau i gleifion<br>• Gallai datgomisiynnu ward gan y bwrdd iechyd ryddhau cyfalaf er mwyn darparu mwy o ofal yn lleol, ond heb Buddsoddi i Arbed nid oedd y cyfalaf ar gael | • Dychwelyd cleifion o ofal allan o'r ardal, lleihau costau - yn uniongyrchol o ran costau gofal ac yn anuniongyrchol o ran amser teithio a chostau teithio uniongyrchol<br>• Gwella canlyniadau i gleifion drwy ddarparu gofal yn nes at adref, mewn amgylchedd mwy cyfarwydd | • Buddsoddiad gwerth £564 mil gan Buddsoddi i Arbed<br>• Prosiect yn cael ei redeg gan dimau yn y bwrdd iechyd, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector<br>• Sefydlwyd gofynion ystâd yn gyntaf<br>• Yna datgomisiynwyd un ward, gyda chynnydd yn nghapasiti'r uned newydd, yn cynnwys agor Uned Gofal Dwys Seiciatryddol<br>• Dechrau amrywiaeth o wasanaethau cymunedol a llety â chymorth, yn cynnwys gwasanaethau ar gyfer oedolion hŷn | • Arbedion rhyddhau arian gwerth £541 mil ym mlwyddyn gyntaf y prosiect gydag arbedion wedi eu rhagamcanu i barhau<br>• Dychwelyd 30 o gleifion o ofal tu allan i'r ardal<br>• Atal mwy o gleifion rhag mynd allan o'r ardal oherwydd bod capasiti digonol yn yr ardal leol<br>• Ehangu gofal yn y gymuned, gyda mwy o amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer gofal | • Gwasanaethau iechyd meddwl nawr yn gweithredu yn fwy fel un system<br>• Gwell canlyniadau ar gyfer cleifion drwy gael gofal yn eu hardal leol a chael gofal cymunedol ehangach |

*Cefndir y prosiect*

Cafodd y prosiect Ad-drefnu Adsefydlu ac Ymadfer Iechyd Meddwl ei ddatblygu gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, sy'n cwmpasu ardaloedd Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Deilliodd y prosiect o ffocws y Bwrdd Iechyd ar ddarparu gofal 'yn nes adref', gan gyd fynd ag agenda

genedlaethol Cymru'n Un, ac wedi'i adeiladu ar waith rhaglen tair blynedd o weithgarwch a'i rhagflaenodd er mwyn dychwelyd unigolion â phroblemau iechyd meddwl o leoliadau costau uchel y tu allan i'r ardal. Roedd y rhaglen gynharach hon wedi sicrhau dychweliad nifer sylweddol a pharhaus i ddarpariaeth gwasanaethau lleol a gostyngiad mewn costau gofal iechyd.

Felly, roedd y prosiect Buddsoddi i Arbed yn adeiladu ar lwyfan a model ymyrraeth oedd eisoes yn bodoli, a oedd wedi cael eu profi i ysgogi ad-drefniant sylweddol yn y gwasanaethau. Y sail resymol a oedd yn tanategu'r prosiect oedd moderneiddio gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl o'r ardal oedd â phroblemau iechyd meddwl cymhleth a pharhaus, gan:

- ddychwelyd cleifion i'r ardal leol o leoliadau costau uchel y tu allan i'r ardal, gyda llawer o bobl wedi mynd i Loegr lle roedd y llety priodol agosaf wedi ei leoli (pellter sylweddol o ganol a De-orllewin Cymru)
- atal lleoli pellach y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol
- datblygu cyfres eang o opsiynau gofal, gan gynnwys dewisiadau amgen i ofal cleifion mewnol, megis tai â chymorth.

Elfen bwysig o sail resymegol y prosiect oedd i ddod â phobl yn ôl i'r ardal, neu eu cadw yn yr ardal, er mwyn sicrhau gwell cysylltiadau gyda'u teuluoedd, eu dibynyddion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwasanaethau lleol, ochr yn ochr ag angen clir i ysgogi arbedion effeithlonrwydd o ran costau darpariaeth iechyd meddwl.

Dyfarnwyd £564 mil i'r prosiect gan Buddsoddi i Arbed, gyda chyfanswm y gost o ad-drefnu'r gwasanaeth yn £2 miliwn. Mae ymgynghoriadau yn nodi bod defnydd o adnoddau mewnol wedi cael ei ystyried, gyda'r rhaglen tair blynedd gynharach wedi'i hariannu yn fewnol. Fodd bynnag, roedd y gweithgaredd wedi *'mynd mor bell ag y gallai'* heb gyllid ychwanegol. Felly, canolbwyntiwyd adnodd Buddsoddi i Arbed ar gyflawni'n uniongyrchol yn erbyn y tri llinyn gwaith a nodwyd uchod a hefyd galluogi datgomisiynu ward adsefydlu tymor hir a ystyrid yn anaddas at y diben. Datgomisiynu'r ward oedd y galluogydd allweddol i lawn wireddu'r prosiect, gyda'r cyfalaf i gyflawni hyn heb fod ar gael heb gronfa Buddsoddi i Arbed. Roedd y £564 mil yn

galluogi gwireddiad llawn trwy wrthbwyso costau cyflogau tra bod y gwasanaethau'n cael eu had-drefnu a'u tyfu o'r newydd trwy recriwtio.

*Gweithrediad y prosiect*

Cafodd y prosiect Buddsoddi i Arbed, oedd yn rhedeg o 2010-2013, ei gynnal gan wasanaethau iechyd meddwl Hywel Dda, mewn partneriaeth â'r tri awdurdod lleol a gwmpesir gan Hywel Dda, sefydliadau'r trydydd sector, a'r tîm Moderneiddio a Gwasanaethau Cymunedol yn y Bwrdd Iechyd. Cymerodd y prosiect ymagwedd "systemau cyfan", gan edrych ar y prosiect o fewn cyd-destun yr holl wasanaethau iechyd meddwl yn y Bwrdd Iechyd, gyda nifer o gamau gweithredu i ddod â newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaethau ym meysydd Gwasanaethau Adsefydlu Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Aciwt a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn. Fel y nodwyd uchod, elfen graidd o'r prosiect oedd galluogi datgomisiynu uned adsefydlu arhosiad hir, a wnaeth yn ei dro ryddhau’r adnoddau a'r gallu i ddarparu ystod o gamau gweithredu eraill. Sefydlodd y cyntaf o'r camau gweithredu hyn y gofynion ystâd er mwyn cyflawni nodau datganedig y prosiect. Yna, daeth datblygiadau, gan gynnwys:

- twf mewn llety er mwyn cefnogi dychweliad cleifion o'r tu allan i'r ardal
- datblygu gwasanaethau iechyd meddwl lleol, gan gynnwys dewisiadau amgen i ofal cleifion mewnol, a chymorth i symud pobl ymlaen o ofal cleifion mewnol, e.e. Gwasanaeth Dydd Therapiwtig ac opsiynau llety argyfwng
- ystyried opsiynau ar gyfer oedolion hŷn a darpariaeth gymunedol
- agor Uned Gofal Dwys Seiciatrig (PICU), ac Uned "Asesu i Dderbyn" Aciwt, yn 2012.

Roedd uned fach, pum gwely, eisoes wedi'i chomisiynu, ar safle sy'n eiddo i'r ysbyty cyfagos yng Nghaerfyrddin. Roedd hon wedi dod yn weithredol cyn y prosiect Buddsoddi i Arbed, yn 2008, ac eisoes wedi dangos yr arbedion posibl o ddarparu gofal lleol, gan arwain at arbedion o £413 mil yn 2008/09, a £503 mil yn 2009/10, gyda'r prosiect Buddsoddi i Arbed yn dechrau yn 2010. Galluogodd Buddsoddi i Arbed yr uned hon i ehangu i gynnwys 14 o welyau

ar gyfer cleifion ag anghenion iechyd meddwl, pedwar gwely ar gyfer gofal llai dwys, a gwasanaeth dychwelyd cyflenwol. Heb Buddsoddi i Arbed, byddai rhai, ond nid pob un o'r datblygiadau a gyflawnwyd wedi bod yn bosibl.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Roedd y manteision a gyflawnwyd gan y prosiect fel a ganlyn, gyda’r manteision yn rhai parhaus:

- Dychwelyd 30 o bobl o ofal y tu allan i'r ardal, ac atal unrhyw unigolion eraill rhag mynd allan o'r ardal am ofal. Dywedodd partneriaid y prosiect, er y byddai'r datblygiad cadarnhaol hwn o bosib wedi digwydd beth bynnag, heb Buddsoddi i Arbed byddai wedi digwydd yn arafach, yn rhannol oherwydd na fyddai'r uned diogelwch isel a ddatblygwyd gan y prosiectau wedi cael ei chyflawni. Bu profiad y prosiect Buddsoddi i Arbed yn gymorth i roi'r hyder i'r Bwrdd i fwrw ati i ddatblygu llety diogelwch isel.
- Lleihad mewn gwariant gofal iechyd parhaus, yn uniongyrchol oherwydd llai o gostau wrth ddarparu llety o fewn y GIG, ac yn anuniongyrchol drwy leihad mewn costau teithio ac amser teithio o ganlyniad i gael cleifion yn lleol, heb unrhyw angen am deithio hir ar gyfer ymweliadau cleifion. Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed cyn y prosiect Buddsoddi i Arbed, rhoddodd newidiadau i wasanaethau iechyd meddwl arbedion ariannol o £541 mil yn 2010/11, gyda'r prosiect Buddsoddi i Arbed yn arbed mwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Cafodd yr arbedion effeithlonrwydd costau eu hailgylchu i gyllidebau'r gwasanaethau craidd, gan ddarparu adnoddau ar gyfer buddsoddi mewn staffio, a gwelliant i'r cynnig gwasanaeth drwy greu mwy o welyau ar gyfer cleifion.
- Lleihau hyd arhosiad oherwydd bod cleifion yn nes at eu cartref a'u teulu, yng Nghymru, ac mewn amgylchedd Cymraeg, gwella canlyniadau cleifion trwy gael mynediad at wasanaethau cymunedol, lleoliadau yn y gymuned, ac adleoli wedi'i deilwra'n unigol. Hefyd, sefydlwyd gwasanaeth cymunedol yn benodol ar gyfer oedolion hŷn sy'n gleifion iechyd meddwl, datblygwyd mathau eraill o ofal i gleifion

mewnol, cryfhawyd timau adnoddau cymunedol ac anogwyd datblygiadau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd ail-ganolbwyntio gwasanaethau i oedolion hŷn hefyd yn fodd o wella asesiad a thriniaeth, gan ddod â’r rhain i leoliadau sy’n nes at adref, ac roedd cael darpariaeth fwy helaeth ar waith yn caniatáu i reoli risg cleifion gael ei wneud yn effeithiol, a hynny yn ei dro yn lleihau'r galw am welyau i gleifion mewnol. Dywedwyd bod arweinwyr y prosiect wedi dod o hyd i dystiolaeth o welliannau i ansawdd bywyd o ganlyniad i'r prosiect, gyda hyd arhosiad byrrach.

Er nad oedd y prosiect yn cael ei ystyried fel un o'r rhai mwyaf uchel ei broffil yn y Bwrdd Iechyd ar ddechrau'r prosiect, adroddwyd bod y manteision a grëwyd wedi cynyddu ei broffil. Yn ogystal, bu dysgu ehangach ar gyfer y Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r prosiect, yn rhannol oherwydd y ffaith iddo gael ei gyflwyno ar draws tair ardal gyfansoddol y Bwrdd Iechyd gan roi trosolwg integredig ar draws yr ardaloedd a reolir gan dri cyfarwyddwr sir. Fel dull arloesol o ddychwelyd cleifion i’w hardal, adroddwyd bod y prosiect hefyd yn cael ei gydnabod yn allanol fel 'arfer gorau' - er enghraifft, mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi cyfarfod â Hywel Dda ar nifer o achlysuron i ddysgu am y prosiect dychwelyd.

*Beth weithiodd yn dda…*

Nodwyd y pwyntiau canlynol trwy'r astudiaeth achos fel penderfynyddion allweddol o lwyddiant y prosiect wrth gyflawni arbedion effeithlonrwydd a manteision mewn gwasanaethau:

- Roedd tîm y prosiect yn gyfrifol am gyllidebau'r ddau wasanaeth ar gyfer iechyd meddwl, gan reoli cyllidebau ar gyfer comisiynu mewnol ac allanol. Golygai hyn y gallai arian gael ei drosglwyddo o un gyllideb i'r llall er mwyn ariannu parhad y prosiect a'r dull systemau cyfan yn hyblyg. Cyn Buddsoddi i Arbed nid oedd hyn yn bosibl, gydag ymddiriedolaethau a byrddau ar wahân. Roedd hyn yn galluogi'r tîm i symud yn gyflym ac ymateb i anghenion oedd yn newid. Ar ben hynny, drwy ddatgomisiynu un ward ac agor unedau newydd, roedd yn bosibl

cyfuno staff newydd a staff profiadol, a oedd yn golygu bod yr unedau newydd yn elwa o staff profiadol.

- Canolbwyntiwyd ymdrech sylweddol ar gynllunio o gwmpas risgiau posibl gyda'r prosiect, yn risgiau ariannol a risgiau clinigol o ran adleoli unigolion , gyda chyfathrebu rhwng yr holl bartneriaid sy'n rhan o'r dychweliad yn ffactor bwysig wrth sicrhau pontio llyfn o'r gofal y tu allan i'r ardal i ofal lleol. Ystyriwyd bod templed ac athroniaeth y prosiect yn gadarn wrth leihau'r risgiau hyn.
- Roedd perthynas dda gyda'r adrannau caffael yn yr awdurdodau lleol, roedd y trydydd sector yn gefnogol, ac roedd model gweithredu da i weithio gydag ef. Gweithiodd tîm craidd y Bwrdd Iechyd gydag adrannau caffael awdurdodau lleol i gaffael llety. Er bod llety sylweddol yn bodoli yn lleol, nid oedd bob amser yn addas at y diben (fel y nodwyd mewn dadansoddiad anghenion), felly datblygwyd byw â chymorth yn Sir Benfro, ac ystyriwyd ei fod yn llwyddiant. Nawr fod llety wedi ei gaffael, mae hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol. Yn wir, mae'r tîm yn awr yn ystyried symud ymlaen i'r gwaith o ddatblygu uned diogelwch isel.

*… a beth allai fod wedi gweithio'n well*

Roedd rhai rhwystrau annisgwyl i gynnydd, gyda thystiolaeth yn dod i'r amlwg yn golygu bod angen newidiadau i'r cynllun gwreiddiol ar gyfer y prosiect, a hefyd er mwyn cynnwys canlyniadau ymgynghori â staff a rhanddeiliaid. Er nad oedd yn rhywbeth y bwriadwyd erioed i'r prosiect fynd i'r afael ag ef, roedd gwahaniaeth rhwng y rhywiau hefyd yn amlwg, gyda'r llety yn benodol ar gyfer cleifion gwrywaidd. Fodd bynnag, mae cais Buddsoddi i Arbed arall wedi cael ei ystyried ar gyfer uned i ferched.

Yn fwy cyffredinol mae tri mater yn codi:

- Adroddwyd bod peth gwrthwynebiad yn wreiddiol, gyda phryder gan rai aelodau o'r cyhoedd oherwydd y math o gleifion oedd yn cael eu dwyn yn ôl i'r ardal leol. O ystyried achosion cymhleth a gofynion dwys y cleifion dan sylw, cydnabuwyd bod rhywfaint o wrthwynebiad yn bosibl

o du’r cyhoedd i ddod â mwy o'r bobl hyn i'r ardal leol, er gwaethaf yr ymdrechion a gymerwyd i leddfu pryderon.

- Byddai lledaenu gwybodaeth wedi gallu bod yn well yn gynharach yn y prosiect, gydag ymdrechion yn canolbwyntio ar gael y prosiect ar ei draed. Fodd bynnag, mae hyn wedi gwella'n sylweddol yn ystod y 18 mis diwethaf, gyda mwy o gyfarfodydd a phwyllgorau ynglŷn â’r hyn sy'n cael ei ddarparu, canlyniadau, costau ac arbedion effeithlonrwydd.
- Byddai adolygiad ffurfiol ar ddiwedd y prosiect gyda'r tîm Buddsoddi i Arbed wedi bod o fudd, gyda'r adroddiadau chwarterol yn dod i ben ar derfyn y prosiect, a dim gweithgaredd dilynol. Wedi dweud hynny, mae monitro mewnol wedi parhau, ac mae hyn wedi gwella o ganlyniad i'r gyfundrefn sydd yn ei lle ar gyfer Buddsoddi i Arbed, gyda mwy o wybodaeth ar gael wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Hefyd, mae astudiaeth achos allanol wedi cael ei chynhyrchu.

*Gwersi allweddol*

Yn ychwanegol at y negeseuon a nodir uchod, roedd dwy wers allweddol wedi deillio o'r prosiect:

- Yn gyntaf, er yn yr achos hwn nad oeddent yn effeithio ar lwyddiant y prosiect, mae'r amgylchiadau annisgwyl a brofwyd yn pwysleisio’r angen i fod yn gyson ymwybodol o unrhyw faterion a all effeithio ar y prosiect, a bod â chynlluniau priodol wrth gefn a systemau rheoli risg yn eu lle.
- Yn ail, agwedd bwysig o'r prosiect oedd y dull "systemau cyfan". Roedd defnyddio dull o'r fath yn golygu, yn yr achos hwn, nad oedd y prosiect yn eistedd ar ei ben ei hun, ond yn hytrach yn rhan o'r gwasanaethau iechyd meddwl yn gyffredinol, sy'n golygu bod y prosiect yn cysylltu â gweddill y gwasanaethau iechyd meddwl i gael y budd mwyaf o effaith bosibl y prosiect.

## Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un

- Mae Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un yn fenter flaenllaw o weledigaeth Casnewydd yn Un i weddnewid gwasanaethau cyhoeddus. Roedd y prosiect yn ceisio uno rhwydwaith cymhleth a thameidiog o ganolfannau gwasanaethau cwsmeriaid cysylltiedig â thema gwasanaethau cymunedol, trwy sefydlu model 'prif ganolfan a lloerennau' cydlynol a hygyrch, gan gysylltu cwsmeriaid â gwasanaethau yn well; roedd cyfleuster gwasanaeth cwsmeriaid newydd yn greiddiol i hyn.
- Arweiniwyd prosiect yr Orsaf Wybodaeth gan dîm prosiect yng Nghyngor Dinas Casnewydd, ond roedd yn cynnwys ystod eang o bartneriaid o bob rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol; roedd mwy o weithio mewn partneriaeth yn nodweddiadol o ddatblygu prosiect a'i roi ar waith.
- Mae prosiect yr Orsaf Wybodaeth wedi ei gwneud yn bosibl i waredu eiddo, gan arwain at arbedion o £580 mil y flwyddyn, ynghyd ag arbedion adnoddau net o £139 mil. Mae'r arbedion ariannol hyn yn cael eu cyfuno â chynnydd sylweddol mewn ansawdd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau i gwsmeriaid.
- Dengys y dystiolaeth fod arian Buddsoddi i Arbed yn alluogydd hollbwysig ar gyfer buddsoddi mewn partneriaeth, gan wasanaethu fel llwyfan a symbylydd ar gyfer cefnogaeth ddilynol asiantaethau partner.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Angen integreiddio a chanoli darpariaeth gwasanaethau cwsmeriaid a chymunedol a oedd yn dameidiog ledled yr ardal, ac a ddaeth i gael ei hystyried gan ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn aneffeithlon ac o ansawdd gwael<br>• Tanategu methiannau cydgysylltu ar draws gwahanol feysydd polisi a darpariaeth gwasanaeth a sefydliadau yn yr ardal | • Hwyluso gwell mynediad uniongyrchol ar gyfer y cyhoedd at ystod o wasanaethau wedi eu canolbwyntio ar ddinasyddion trwy sefydlu canolfan gwasanaethau cwsmeriaid wyneb-yn–wyneb, amlasiantaeth a chanolfannau lloeren yn Ninas Casnewydd<br>• Gwella gwasanaeth trwy becyn o fesurau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd gwell a mwy hygyrch, gan gynnwys trwy ymgysylltu, cyfathrebu, 'newid cyfrwng' ar y we a chyflenwi gwasanaeth trwy bartneriaeth | • £700 mil o gefnogaeth arian Buddsoddi i Arbed<br>• Cyllid arall trwy werthu asedau dros ben, cyllid gan bartneriaid (e.e. cyllid i sefydlu Uned Cam-drin Domestig yn yr adeilad) a chymorth mewn nwyddau gan asiantaethau cydweithredol.<br>• Ailwampio'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Ninas Casnewydd<br>• Adleoli 300 o bob rhan o ddarpariaeth gwasanaethau cymunedol y Cyngor a'i bartneriaid | • Gwaredu eiddo gwerth hyd at £580 mil y flwyddyn, ac arbediad adnodd net o £139 mil<br>• Ail-fuddsoddi arian a ryddhawyd, er mwyn gwella gwasanaethau i gwsmeriaid, gan arwain at wobrau gwasanaeth i gwsmeriaid, cydnabyddiaeth genedlaethol a gwell adborth o holiaduron cwsmeriaid<br>• Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau a lleihad mewn atgyfeirio a diffygion gyda dyblygu | • Gwelliannau effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaethau cymunedol<br>• Gwell ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth ledled y gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardal<br>• Cyfrannu at adfywiad a datblygiad economaidd canol y ddinas trwy brynu yn lleol a gwella adeiladwaith ffisegol yr ardal |

*Cefndir y prosiect*

Mae Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un yn fenter flaenllaw sy'n deillio o weledigaeth Casnewydd yn Un (Bwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd) i

weddnewid gwasanaethau cyhoeddus ac, yn benodol, eu hansawdd, eu heffeithiolrwydd a'u heffeithlonrwydd.  Bwriad prosiect yr Orsaf Wybodaeth oedd uno'r hyn a welwyd fel rhwydwaith cymhleth a thameidiog o ganolfannau gwasanaethau cwsmeriaid sy'n tangyflawni ledled ardal Casnewydd. Mae pob un yn gysylltiedig â thema gwasanaethau cymunedol penodol a bwriedir sefydlu model 'prif ganolfan a lloerennau' cydlynol a hygyrch, sy'n gallu cysylltu cwsmeriaid â gwasanaethau yn well.

Daeth y dystiolaeth sy'n sail i'r prosiect o ddadansoddiad tymor hir o arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid, a dadansoddiadau mewnol o effeithiolrwydd gwasanaethau cwsmeriaid, wrth ddangos yr un pryd, yr angen am lwyfan darparu gwasanaethau symlach a mwy hygyrch.

Yn y cyd-destun hwn, amcanion prosiect Gorsaf Wybodaeth oedd:

- hwyluso gwell mynediad at wasanaethau ar gyfer dinasyddion lleol
- gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaethau
- ysgogi a galluogi gweithio amlasiantaeth ym maes darpariaeth gwasanaethau cymunedol

Rôl arian Buddsoddi i Arbed oedd rhoi llwyfan adnodd refeniw cychwynnol i fuddsoddiad dilynol gan y Cyngor a'i bartneriaid: gan roi sail gadarn i'r prosiect a chefnogi'r ymdrech gynllunio sylweddol sydd ei hangen i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth cynllunio gwasanaethau, cyfreithiol ac ymarferol sy'n gynhenid mewn prosiect o'r math hwn, (e.e. dylunio, cynllunio).

Ystyriodd partneriaid y prosiect fod arian Buddsoddi i Arbed yn hanfodol i hwyluso'r model partneriaeth, cael gwared ar y rhwystrau sy'n dod o fuddsoddiadau cydweithredol o'r math hwn h.y. lle na all un sefydliad (neu lle nad yw'n fodlon) chwarae rôl y cyllidwr craidd, o ystyried y risgiau cynhenid pe bai partner yn tynnu'n ôl a/neu rwystrau ymarferol i rannu/cydgrynhoi adnoddau.  Roedd goresgyn y methiannau hyn o ran cydgysylltu, mewn cyflenwi ac ariannu, yn greiddiol i sail resymegol cefnogaeth Buddsoddi i Arbed i'r prosiect.

*Gweithrediad y prosiect*

Gan ddechrau yn 2009, arweiniwyd prosiect Gorsaf Wybodaeth gan dîm prosiect yng Nghyngor Dinas Casnewydd gyda chefnogaeth partneriaid a oedd yn cynnwys: Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Cyngor ar Bopeth, Cymunedau yn Gyntaf, Canolfan Byd Gwaith, Heddlu Gwent, Cartrefi Dinas Casnewydd, Prifysgol Cymru, Casnewydd, Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru, a phartneriaid cysylltiedig.

Roedd rhaglen gychwynnol helaeth o fapio prosesau, ailstrwythuro prosesau busnes, a chynllunio pontio sy'n cynnwys cydrannau gwasanaethau'r Cyngor a'i bartneriaid yn ganolog i'r broses gynllunio. Roedd y broses yn hanfodol er mwyn datblygu ateb ymarferol i ddarpariaeth gwasanaethau yn yr Orsaf Wybodaeth, ac yn cynnwys cynhyrchu cynlluniau datblygu penodol i feysydd gwasanaethau unigol, ochr yn ochr â thrafod telerau mentrau partneriaeth amlasiantaeth.

Yn ogystal, tanategwyd y broses ddatblygu gynnar gan raglen eang o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd hyn yn ymgysylltu rhanddeiliaid wrth lunio model cyflenwi gwasanaeth yn yr Orsaf Wybodaeth.

Ochr yn ochr â datblygu'r model gweithredol, roedd y prosiect yn cydlynu'r gwaith o symud timau gwasanaethau sy'n bodoli eisoes i gyfleuster canolog newydd ei ailwampio. Roedd gan y cyfleuster ystafelloedd gwasanaethau cwsmeriaid integredig, ochr yn ochr ag amgylchedd swyddfa cynllun agored modern gweithio ystwyth sy'n ffafriol i weithio amlasiantaeth, traws-wasanaeth.

Agorodd canolfan yr Orsaf Wasanaeth ym mis Ionawr 2012, gan ddarparu mynediad at ystod eang o wasanaethau, fel y crynhoir yn Nhabl 1 isod, mewn un lleoliad, yn hytrach nac mewn rhwydwaith o ganolfannau a chyfleusterau ledled y Fwrdeistref.

**Gwasanaethau'r Orsaf Wybodaeth**

| | |
|---|---|
| Bathodynnau Glas<br>Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS)<br>Ardrethi Busnes | Cyngor ar Bopeth<br>Trwyddedu<br>Undeb Credyd<br>Cynllunio |

| | |
|---|---|
| Canolfan Byd Gwaith<br>Uned cam-drin domestig (uned amlasiantaeth)<br>Gwasanaethau ailgartrefu<br>Y dreth gyngor<br>Budd-daliadau tai | Gwasanaethau Cymdeithasol (gan gynnwys plant a theuluoedd, amddiffyn plant, penodiaethau, mynediad at gyflogaeth â chefnogaeth)<br>Atgyfeiriadau ymarfer corff |

*Ffynhonnell: Cyngor Dinas Casnewydd*

Ariannwyd y prosiect gan nifer o bartneriaid a chronfeydd, gan gynnwys arian a ryddhawyd trwy waredu eiddo gwag a gwobrau am fentrau penodol (megis sefydlu Uned Cam-drin Domestig). Roedd y pecyn ariannu hwn yn cynnwys £700,000 o gronfeydd ad-daladwy Buddsoddi i Arbed.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Mae prosiect Gorsaf Wybodaeth wedi cyflawni manteision rhyddhau arian sylweddol trwy waredu eiddo gan iddo adleoli cyfleusterau sy'n darparu gwasanaethau, gan arwain at gyflawni arbedion gwerth £580,000 yn y flwyddyn lawn gyntaf hyd at 2013. Mae'r prosiect hefyd wedi cyflawni arbedion adnoddau net wrth ddarparu gwasanaethau hyd yma o £139,000, gyda'r Cyngor yn ail-fuddsoddi'r arbedion mewn datblygu ansawdd a chwmpas cyflenwi gwasanaethau.

Mae'r arbedion rhyddhau arian yn cael eu cyfuno â manteision sylweddol o ran ansawdd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau i gwsmeriaid yr adroddir arnynt. Dengys tystiolaeth a ddarparwyd gan ymchwil yr astudiaethau achos fod y prosiect wedi rhoi:

- gwell lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid â darpariaeth gwasanaethau, gyda thystiolaeth o arolygon a gynhaliwyd yn dilyn rhoi'r prosiect Gorsaf Wybodaeth ar waith. Mewn gwirionedd, mae'r gwelliannau o ran gwasanaethau cwsmeriaid a ddaeth o'r Orsaf Wybodaeth wedi derbyn cydnabyddiaeth eang am ragoriaeth. Yn benodol, dyfarnwyd gwobr 'Gwasanaeth Gorau i Gwsmeriaid y Stryd Fawr' i'r prosiect yn rhestr Gwobrwyon Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Chanolfannau Galwadau Ewrop 2012.

- lefelau uwch o gwsmeriaid yn defnyddio'r gwasanaethau a lleihad o ran atgyfeirio a diffygion dyblygu, fel y dangosir yn yr adolygiadau perfformiad, er nad oedd data meintiol ar y ffactorau hyn ar gael i'r gwerthuswyr.
- gwell gweithio amlasiantaeth, gydag amryw fentrau yn deillio o'r Orsaf Wybodaeth, gan arwain at welliant yn y gwasanaeth a gynigir i'r dinesydd a defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor a phartneriaid.

Ochr yn ochr â manteision 'defnyddwyr gwasanaethau' y prosiect, mae'r Orsaf Wybodaeth hefyd wedi rhoi manteision ansoddol i bartneriaid y prosiect, gyda'r potensial i ddarparu etifeddiaeth hirdymor i arian Buddsoddi i Arbed ar ben yr arbedion ariannol uniongyrchol. Ymhlith y rhain mae gwelliant sylweddol a chynnydd mewn effeithlonrwydd yn y timau gwasanaeth, trwy:

- hwyluso rhannu gwybodaeth, a gweithio traws-wasanaeth ac amlasiantaeth
- cael gwared ar ddyblygu, eithriadau a diffygion mewn cyflenwi gwasanaethau rhwng asiantaethau

Ymhlith manteision ehangach sy'n gysylltiedig ag ailwampio cyfleuster ffisegol yr Orsaf Wybodaeth, nad oeddent yn wreiddiol yn rhan greiddiol o'r sail resymegol ar gyfer ymyrraeth ond sy'n rhoi canlyniadau (cadarnhaol) anfwriadol pwysig, mae cefnogi adfywiad yr ardal leol trwy wella adeiladwaith ffisegol a'r hyn a gynigir yng nghanol y ddinas, a chefnogi datblygu economaidd a chymunedol lleol trwy ddefnyddio 'cymalau cymdeithasol' a 'chaffael lleol' yn y contract ar gyfer llunio ac adeiladu.

*Beth weithiodd yn dda…*

Ar y cyfan, mae prosiect yr Orsaf Wybodaeth wedi cyflawni enillion sylweddol o ran ansawdd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau cwsmeriaid a ddarperir gan Gyngor Dinas Casnewydd a'i bartneriaid. Yn ôl partneriaid y prosiect ac yn yr hyn a welwyd yn y llwybr dogfennau roedd ffactorau allweddol gwireddu'n llwyddiannus y weledigaeth o Orsaf Wybodaeth yn cynnwys:

- Dyfnder y mapio prosesau, ailstrwythuro prosesau busnes a chynllunio'r pontio a wnaed i lywio datblygiad datrysiad gwasanaeth effeithlon ac effeithiol.
- Hyd a lled yr ymgynghori ac ymgysylltu â chwsmeriaid, staff/undebau a rhanddeiliaid a gynhaliwyd i lywio datblygiad datrysiad dichonadwy a chymeradwy'n eang i gyflenwi gwasanaethau

Yn hollbwysig, fodd bynnag, gwelwyd bod llwyddiant prosiect yr Orsaf Wybodaeth yn ddibynnol yn ganolog ar ffactorau y tu hwnt i ansawdd yr adeilad. Yn ogystal â'r ailwampio, datblygwyd model gweithredol newydd ar gyfer darparu gwasanaethau, yn ymgorffori datblygu strwythur trefn lywodraethol, defnyddio darpariaeth gwasanaeth aml-gyfrwng (digidol), cyflwyno protocol rhannu gwybodaeth amlasiantaeth a darpariaeth hyfforddiant staff helaeth. Cafodd y pwyslais hwn ar ddatrysiad *gwella* gwasanaethau effeithiol ei wireddu yn y pen draw ar gyfer yr hyn a ddechreuodd ar ei daith fel cysyniad datblygu *cyfrwng* gwasanaeth yn bennaf.

*… a beth allai fod wedi gweithio'n well*

Y brif her a oedd yn wynebu tîm prosiect yr Orsaf Wybodaeth oedd cymhlethdod y broses ymchwilio, cynllunio a thrafod telerau datrysiad amlasiantaeth dichonadwy effeithiol a oedd yn diwallu anghenion pob partner a'i gwsmeriaid. Roedd y cymhlethdodau hyn yn effeithio'n sylweddol ar gyflymder camau cynnar y prosiect. Gallai'r her hon, yn rhannol, fod wedi ei rheoli/ei lliniaru trwy ddeialog gychwynnol gyda mwy o strwythur iddi, yn cynnwys triniaeth fwy manwl o faterion hollbwysig a dibyniaethau llwybr, megis paramedrau cyfreithiol, i bob partner, wedi'u halinio â dealltwriaeth integredig o sut y byddai'r cyfyngiadau hyn ar lefel partner yn effeithio ar yr amserlen gyffredinol a'r cynllun cyflenwi.

Fel y nodwyd uchod, byddai sefydlu gweithdrefnau monitro i dracio yn feintiol y newidiadau yn y nifer sy'n derbyn gwasanaethau, a lleihad mewn atgyfeirio a diffygion dyblygu, gan gymharu gwaelodlin cyn yr Orsaf Wybodaeth gyda'r sefyllfa wedi'r prosiect, yn y tymor byr ac yn y tymor hwy, hefyd wedi bod o fudd. Heb waelodlin gadarn yn ei lle, nid yw'n bosib deall effeithiau'r Orsaf Wybodaeth.

*Gwersi allweddol*

Y gwersi allweddol o'r prosiect a nodwyd trwy'r ymchwil astudiaeth achos, sy'n berthnasol i asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ledled y meysydd polisi yw:

- Dengys prosiect Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un werth ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynnar wrth ddatblygu ateb amlasiantaeth effeithiol dros y tymor hwy.
- Bu arian Buddsoddi i Arbed yn alluogydd hollbwysig ar gyfer buddsoddi mewn partneriaeth, gan wasanaethu fel llwyfan a symbylydd ar gyfer cefnogaeth ddilynol asiantaethau partner a chynorthwyo i leddfu'r heriau cydgysylltu – yn ymarferol ac yn ariannol – a all rwystro gweithio amlasiantaeth effeithiol.
- Roedd y ffaith fod partneriaid yn cydnabod bod yr ateb corfforol, sef yr ailwampio, angen model gwasanaeth a gweithredol soffistigedig er mwyn gwireddu budd llawn y buddsoddiad yn ffactor hollbwysig i lwyddiant yr Orsaf Wybodaeth. O ran hyn, dylai prosiectau tebyg ganolbwyntio cymaint ar y bwriad i wella gwasanaethau ag ar elfen cyfrwng gwasanaeth/mecanwaith cyflenwi yr ymyrraeth.
- I raddau helaeth, gellir olrhain llwyddiant prosiect yr Orsaf Wybodaeth i lefel yr ymchwil a'r astudiaeth a gynhaliwyd yn ystod y broses gynllunio, ymdrech sy'n hanfodol er mwyn cael gwared ar risg yng nghyfnodau diweddarach y prosiect. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r lefel hon o gynllunio, nid oedd datblygu ateb amlasiantaeth effeithiol a oedd yn diwallu anghenion pob partner a'u cwsmeriaid yn hawdd ac fe gymerodd amser ac ymdrech sylweddol ar draws y bartneriaeth. Yn syml, mae prosiectau amlasiantaeth yn cymryd amser: mae angen i asiantaethau cyflenwi prosiectau a chyllidwyr sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cynlluniau prosiect, achosion busnes a chytundebau cyllido.

## Ein Gofod Caerdydd

- Seiliwyd Ein Gofod Caerdydd ar sail resymegol gadarn wedi'i diffinio'n dda i hybu arbedion effeithlonrwydd, a rhoi'r cyfle am well amgylchedd gweithio i staff, trwy resymoli a gwella'r portffolio eiddo swyddfa ledled Cyngor Caerdydd.

- Darparodd Buddsoddi i Arbed yr adnodd angenrheidiol i gynnal gweithgarwch ymchwil a oedd yn llywio'r gwaith ymarferol. Heb Buddsoddi i Arbed, dywedodd partneriaid y prosiect y byddai'r broses resymoli swyddfeydd wedi bod yn llai strwythuredig ac wedi digwydd yn ddiweddarach, ac o bosib ni fyddai wedi digwydd o gwbl. Chwaraeodd arian Buddsoddi i Arbed rôl allweddol yn y gwaith paratoi er ei fod yn weddol fach, o'i gymharu â chostau cyfalaf gweithredu'r prosiect.

- Caewyd y prosiect ym mis Gorffennaf 2013, felly nid yw'r manteision llawn wedi eu gweld yn llwyr hyd yma. Fodd bynnag, ar y cam hwn cafwyd arbedion rhyddhau arian o £250 mil, trwy resymoli swyddfeydd, gyda derbyniadau cyfalaf pellach o £1.5m wedi gwaredu eiddo.

- Mae Ein Gofod wedi rhoi manteision ansoddol pwysig gan gynnwys gwell cysylltiadau a gweithio trawsadrannol, gwell amgylchedd gwaith i staff, a dysgu sut i weithredu dull rheoli asedau sydd â strwythur a ffocws iddo.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Diffygion gwybodaeth ynglŷn â daliadau eiddo swyddfeydd a chapasiti'r Cyngor, yn cynnwys effeithlonrwydd, defnydd ac ansawdd/addasrwydd at y diben ar hyn o bryd<br>• Yr angen i ysgogi effeithlonrwydd ac arbedion cost trwy ddefnyddio asedau eiddo yn well, er mwyn cwrdd â chyfyngiadau a heriau cyllidebol cynyddol<br>• Argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru i adolygu'r portffolio eiddo swyddfeydd corfforaethol | • Cost is rhedeg yr ystâd swyddfeydd gydag arbedion refeniw o ganlyniad i leihad mewn costau gweithredu a rheoli, gwell perfformiad amgylcheddol adeiladau yn nhermau allyriadau ac ôl troed carbon<br>• Gwella hygyrchedd i adeiladau'r Cyngor<br>• Gwell amgylchedd gwaith, gyda mwy o weithio hyblyg, mwy o adeiladau addas at y diben, swyddfeydd wedi eu trefnu mewn ffyrdd mwy effeithlon a thimau wedi eu cyd-leoli | • Gwerth £250 mil o arian Buddsoddi i Arbed, wedi'i gyfateb i adnoddau'r Cyngor ar gyfer gweithgareddau refeniw<br>• Adnodd cyfalaf y Cyngor o tua £3 miliwn i'w roi ar waith yn y dyfodol<br>• Dau brif faes gweithredu<br>➢ Ymchwil a chynllunio, gan gynnwys mapio ac archwilio portffolio swyddfeydd y Cyngor<br>➢ Gweithredu yn cynnwys gwaredu eiddo, ailwampio<br>• Rhaglen o ymgysylltu ac ymgynghori â staff | • Gwaredu eiddo – wyth wedi'u cwblhau erbyn diwedd y prosiect<br>• Wedi cyflawni arbedion ariannol gwerth £440 mil erbyn i'r prosiect gael ei gau'n ffurfiol<br>• Cyllid cyfalaf gwerth £500 mil o waredu eiddo<br>• Lleihau ôl troed carbon y Cyngor trwy resymoli eiddo<br>• Gwell gweithio trawsadrannol yn y Cyngor<br>• Gwella lles staff a'u canfyddiad o fodlonrwydd â'r amgylchedd gwaith | • Gwell effeithlonrwydd trwy ddefnyddio eiddo swyddfeydd y Cyngor yn well a lleihau ôl troed ar draws y Ddinas<br>• Dros y tymor hir, potensial ar gyfer gwell lles staff i gael ei adlewyrchu mewn darpariaeth gwasanaeth o ansawdd uwch ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth |

*Cefndir y prosiect*

Mae gan Gyngor Dinas Caerdydd bortffolio swyddfeydd sylweddol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau statudol a chyflenwi gwasanaethau. Ceisiodd Ein Gofod Caerdydd fapio hyd a lled portffolio swyddfeydd i lywio'r dasg o weithredu rhaglen rhesymoli eiddo yn ddiweddarach er mwyn sicrhau arbedion ariannol ac alinio'r portffolio yn well i anghenion cyflenwi a busnes y Cyngor.

Gan ddechrau yn 2009, datblygwyd y prosiect yn wreiddiol i fynd i'r afael â dau fater ar wahân, er eu bod yn perthyn:

- **bylchau gwybodaeth**: cyn y prosiect, nid oedd gan y Cyngor ddarlun gyffredinol o raddfa ac ystod ei bortffolio swyddfeydd, nac, yn ei dro, ei ansawdd, effeithlonrwydd/defnydd, unrhyw gyfyngiadau o ran gallu nac i ba raddau roedd yn addas at y diben
- **pwysau ariannol**: gyda chyfyngiadau cyllidebol yn wynebu'r Cyngor, roedd angen hybu effeithlonrwydd ac arbedion cost a nodwyd rhesymoli eiddo yn gorfforaethol fel cyfle posib i gwrdd â'r her hon

Roedd y ddau fater 'mewnol' hyn wrth graidd sail resymegol Ein Gofod. Fodd bynnag, ymatebodd y prosiect hefyd i ysgogwr 'allanol', gydag adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gynllun Rheoli Asedau 2009 y Cyngor yn argymell ei fod yn cynnal adolygiad o'i bortffolio swyddfeydd. Felly, nid prosesau cynllunio busnes neu arfarnu ffurfiol/opsiynau mecanistig wnaeth ysgogi datblygiad Ein Gofod ond, yn hytrach, fe'i datblygwyd fel ymateb pragmatig ac amserol i gwrdd ag ystod o faterion mewnol ac allanol.

Pam Buddsoddi i Arbed? Rhyw bedair blynedd wedi datblygu'r cysyniad gwreiddiol, ni ellir gweld eglurder llwyr ar y mater hwn, wrth i bobl symud ymlaen a gan fod y prosiect wedi esblygu. Fodd bynnag, mae'r llwybr dogfennau ac ymgynghoriadau â phartneriaid prosiect yn awgrymu nad oedd digon o adnoddau mewnol i ariannu'r prosiect yn llawn ar y pryd. Nodwyd Buddsoddi i Arbed fel mecanwaith priodol ac un a oedd ar gael i oresgyn y diffyg hwn. Mae'n bwysig nodi, er ei fod yn 'newydd' i'r Cyngor, bod y prosiect wedi adeiladu ar brofiad mewn mannau eraill ac y bu Cynghorau eraill ledled Cymru yn cynnal prosesau tebyg. Felly, gwelwyd Ein Gofod fel prosiect o

bwys gyda risg gweddol isel a’r potensial i greu enillion sylweddol o’r buddsoddiad.

Yn gyson â’r sail resymegol, nod greiddiol y prosiect oedd cyflawni arbedion effeithlonrwydd adnoddau trwy ryddhau arbedion ariannol trwy resymoli’r gofynion o ran eiddo a, lle bo’n bosibl, derbyniadau cyfalaf o waredu eiddo. Fodd bynnag, roedd bwriad pwysig hefyd i wella gwasanaethau, gyda’r rhesymoli cynlluniedig a ddeuai o’r prosiect yn arwain at amgylcheddau swyddfa mwy modern ac, yn eu tro, arferion gweithio mwy effeithiol a mwy effeithlon.

*Gweithrediad y prosiect*

Roedd dau brif gam i brosiect Ein Gofod: cam cychwynnol ‘ymchwil a chynllunio’, ac yna, cam ‘gweithredu a chyflenwi’. Defnyddiwyd arian Buddsoddi i Arbed, sef tua £250 mil (ochr yn ochr â £85 mil o adnodd mewnol y Cyngor) ar gyfer y cam ‘ymchwil a chynllunio’ yn unig. Er iddo ddechrau’n ffurfiol ym mis Medi 2009, dechreuodd gwaith ymarferol y cam ymchwil a chynllunio ym mis Mawrth 2010. Roedd Rheolwr Prosiect yn ymgymryd â’r gwaith, gan adrodd yn ôl i’r Rheolwr Eiddo Corfforaethol ac Ystadau.

Roedd cam cyntaf y gwaith yn cynnwys:

- Mapio portffolio swyddfeydd y Cyngor ledled ei gyfarwyddiaethau ac adrannau gwasanaethau: nodwyd cyfanswm o 51 o swyddfeydd.
- Archwiliad manwl o’r portffolio a nodwyd, gan gynnwys casglu gwybodaeth ynglŷn â hyd y prydlesi a’u dyddiadau (os wedi’u gosod) neu werth y farchnad (os yn berchen arnynt) ac asesiad o ansawdd a phriodoldeb yr eiddo gan ddefnyddio meini prawf cyson, er enghraifft drwy ofyn:
    - ➢ A yw’r eiddo yn “addas at y diben” – mewn perthynas â chyflwr yr eiddo, a yw yn cydymffurfio’n gyfreithiol (e.e. y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd), a yw mewn lleoliad perthnasol?
    - ➢ A ellir moderneiddio’r eiddo neu a all hwyluso’r gwaith o ddarparu gwasanaeth yn fwy effeithlon?

- A oes lle i nifer mwy o staff yn yr eiddo?
- A yw'n bosib defnyddio'r gofod yn yr adeilad yn fwy hyblyg?

- Ar sail yr archwiliad, datblygwyd Cynllun Gweithredu a oedd yn nodi pa adeiladu oedd i'w cadw, eu hailddatblygu neu eu gwaredu. Ochr yn ochr â'r Cynllun, datblygwyd model ariannol manwl, yn nodi costau ac arbedion yr ymyriadau a gynigiwyd dros gyfnod o 20 mlynedd, hyd 2031.
- Datblygu set o egwyddorion dylunio, yn rhoi trosolwg o'r elfennau craidd i'w cynnwys yn swyddfeydd 'Ein Gofod' wedi'u haddasu at ddibenion newydd yn dilyn cyfuno, er enghraifft, yn ymwneud â dylunio swyddfeydd cynllun agored (ar gyfer adeiladau lle bo hyn yn bosibl), goleuo, ardaloedd tawel, ardaloedd eistedd ac ati.
- Rhaglen o ymgysylltu â staff mewnol, gan gynnwys cyfres o gyfarfodydd, cyflwyniadau a sesiynau briffio gydag Uwch Reolwyr a Chynrychiolwyr Undebau Llafur, yn edrych ar anfanteision canfyddedig posibl i staff yn deillio o adleoli o'r cyfleusterau presennol.

Roedd ail gam Ein Gofod, nad oedd wedi'i gyllido'n uniongyrchol gan Buddsoddi i Arbed ond yn llifo'n uniongyrchol ohono, yn cynnwys cyflawni'r Cynllun Gweithredu. Gwnaed hyn trwy fynd ati fesul cam, gyda'r Cynllun Gweithredu gwreiddiol yn cynnig cadw 24 adeilad a gwaredu 27, gyda phroses sylweddol o gyfuno staff i bedwar 'Adeilad Craidd', sef Neuadd y Ddinas, Neuadd y Sir, Tŷ Willcox a Global Link.

Rhoddwyd y prosiect ar brawf i ddechrau trwy gynllun peilot, gan symud tua 25 o staff o un o'r swyddfeydd y bwriedir ei gwaredu i ardal wedi'i dylunio gan ddefnyddio egwyddorion 'Ein Gofod' yn Neuadd y Sir. Wedi hynny, symudwyd tua 1,800 o staff o bob rhan o swyddfeydd y Cyngor, gan gynnwys ailwampio Tŷ Willcox a Global Link yn llwyr a chau wyth adeilad. Tua £2.6 miliwn oedd cost cyfalaf hyn.

Ar sail y Cynllun Gweithredu gwreiddiol, y cam nesaf oedd cwblhau'r prosiect trwy gau 19 adeilad pellach, gan symud y staff yn dilyn ailwampio sylweddol i Neuadd y Sir a Neuadd y Ddinas. Byddai hyn wedi golygu gwariant

ychwanegol sylweddol, gan gynnwys £8 miliwn i fynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw yn Neuadd y Sir a oedd yn hwyr. Fodd bynnag, yn 2012, yn dilyn newid mewn gweinyddiaeth, penderfynwyd peidio â pharhau â hyn a bu'r Cyngor yn ystyried y posibilrwydd o ddatblygu un safle newydd fel pencadlys. Yn dilyn y penderfyniad hwn, daeth cynlluniau am fwy o weithgarwch Ein Gofod i ben gyda'r prosiect yn cael ei gwblhau'n ffurfiol yng nghanol 2013, gyda chau wyth swyddfa.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Roedd adborth gan bartneriaid y prosiect, gan y rheiny a oedd yn rhan yn ei gyflawni ac o safbwynt cyflenwi gwasanaethau, yn gadarnhaol o ran cyflawniadau a manteision cyffredinol Ein Gofod. Er i gwmpas a graddfa'r prosiect newid yn sylweddol yng nghyfnod ei weithredu, fel y trafodwyd uchod, oherwydd newid yng nghyfeiriad strategol y Cyngor, ystyriwyd bod Ein Gofod yn llwyddiant o safbwynt meintiol a'r safbwynt ansoddol ehangach. Yn nhermau meintiol, erbyn iddo ddod i ben, roedd y prosiect wedi cyflawni:

- bron i £250 mil o fanteision mewn arian trwy lai o gostau rhedeg o ganlyniad i resymoli'r swyddfeydd ym mlwyddyn ariannol 2012/13. Mae hyn yn cynrychioli lleihad o 2.7% o gyfanswm costau rhedeg blynyddol portffolio swyddfeydd y Cyngor.
- daeth £1.5 miliwn pellach o fanteision untro trwy dderbyniadau cyfalaf o waredu eiddo swyddfeydd.

Wrth edrych ymlaen, y targed yw y bydd y manteision mewn arian trwy gostau rhedeg is yn cynyddu i tua £400 mil y flwyddyn (digwyddodd pedwar o'r wyth proses cau ar ddechrau 2013) a chan fod y broses gwaredu swyddfeydd yn parhau (gyda dull o fynd ati i werthu fesul cam er mwyn osgoi ystumio'r farchnad eiddo masnachol) targed y Cyngor yw cyrraedd cyfanswm o £5.3 miliwn mewn derbyniadau cyfalaf. Pe cyrhaeddir hyn, erbyn mis Mawrth 2016 (sef pen y daith at ddibenion monitro) byddai hyn yn gyfwerth â thua £6.75 miliwn o arbedion mewn arian a gynhyrchwyd gan brosiect Ein Gofod.

Trwy'r rhaglen rhesymoli a gwaredu swyddfeydd, mae'r prosiect hefyd wedi cyflawni arbedion amgylcheddol, gyda data a ddarparodd y Cyngor yn dangos bod y prosiect wedi gwella perfformiad amgylcheddol yr ystâd swyddfeydd o

7% erbyn mis Mawrth 2013. Mae'r budd hwn yn cyd-fynd â Nod Corfforaethol y Cyngor o sicrhau fod gan bobl yng Nghaerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy.

Yn ehangach, dengys yr astudiaeth achos fod ystod o fanteision ansoddol ehangach wedi'u cyflawni, gyda thri phrif fath, sef:

- yn gyntaf, trwy symud staff (tua 1,800 i gyd) mae'r prosiect wedi rhoi'r cyfle i wella'r cysylltiadau a gweithio trawsadrannol anffurfiol; yn syml, gyda mwy o rannu lleoliadau yn Nhŷ Willcox a Global Link, mae mwy o gyfleoedd i staff weithio ar y cyd ac ymgysylltu â'i gilydd - arweiniodd hyn yn ei dro at adroddiadau o 'newid meddylfryd' ymhlith y staff hynny
- yn ail ac yn gysylltiedig, mae'r prosiect wedi rhoi gwell amgylchedd gweithio; ceir tystiolaeth o hyn yn anecdotaidd trwy ymgynghori â phartneriaid y prosiect a thrwy dystiolaeth arolwg a ddangosodd gynnydd mewn bodlonrwydd â'r amgylchedd gweithio ymhlith staff a fu'n ymwneud â'r prosiect.
- yn drydydd, mae'r prosiect wedi rhoi profiad a dysg i'r adran Eiddo Corfforaethol ac Ystadau ar sut i weithredu dull rheoli asedau wedi ei reoli sydd â strwythur a ffocws iddo, gyda manteision etifeddol i'r portffolio eiddo ehangach a rheoli adnoddau yn effeithiol (ac effeithlon) yn y dyfodol

I ba raddau mae'r manteision meintiol ac ansoddol hyn yn ychwanegol i Fuddsoddi i Arbed, neu, o'u mynegi mewn ffordd arall, a fyddent wedi digwydd beth bynnag? Mae hyn yn bwysig o gofio'r costau cyfalaf sylweddol oedd ei angen i roi'r prosiect ar waith, nad yw arian Buddsoddi i Arbed yn eu cwmpasu. Wedi ymgynghori â phartneriaid y prosiect gwelwyd bod ychwanegedd Buddsoddi i Arbed yn arwyddocaol. Heb yr adnodd hwn, a'r cyfle a roddodd i neilltuo adnoddau ac amser penodol i'r cyfnod ymchwil, dywedwyd y byddai'r Cyngor wedi parhau i fod yn 'ymatebol' i heriau gofod swyddfeydd gyda dull 'tameidiog' o fynd ati yn hytrach na dull integredig.

Felly, heb Buddsoddi i Arbed, dywedodd partneriaid y prosiect y byddai'r broses resymoli swyddfeydd wedi bod yn llai strwythuredig ac wedi digwydd yn ddiweddarach, ac o bosib, ni fyddai wedi digwydd o gwbl. Gan hynny,

chwaraeodd Buddsoddi i Arbed rôl allweddol yn y gwaith paratoi er ei fod yn weddol fach, o'i gymharu â chostau cyfalaf rhoi'r cynllun ar waith.

*Beth weithiodd yn dda…*

Daeth pedair neges allweddol allan o'r ymchwil astudiaeth achos:

- yn gyntaf, lliniarwyd lefel y risg posibl yn sylweddol wrth roi'r cynllun rhesymoli gofod swyddfa ar waith – yn ymwneud â gwrthwynebiad staff i adleoli, a'r effeithiau posibl ar eu harferion gwaith sefydledig, gan gynnwys teithio – trwy ymarferiad ymgysylltu eang a thrwy gynnal cynllun peilot i roi'r cysyniad ar brawf a dangos manteision posibl dull 'Ein Gofod'
- yn ail, cafodd y prosiect ei gyflawni trwy broses gynlluniedig fesul cam; golygodd y 'dull cynyddraddol' hwn, fel y gelwid ef gan bartneriaid y prosiect, fod yr aflonyddu posibl oherwydd y rhesymoli swyddfeydd yn cael ei leihau i'r eithaf, gyda chynllunio eglur yn ei le – ble, pryd a sut
- yn drydydd, ac yn gysylltiedig i'r pwynt blaenorol, roedd y prosiect yn cynnwys cam ymchwil a chynllunio manwl - a alluogwyd gan y prosiect Buddsoddi i Arbed - gan sicrhau bod y gweithgareddau dilynol wedi'u seilio ar sail dystiolaeth gadarn. Darparodd y cam ymchwil hwn gorff sylweddol o dystiolaeth ar ddaliadau eiddo'r Cyngor, a fydd yn ddefnyddiol yn yr hirdymor wrth i'r Cyngor barhau i ddatblygu ei ddull ar gyfer rheoli asedau
- yn bedwerydd, er mai prosiect 'eiddo' oedd hwn, gwnaeth y tîm craidd ymdrech fwriadol i ymgysylltu â staff o ddisgyblaethau eraill trwy gydol proses y prosiect, gan gynnwys safbwyntiau Adnoddau Dynol, Cyllid, Cyfathrebu, Dylunio ac IS/TG, gan sicrhau y gellid rhagweld problemau a mynd i'r afael â hwy cyn ymgysylltu â staff a chyflwyno'r cynllun yn ymarferol.

*… a beth allai fod wedi gweithio'n well*

Erbyn diwedd y cynllun nid oedd Ein Gofod wedi cyflawni'n llawn o ran ei dargedau gwreiddiol, yn bennaf oherwydd y newid yng nghyfeiriad strategol y Cyngor hanner ffordd trwy'r prosiectau a gafodd effaith sylweddol ar raddfa a

chwmpas y cam gweithredu. Ni allai'r prosiect fod wedi rheoli'r newid hwn. Fodd bynnag, mae'n werth nodi dau bwynt:

- Mae'n bosib y gellid bod wedi cyflawni mwy pe bai'r prosiect wedi dechrau ar amser (yn nhymor yr hydref 2009, yn hytrach na hydref 2010, oherwydd oedi wrth benodi staff); fodd bynnag, ni fyddai hyn wedi newid proffil cyffredinol allbwn a manteision y prosiect
- Gellid bod wedi gwella prosesau monitro, yn enwedig o ystyried y canolbwyntio ar ymchwil yng ngham cyntaf y gwaith. Er enghraifft, er ei bod yn rhy fuan ar yn o bryd i wybod p'un a yw manteision canfyddedig i *staff* wedi arwain at wasanaethau gwell o ran ansawdd i *ddefnyddwyr gwasanaethau a chleientiaid*, nid yw'n ymddangos bod cynlluniau'n bodoli i gasglu'r manteision posibl hyn yn yr hirdymor. Yn yr un modd, fel y cydnabu'r Cyngor yn ei adroddiad cau mewnol, ni osodwyd gwaelodlinau mewn lle i fesur manteision costau teithio posibl rhesymoli'r swyddfeydd, ac felly ni fyddwn yn gwybod beth yw graddfa'r manteision posibl yn y maes hwn.

*Gwersi allweddol*

Dangosodd yr ymgynghoriad â phartneriaid prosiect a'r dogfennau a ddarparwyd i'r gwerthuswyr bod ystod eang o wersi wedi'u dysgu trwy Ein Gofod Caerdydd o ran 'sut i wneud' prosiectau rhesymoli swyddfeydd a rheoli asedau. Dyma wers ddefnyddiol i Gyngor Dinas Caerdydd, gyda'r potensial i'w rhannu'n ehangach ledled y gymuned rheoli eiddo. Yn wir, deallwn fod swyddog arweiniol y prosiect wedi bod wrthi'n lledaenu a chyfleu'r gwersi ymhlith asiantaethau perthnasol.

Fodd bynnag, gwelir y gwersi allweddol a ddaeth o'r prosiect, gyda pherthnasedd trawsthematig i awdurdodau cyhoeddus eraill sy'n ceisio cyflawni arbedion a gwelliannau mewn gwasanaethau, isod:

- Roedd graddfa, ystod a dwysedd yr ymgysylltu â staff i yrru'r prosiect trwodd yn allweddol; nid y wireb bod 'ymgysylltu yn bwysig' yw'r wers yma, ond yn hytrach, mai'r hyn sy'n bwysig yw ymgysylltu 'cynlluniedig, cyson a dwfn', ac mae hyn yn hanfodol os yw staff i'w dwyn i mewn i'r broses. Roedd defnyddio grŵp o staff fel 'hyrwyddwyr' y prosiect yn

fecanwaith ymgysylltu pwysig, a gafodd gryn ddylanwad wrth ddenu'r grŵp staff ehangach.

- Yn yr un modd, mae gallu ac amser yn hanfodol. I brosiect o natur, maint a chwmpas Ein Gofod, mae adnodd penodedig yn allweddol, gan sicrhau bod y gweithgarwch hwn yn 'fusnes craidd' i dîm penodol, yn hytrach na gweithgaredd ychwanegol i grŵp mwy.
- Roedd model rhesymeg y prosiect yn dangos perthynas gadarn, uniongyrchol, wedi'i diffinio'n dda rhwng gweithgarwch ac arbedion ariannol, gan wneud rhoi tystiolaeth o'r manteision yn hawdd i'w reoli ac yn dangos effeithiau yn eglur. Cynorthwyodd hyn i sicrhau bod ffocws a momentwm y prosiect yn cael ei gynnal er gwaethaf pwysau allanol. Yn hyn o beth, roedd cysyniad Ein Gofod yn syml a rhwydd o ran ei gynllun, er bod ei gyflenwi yn fanwl a chymhleth. Mae hyn hefyd wedi bod o gymorth yn y gyfundrefn fonitro ac ad-dalu a roddwyd ar waith yn y Cyngor; roedd ad-dalu Buddsoddi i Arbed wedi'i seilio ar arbedion a wireddwyd yn unig.
- Yn olaf, er ei fod wedi'i deilwra i'r cynnwys lleol, roedd Ein Gofod yn pwyso'n drwm ar weithgarwch oedd yn bodoli eisoes ac enghreifftiau blaenorol o waith tebyg, gan gynnwys adolygiad ffurfiol ar ddechrau'r gwaith o brosesau tebyg mewn awdurdodau lleol eraill, ac ymgysylltu rheolaidd â phartneriaid allanol. Cynorthwyodd hyn i sicrhau bod y prosiect yn tynnu ar arfer da, gan ofalu ei fod yn addas ar gyfer nodweddion lleol. Lle bo'n bosibl, mae adeiladu ar ddysgu sy'n bodoli yn bwysig. Yn y bôn, er bod yna le i arloesi, mae'r prosesau a'r gweithdrefnau craidd ar gyfer ymyriadau gwella gwasanaethau yn aml wedi'u hen sefydlu, a dylid, lle bo'n bosibl, chwilio amdanynt a'u defnyddio.

## Powys Di-bapur

- Nod Powys Di-bapur yw cyflawni arbedion effeithlonrwydd a chefnogi trawsnewidiad busnes a gwelliant drwy symud i broses ddi-bapur ar gyfer trafod a rheoli gwybodaeth ar draws y Cyngor a'i wasanaethau.
- Mae'r prosiect yn un parhaus ond mae wedi dechrau creu manteision yn cynnwys £130 mil y flwyddyn o ryddhau arian rheolaidd o adrannau Gofal Cymdeithasol a Chwynion a £195 mil o arbedion rheolaidd o'r adrannau Trafnidiaeth ac Addysg.
- Er yn brosiect 'newydd' a sicrhaodd adnodd Buddsoddi i Arbed ar sail ei haeddiant ei hun, tynnodd Powys Di-bapur ar brofiad ymyrraeth blaenorol a ganolbwyntiodd ar gysyniadau di-bapur yn yr Adran Refeniw a Budd-daliadau. Cynorthwyodd hyn i leihau risg buddsoddiad arian cyhoeddus a rhoddodd sail tystiolaeth bwysig y gellid adeiladu arni
- Golygodd y prosiect waith ymchwil rhagblaen a pharhaus sylweddol, yn cynnwys astudiaeth Enillion ar Fuddsoddiad fanwl a datblygiad cynlluniau gwireddu manteision. Darparodd y gronfa Buddsoddi i Arbed yr adnodd i gyflawni'r gallu a'r lefel hon o drylwyrder ym mhroses y prosiect. Heb Buddsoddi i Arbed byddai'r trawsnewidiad i fod yn Gyngor di-bapur wedi bod yn arafach ac yn raddol; byddai'r manteision wedi bod yn is o ganlyniad.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Cost a gofod sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a derbyn lefelau sylweddol o bapur ar draws adrannau'r Cyngor<br>• Bwriad strategol gan Raglen Newid Powys er mwyn gwella gwasanaethau ac ymatebed i ddinasyddion yn ogystal â gwelliannau mewn effeithlonrwydd | • Cyflawni arbedion mewn prosesau craidd a gweinyddu<br>• Gwireddu gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a chydymffurfio<br>• Cefnogi strategaethau llety a gweithio hyblyg<br>• Mabwysiadu gweithio di-bapur a dull 'di-ddwylo' ar gyfer darparu gwasanaeth<br>• Cynyddu ymatebedd mewn gweithio traws adrannol ac amlasiantaeth | • Cyfanswm buddsoddiad o £500 mil, yn cynnwys £375 mil gan Buddsoddi i Arbed<br>• Tîm Powys Di-bapur yn cynnwys Rheolwr Prosiect, a goruchwyliaeth gan Fwrdd Di-bapur Powys<br>• Ymchwil i gyfleodd ar gyfer gweithredu gwasanaethau di-bapur ar lefel adran a gwasanaeth<br>• Gweithredu ymgyrch sganio corfforaethol a system rheoli dogfennau electronig<br>• Ymgysylltu â staff a rhaglen hyfforddi | • Arbedion rhyddhau arian gwerth £5.4 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd<br>• Cynnydd mewn lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid a lleihad mewn cwynion gan gwsmeriaid<br>• Lleihad mewn ôl troed carbon drwy leihau cynhyrchu a symud papur ar draws Powys | • Costau is drwy arbedion o ran gofod a chyflogaeth gan gyfrannu at agenda arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian<br>• Prosesau symlach yn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu gwasanaeth cyflymach a mwy cyson i ddinasyddion |

*Cefndir y prosiect*

Arweinir Powys Di-bapur gan Adran TG Cyngor Sir Powys. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gyflawni arbedion effeithlonrwydd a hyrwyddo trawsnewidiad

busnes a gwelliant drwy gefnogi'r trawsnewidiad i broses ddi-bapur ar gyfer trafod a rheoli gwybodaeth ar draws y Cyngor a'i wasanaethau.  Wedi'i ddatblygu i ddechrau yn 2009 ymatebodd y prosiect i ddau fater allweddol:

- yr angen i leihau costau rheoli, prosesu a storio gwybodaeth a dogfennau - sydd ddim yn ansylweddol - fel rhan o ymdrech ehangach ar draws y Cyngor i ymateb i bwysau ariannol mawr; roedd diffyg cyllidebol sylweddol ar adeg y cafwyd y syniad am y prosiect.
- o gofio maint a natur wledig ôl troed gofodol y Cyngor Sir, roedd heriau mewn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel a chost effeithlon oherwydd cyflymder araf a chost uchel symud dogfennau a deunyddiau rhwng adrannau.

Y materion hyn oedd y sail resymegol graidd ar gyfer y prosiect. Fodd bynnag, mae tri phwynt arall yn bwysig mewn deall tarddiad a datblygiad Powys Di-bapur. Y gyntaf, cafodd y prosiect ei ddatblygu mewn ymateb i fwriad strategol y Cyngor a nodwyd mewn rhaglen trawsnewid busnes ehangach ledled y Cyngor o dan y rhaglen 'Cynllun Newid Powys', oedd yn ceisio cysylltu ac alinio yn well weithgarwch y Cyngor i ganlyniadau ar gyfer y dinasyddion a rhoi gwell gwerth am arian. Yn y diwedd daeth Powys Di-bapur yn un o 40 prosiect a oedd yn cyflawni yn erbyn y Cynllun hwn ar draws adrannau'r Cyngor.

Yn ail tanategwyd y prosiect gan asesiad Enillion ar Fuddsoddiad manwl a chynhwysfawr a gynhaliwyd gan ddarparwr rheoli systemau allanol i gwmpasu'r costau a'r manteision posibl i Gyngor Sir Powys o gyflwyno ateb Rheoli Dogfennau yn Electronig (EDM) a Llif gwaith. Canfu'r gwaith hwn arbedion *posibl* dros gyfnod o 5 mlynedd gwerth £5.4 miliwn yn cynnwys:

- Arbedion cost uniongyrchol o £320 mil o ganlyniad i leihad mewn costau argraffu a chostau rheoli papur cysylltiedig
- Lleihad mewn cost proses o dros £720 mil, sy'n cyfateb i tua 30 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn
- Gwelliannau effeithlonrwydd proses/llif gwaith pellach o tua £470 mil, sy'n cyfateb i tua 20 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn ychwanegol,

yn amodol ar y gallu i ail-ddylunio prosesau a chyflwyno dulliau gweithio newydd.

Yn drydydd, er yn brosiect ‘newydd’ a geisiodd ac a sicrhaodd adnodd Buddsoddi i Arbed ar sail ei haeddiant ei hun, tynnodd Powys Di-bapur ar brofiad a gwersi ymyrraeth gynharach oedd yn canolbwyntio ar syniadau di-bapur yn Adran Refeniw a Budd-daliadau y Cyngor yn 2005. Roedd y gwaith cynharach hwn wedi cyflwyno system EDM gan arwain at leihad mewn costau gweithredu (drwy arbedion staff a gofod) ar y cyd a gwella ei gyfradd casglu budd-daliadau.

Felly, roedd prosiect Powys Di-bapur a ariannwyd drwy Buddsoddi i Arbed yn canolbwyntio ar gyflwyno’r prosiect i gasgliad ehangach o adrannau, proses oedd eisoes wedi ei sefydlu’n dda ac yr oedd gan y Cyngor brofiad o’i chyflwyno’n llwyddiannus. Cynorthwyodd hyn i leihau risg ac ansicrwydd y prosiect, er bod prosiect Powys Di-bapur Buddsoddi i Arbed yn gweithredu ar raddfa fwy na’r gweithgaredd Refeniw a Budd-daliadau cynharach.

Yn hyn o beth, a oedd cyfiawnhad cael cymorth Buddsoddi i Arbed ar gyfer y prosiect - hynny yw o gofio’i natur risg isel (h.y. gweithredu proses oedd yn gyfarwydd i’r cyngor), ac oni allai hyn fod wedi ei ariannu drwy adnodd mewnol? Yr achos a wnaed ar y pryd, yn ôl yn 2009, oedd diffyg adnodd mewnol, a gyda gwasgfeuon cyllideb roedd cronfeydd annigonol ar gael i’r Cyngor i gyflenwi’r prosiect fel y bwriadwyd, yn cynnwys ei gyflwyno ar draws nifer o adrannau. Cwblhawyd gwerthusiad dewisiadau pennawd i brofi’r potensial am raglen lai. Fodd bynnag, adroddodd hwn na fyddai dull mwy cymedrol a graddol yn rhyddhau manteision ateb corfforaethol. Felly ystyriwyd Buddsoddi i Arbed yn fecanwaith ariannu priodol gan Gyngor Sir Powys - a Bwrdd Buddsoddi i Arbed.  Roedd y dystiolaeth gadarn o arbedion o’r prosiect Refeniw a Budd-daliadau cynharach yn gymorth yma, gan symud y risg o’r buddsoddiad cyhoeddus.

Yn erbyn y cefndir strategol a gweithredol hwn, amcanion datganedig prosiect Powys Di-bapur oedd:

- Cyflawni arbedion mewn prosesau craidd a gweinyddu, yn cynnwys mabwysiadu dull gweithio di-bapur a ‘di-ddwylo’ ar gyfer cyflenwi

gwasanaeth - gydag arbedion effeithlonrwydd arfaethedig o tua £150 mil y flwyddyn.

- Gwireddu gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a chydymffurfiad
- Cefnogi strategaethau llety swyddfa a gweithio hyblyg
- Cynyddu'r gallu i ymateboldeb mewn gweithio trawsadrannol ac amlasiantaeth

Yn bwysig, o'r dechrau roedd y prosiect wedi ei ganolbwyntio ar geisio cyflawni arbedion ariannol a gwelliannau gwasanaeth drwy brosiect trawsnewid busnes a gweithrediad prosesau 'di-bapur' a fyddai'n arwain at welliannau i lif gwaith prosiectau (hynny yw, sut y caiff dogfennau gwybodaeth eu rheoli a'u prosesu ar draws y Cyngor), gyda'r posibilrwydd o sicrhau gwelliannau dilynol yng nghyflymder, ansawdd ac effeithlonrwydd cyflenwi gwasanaeth uniongyrchol.

*Gweithrediad y prosiect*

Mae Powys Di-bapur yn ymyrraeth sylweddol ac amlweddog. Gan dynnu ar y dadansoddiad manwl o'r asesiad Enillion ar Fuddsoddiad a oedd hefyd yn cynnwys datblygu cynlluniau cyflenwi adrannol gwasanaeth lefel uchel (hynny yw sut y gallai'r cysyniad 'di-bapur' gael ei wireddu yn ymarferol ar gyfer pob maes gwasanaeth), roedd y prosiect yn cynnwys tri cham, gyda Cham 3 yn dal i fynd rhagddo:

- Cam 1: datblygiad technegol y prosiect yn cynnwys sefydlu cyfleuster sganio corfforaethol ym mhrif swyddfeydd y Cyngor yn Llandrindod i dderbyn a sganio dogfennau a'u prosesu ar draws y Cyngor a'r adrannau perthnasol a gweithredu'r EDM a'r broses sganio gyda'r adran Gofal Cymdeithasol fel cynllun peilot.
- Cam 2: Cyflwyno'r broses EDM a sganio i adrannau eraill y Cyngor yn cynnwys Addysg, Trafnidiaeth a Chwynion, gyda'r cam hwn o'r gwaith hefyd yn cynnwys proses ymgysylltu â staff a rheoli newid sylweddol er mwyn sicrhau bod aelodau staff wedi eu hyfforddi mewn EDM, ac yn cefnogi'r broses, ar gyfer prosesu gwybodaeth ac i sicrhau bod manteision posibl y system wedi eu defnyddio'n llawn

- Cam 3: ymwneud â chyflwyno'r broses yn ehangach ar draws y Cyngor, yn cynnwys ceisio sicrhau bod y cysylltiadau llorweddol rhwng adrannau hefyd yn cael eu darparu ar eu cyfer drwy'r prosesau EDM a di-bapur.

Mae'r model cyflenwi a threfn lywodraethol ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Tîm Powys Di-bapur penodedig, yn cael ei arwain gan Reolwr Prosiect ac yn cynnwys 2.5 aelod staff cyfwerth ag amser llawn
- Bwrdd Powys Di-bapur, yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o adrannau'r Cyngor yn ogystal â'r tîm prosiect.

Bydd y prosiect Powys Di-bapur yn cau wedi cwblhau Cam 3 erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2013/14. Fodd bynnag, mewn datblygiad cadarnhaol, adroddodd partneriaid y prosiect fod bwriad i barhau'r gweithgarwch wedi i gefnogaeth Buddsoddi i Arbed ddod i ben er nad yw'r cyllid ar gyfer y gweithgarwch etifeddol hwn wedi ei sicrhau hyd yma.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Mae'r prosiect yn dal yn y cam cyflenwi. Fodd bynnag, ar y cam hwn cafodd ystod o fanteision eu cyflawni. Mewn termau meintiol dengys yr ymchwil gyda phartneriaid y prosiect bod yr arbedion rhyddhau arian canlynol wedi eu cyflawni:

- £130 mil y flwyddyn o arbedion rheolaidd a gyflawnwyd drwy arbedion a grewyd o waith yng Ngham 1 gyda Gofal Cymdeithasol, Cwynion a nifer rhagor o unedau bach y Cyngor.
- £195 mil y flwyddyn o arbedion rheolaidd a gyflawnwyd drwy arbedion a grewyd o waith yng Ngham 2 yn cynnwys drwy waith gyda 'r adrannau Trafnidiaeth ac Addysg.

Fodd bynnag, nodwyd bod y manteision mewn arian ar hyn o bryd yn rhai 'tybiedig' yn hytrach na rhai a wireddwyd. Cânt eu gwireddu yn ymarferol drwy arbedion cost ar lefel adran sydd eto i'w cyflawni, naill ai drwy leihau cyflogaeth (gall rhai sefyllfaoedd fod yn rhai sensitif a bydd angen eu rheoli mewn modd sensitif) neu arbedion cost eraill megis lleihad mewn amser teithio a chostau is ar gyfer llety i storio ac archifo dogfennau.

Mae’r astudiaeth achos hefyd yn rhoi tystiolaeth o fanteision ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn dechrau ymddangos. Er enghraifft, nodwyd yn dilyn gweithredu’r system EDM a’r dull di-bapur gyda’r adran Cwynion, bod staff yn gallu delio â chwynion yn gyflymach a bod y broses yn gwella’r gallu i olrhain a llwybr archwiliad gweithgarwch, gyda’r holl wybodaeth wedi’i storio’n electronig yn hytrach nag ar ffurf papur. Disgwylir i enghreifftiau pellach o’r mathau hyn o fanteision ddod i’r amlwg wrth i’r prosiect gael ei gyflwyno ar draws y Cyngor yn gyfan ac wrth i’r gweithdrefnau a roddir ar waith gael eu gwreiddio’n llawn mewn gweithgarwch bob dydd.

Fel y nodir uchod, cynhaliwyd gwerthusiad dewisiadau pennawd i ddangos manteision y prosiect Buddsoddi i Arbed. Darparodd bartneriaid y prosiect nad oedd yn rhan o’r gwaith drafftio a llunio’r achos gwreiddiol dros ariannu sylwadau oedd yn cadarnhau’r farn; sef heb yr ariannu Buddsoddi i Arbed byddai gweithrediad y prosiect yn raddol ac yn dameidiog, gyda lefelau is o fanteision i’w gweld ar y cyfan. Rôl Buddsoddi i Arbed felly oedd cyflymu, ac wrth wneud hynny cynyddu maint, y gweithgarwch a’i fanteision dilynol.

*Beth weithiodd yn dda…*

Awgryma’r ymchwil astudiaeth achos bod y prosiect yn perfformio’n dda a’i fod wedi dechrau rhoi manteision, yn ariannol ac anariannol. Mae’r materion allweddol sy’n cyfrannu at y stori gadarnhaol hon yn cynnwys:

- Seiliwyd gweithgarwch ym mhob adran ar ddatblygu cynllun gwireddu manteision i nodi beth gaiff ei gyflawni, pryd a sut. Roedd ffocws hefyd ar gyflawni rhai enillion cyflym ar gyfer y prosiect yng Ngham 1 a Cham 2 (er enghraifft drwy weithredu’r cynllun di-bapur yn yr adran Cwynion lle gall fod llwyth mawr o drafodion papur) cyn ei gyflwyno’n ehangach gan gynorthwyo i ddangos y manteision i staff oedd o bosibl yn amheus ynglŷn â’r cysyniad ‘di-bapur’.
- Mae’r gallu a ddarparwyd gan arian Buddsoddi i Arbed, gyda thîm penodedig yn ei le, wedi golygu bod y gallu yn bodoli i graffu’n fanwl ar y manteision posibl sydd i’w creu ac i ganolbwyntio ar y cyflenwi technegol

- Ymgysylltu â staff cyflenwi a lefel gwasanaeth yn y prosiect drwy'r Fwrdd Powys Di-bapur, ac i bob adran a gwmpesir ddynodi swyddog cyfrifol ar gyfer Powys Di-bapur. Roedd hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod persbectif 'byd-real' yn cael ei roi ar ddatblygiad llif gwaith drwy'r EDM a sut fyddai hyn yn effeithio ar staff a'u rolau o ddydd i ddydd.

*… a beth allai fod wedi gweithio'n well*

Nodwyd dau bwynt ynglŷn â beth allai fod wedi gweithio'n well, er y nodwyd wrth i'r gweithredu barhau, ac wrth i'r prosiect nawr yn symud yn gynyddol i ffocws traws adrannol llorweddol (yn hytrach nag adran fewnol fertigol), gall heriau eraill ddod i'r amlwg;

- Bu cost y prosiect yn uwch nag a dybiwyd ar y dechrau. Ni wnaeth yr arian Buddsoddi i Arbed gynyddu, gan olygu bod y gost i'r Cyngor wedi bod yn uwch nag a gynlluniwyd, gyda'r dadansoddiad Enillion ar Fuddsoddiad gwreiddiol yn darparu map llwybr ar gyfer cyflenwi yn hytrach na chynllun gweithredu manwl. Yn y bôn, daeth cymhlethdodau ychwanegol, gyda chostau'n gysylltiedig â hwy, i'r amlwg yng ngweithrediad ymarferol y prosiect.
- Mae llwyddiant y prosiect hyd yma wedi cynnig ei heriau ei hun gyda'r cyfleuster sganio corfforaethol a roed yn ei le a'r gofod erbyn hyn angen eu datblygu ymhellach oherwydd yr angen am beiriannau a staff ychwanegol.  O edrych yn ôl, mae'n bosibl y gallai graddfa'r cyfleuster fod wedi ei ddiogelu at y dyfodol yn fwy effeithiol er mwyn i allu pellach gael ei ddatblygu wrth i'r prosiect gael ei gyflwyno ar draws y cyngor.

*Gwersi allweddol*

Dangosodd yr ymgynghori gyda phartneriaid prosiect a'r dogfennau a ddarparwyd i'r gwerthuswyr bod ystod eang o wersi wedi eu dysgu drwy brosiect Powys Di-bapur ynglŷn â 'sut i wneud' prosiectau technegol o'r math hwn. Mae hyn yn addysg werthfawr i'r Cyngor ac mae potensial i'w rannu'n ehangach ledled y gymuned TG a rheoli gwybodaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gwersi allweddol y prosiect, gyda pherthnasedd traws thematig i awdurdodau cyhoeddus eraill sy'n chwilio am ffyrdd i gyflawni arbedion a gwelliannau gwasanaeth, fel a ganlyn:

- Roedd sicrhau ymrwymiad uwch swyddogion i'r prosiect, a pherchnogaeth ohono, yn ffactor pwysig yn natblygiad llwyddiannus a'r gwaith cyflenwi hyd yma. O ran Powys Di-bapur roedd ei berchnogaeth wedi ei sefydlu o'r dechrau, gyda'r uwch aelod staff oedd yn gyfrifol am ei ddatblygiad hefyd yn gyfrifol am y prosiect a'i rhagflaenodd yn yr adran Refeniw a Budd-daliadau. Fodd bynnag, roedd cynnal yr ymrwymiad hwn dros y tymor hir yn cael ei weld fel rhywbeth allweddol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn parhau â'i fomentwm a'i broffil.
- Mae datblygiad proses ddi-bapur wedi rhoi effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, gyda'r effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys gwelliannau i ansawdd a chadernid rheoli gwybodaeth a threfn lywodraethol gwybodaeth - mae llwybr dogfennau erbyn hyn yn gadarnach. Er nad yw hyn yn rhoi manteision rhyddhau arian neu gynhyrchiant yn uniongyrchol mae wedi ychwanegu gwytnwch i system rheoli dogfennau'r Cyngor. Mae'r manteision ehangach, nas bwriadwyd, hyn yn bwysig.
- Mae ymgysylltiad staff yn bwysig. Mae'r broses ymgysylltiad eang staff drwy brosiect Powys Di-bapur wedi bod yn bwysig yn y llwyddiant a gyflawnwyd ganddo hyd yma - y dull a ddefnyddiwyd oedd canolbwyntio ar sut y gall y prosiect 'weithio gyda' staff yn hytrach na chael ei weld fel ymyrraeth TG nodweddiadol a 'wneir i' staff yn bennaf.

**Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd y GIG**

- Mae'r GIG wedi nodi trawsnewid y gweithlu fel galluogydd hollbwysig ar gyfer gwneud gwelliannau mewn gwasanaethau ac enillion o ran effeithlonrwydd y mae ei weledigaeth pum mlynedd yn eu targedu, sy'n ymgorffori ymrwymiad i enillion effeithlonrwydd o bump y cant y flwyddyn. Ni ellir cyrraedd graddfa a chyflymder y trawsnewid gofynnol yn y gweithlu trwy ddarpariaethau traddodiadol, megis dileu swyddi, yn unig.
- Datblygwyd cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd (VER) fel opsiwn amgen i'w gwneud hi'n bosibl i ryddhau personél at ddibenion ailstrwythuro timau anghlinigol a chlinigol.
- Buddsoddwyd cyfanswm o £30 miliwn yng nghynllun VER, a chyfrannodd Buddsoddi i Arbed £17 miliwn o'r swm hwnnw. Mae dros 800 o staff wedi'u rhyddhau trwy VER, ac amcangyfrifir bod y cynllun wedi creu arbedion rheolaidd gwerth tua £33 miliwn (57% ohono'n cael ei briodoli i Buddsoddi i Arbed). Dywedwyd, er na chadarnhawyd hyn yn ffurfiol gyda thystiolaeth, bod rhyddhau staff fel hyn wedi galluogi rhaglen trawsnewid gwasanaethau i gael ei datblygu. Ar y cyfan, staff mewn swyddi anghlinigol sydd wedi'u rhyddhau
- Roedd arian Buddsoddi i Arbed yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â'r her sy'n wynebu sefydliadau'r GIG sydd am roi VER ar waith, sef: analluedd i ryddhau adnoddau i ariannu VER cyn bod yr arbedion a ddaw o'r VER hwnnw wedi cael eu gwireddu. Roedd strwythur Buddsoddi i Arbed yn caniatáu i sefydliadau'r GIG wrthbwyso costau rhagblaen VER hyd nes y gwnaed arbedion.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Gwasgfeydd ar gyllidebau sefydliadau'r GIG ledled Cymru yn arwain at dargedu enillion effeithlonrwydd o 5% y flwyddyn<br>• Mae trawsnewid timau clinigol ac anghlinigol yn gofyn am ad-drefnu'r gweithlu yn sylweddol. Mae rhwystrau a osodwyd ar ad-drefnu gweithlu yn ffrwyno gweddnewid o'r maint yma.<br>• Angen dewisiadau amgen i dimau Adnoddau Dynol y gwasanaeth i ail-lunio strwythur y gweithlu lleol | • Sicrhau arbedion ar gyllidebau'r gweithlu trwy ryddhau staff yn wirfoddol, gan gynorthwyo i gyflawni yn erbyn targedau effeithlonrwydd y GIG<br>• Cynorthwyo trawsnewidiad gwasanaeth mewn timau anghlinigol a chlinigol | • Cyfanswm buddsoddiad o £30 miliwn, gan gynnwys £17 miliwn gan Gronfa Buddsoddi i Arbed<br>• GIG Cymru yn goruchwylio'r gwaith cyflenwi, gan gynnwys darparu canllawiau, a thimau AD sefydliadau unigol y GIG yn gwneud y gwaith gweinyddu ymarferol<br>• Timau AD sefydliadau unigol y GIG yn negodi cytundebau VER penodol, gan ddilyn canllawiau ffurfiol yn amlinellu darpariaethau cymhwyster, gwneud cais a chymeradwyo | • Cyfanswm o 829 o staff wedi'u rhyddhau trwy VER<br>• Arbedion blynyddol rheolaidd o tua £33 miliwn (gellir priodoli 57% ohono i arian Buddsoddi i Arbed o gofio lefel y cyfraniad ariannol)<br>• Hwyluso trawsnewid y gweithlu | • Gwelliannau effeithlonrwydd cyffredinol ar gyfer GIG Cymru a chyflawni yn erbyn targedau effeithlonrwydd<br>• Manteision gwasanaeth hirdymor yn seiliedig ar drawsnewid a gwella gwasanaeth (er nad yw'r rhain yn cael eu cynnwys yn system rheoli perfformiad y prosiect) |

*Cefndir y prosiect*

Mae'r GIG wedi nodi trawsnewid gweithlu fel galluogydd hollbwysig i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau ac enillion mewn effeithlonrwydd y mae ei weledigaeth pum mlynedd yn eu targedu, (sy'n ymgorffori ymrwymiad i enillion effeithlonrwydd o bump y cant y flwyddyn). Ni ellir cyrraedd graddfa a chyflymder y trawsnewid sy'n ofynnol ar gyfer y gweithlu trwy ddarpariaethau traddodiadol, megis dileu swyddi, yn unig. Dylid nodi, o fewn y GIG mae diswyddo yn destun cyfyngiadau a osodwyd ar symleiddio'r gweithlu a chyfyngiadau cyllideb.

Yn y cyd-destun hwn datblygwyd cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd (VER) fel opsiwn amgen i'w gwneud hi'n bosibl i ryddhau personél at ddibenion ailstrwythuro timau clinigol ac anghlinigol. Fel y manylwyd yn nogfen achos busnes craidd VER[3]:

> *Mae'r GIG yng Nghymru ar fin profi cyfnod heriol o newid dwys a pharhaol. Mae "Law yn Llaw at Iechyd" yn disgrifio natur y newidiadau hyn ac mae fframwaith ategol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn dwyn sylw at yr heriau sy'n wynebu'r gweithlu a'i arweinwyr wrth symud at batrymau newydd o ddarparu gwasanaethau.*

[3] GIG Cymru. 2012. 'Model Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd'.

*Mae'n amlwg y bydd y fath symudiadau yn gofyn am gyflwyno newidiadau sylweddol a chyflym i nifer, lleoliad, patrymau gwaith a chymysgedd sgiliau'r staff. Nod y cynllun hwn yw bod yn offeryn galluogi i ategu hyblygrwydd sefydliadau'r GIG yng Nghymru wrth fynd i'r afael â galwadau newid cyflym ac ailgynllunio gwasanaethau.*

*Mae cynllun VER yn gynllun sydd er lles y gweithiwr a'u sefydliad, lle mae unigolyn yn dewis gadael ei swydd o'i wirfodd, gyda chytundeb y sefydliad hwnnw, yn gyfnewid am daliad diswyddo.*

Rheolir y cynllun VER gan GIG Cymru ac fe'i gweinyddir gan swyddogaethau Adnoddau Dynol pob sefydliad y GIG (sefydliadau unigol sy'n penderfynu ar fynediad at y cynllun). Hyd yma mae'r sefydliadau canlynol wedi defnyddio cynllun VER:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae cynllun VER, sy'n newydd yn y GIG, wedi'i gynllunio a'i ddatblygu gan weithwyr proffesiynol yn GIG Cymru, a chaiff ei reoli gan Gyfarwyddiaeth Cyllid yr AIGC, a arweinir drwy ymgynghori â chynrychiolwyr allweddol y gweithlu a gweithwyr ym maes Adnoddau Dynol.

Roedd gofyn i Buddsoddi i Arbed fynd i'r afael â pharadocs sydd wrth galon cynllun VER:  ni all sefydliadau'r GIG ryddhau adnoddau i ariannu VER cyn y ceir yr arbediad a ddaw o wireddu'r VER hwnnw.  Wrth wynebu'r her hon, galluogodd strwythur arian Buddsoddi i Arbed – gyda thaliad cychwynnol yn cael ei wneud cyn y gweithgarwch – i sefydliadau'r GIG wrthbwyso costau VER a delir ymlaen llaw nes gwireddir yr arbedion yn ymarferol.

*Gweithrediad y prosiect*

Ers lansio'r prosiect yn 2010/11, mae cyfanswm o £30 miliwn wedi ei fuddsoddi yng nghynllun VER, gyda Buddsoddi i Arbed yn cyfrannu £17 miliwn o'r swm hwnnw.  Mae 829 o staff wedi'u rhyddhau trwy VER, ac amcangyfrifir bod y cynllun wedi creu arbedion rheolaidd o tua £33 miliwn (57% ohono'n cael ei briodoli i Buddsoddi i Arbed).  Gellir gweld manylion pob un o'r asiantaethau iechyd sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn Nhabl 1, isod.

**Canlyniadau Cynllun VER**

| **Sefydliad** | **Cyllid Buddsoddi i Arbed (£000)** | **Cyllid Mewnol (£000)** | **Cyfanswm Cyllid (£000)** | **Cyfanswm Staff a Ryddhawyd (WTE)** | **Arbedion Rheolaidd (£000)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 1,183 | 1,760 | 2,943 | 66 | 2,340 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 2,729 | 0 | 2,729 | 82 | 3,890 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 3,460 | 5,686 | 9,146 | 266 | 11,105 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 3,360 | 1,549 | 4,909 | 144 | 4,566 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 3,355 | 599 | 3,954 | 111 | 4,417 |
| Bwrdd Iechyd Hywel Dda | 400 | 846 | 1,246 | 27 | 990 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 1,132 | 0 | 1,132 | 44 | 1.294 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 1,132 | 392 | 1,524 | 34 | 2,189 |

| Sefydliad | Cyllid Buddsoddi i Arbed (£000) | Cyllid Mewnol (£000) | Cyfanswm Cyllid (£000) | Cyfanswm Staff a Ryddhawyd (WTE) | Arbedion Rheolaidd (£000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 201 | 688 | 889 | 24 | 889 |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru | 0 | 1,067 | 1,067 | 30 | 1,478 |
| **Cyfanswm** | **16,952** | **12,587** | **29,539** | **829** | **33,158** |

*Ffynhonnell: GIG Cymru, 2013*

Dyfeisiwyd a datblygwyd y gweithdrefnau VER gan GIG Cymru, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Yn ddiweddarach, fe agorwyd y cynllun i holl sefydliadau'r GIG ar sail wirfoddol, yn amodol ar raglenni cynllunio gweithluoedd pob sefydliad a gwasanaethau cydrannol. Mae mynediad at gynllun VER yn dibynnu ar bolisïau Adnoddau Dynol sefydliadau unigol.

Mae GIG Cymru wedi cyhoeddi canllawiau manwl i ymgeiswyr VER a thimau Adnoddau Dynol priodol sy'n cynnwys meini prawf cymhwysedd, y broses gais a'r broses gymeradwyo ar gyfer pob VER. I grynhoi, rhaid gwneud achos busnes ar gyfer pob VER, a ystyrir hwn gan Gyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a Chyllid, Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau ac Amodau a Phwyllgor Archwilio'r sefydliad, cyn y ceir cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer taliadau ex-gratia gan Lywodraeth Cymru.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Fel y nodwyd uchod, mae 829 o staff wedi'u rhyddhau trwy VER, ac amcangyfrifir bod y cynllun wedi cynhyrchu arbedion ariannol rheolaidd gwerth tua £33 miliwn ledled y GIG. Yn ychwanegol at yr arbedion hyn, mae rhyddhau staff wedi galluogi i drawsnewid y gweithlu ddigwydd yn gyflymach yn y timau clinigol ac anghlinigol.

Dangosodd y wybodaeth a ddarparwyd i'r gwerthuswyr mai staff anghlinigol fu mwyafrif y staff a ryddhawyd hyd yma, sy'n cynrychioli'n bennaf ymdrechion i deneuo swyddogaethau sy'n cael eu dyblygu o ganlyniad i ddiwygio ac uno sefydliadau'r GIG ledled Cymru yn 2009. Ar y cyfan, yn y cyfnod rhwng 2010 hyd 2012, leihawyd niferoedd staff y GIG gan tua 50% y nifer a ryddhawyd trwy VER, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn staff clinigol: cyfanswm lleihad

mewn niferoedd staff GIG oedd 475 - gwelwyd lleihad o 493 mewn staff gweinyddol ac ystadau, 253 o staff ategol, ac 88 nyrs, ond gwrthbwyswyd hyn gan gynnydd mewn niferoedd staff meddygol a gwyddonol.  Ni adroddwyd ar unrhyw dystiolaeth bod lleihau niferodd staff wedi effeithio ar ansawdd y gwasanaethau.  Gellir dadlau y byddai'r wasgfa ariannol ar y GIG yng Nghymru hyd yn oed yn fwy pe na bai'r arbedion hyn o ran staff anghlinigol wedi'u cyflawni.

Er bod yr achos dros Buddsoddi i Arbed yn galluogi cynllun VER yn eglur ar lefel pennawd, mae llai o eglurder o ran p'un a allai sefydliad y GIG fod wedi hunan-ariannu mwy o VER, gyda chyllidebau mewnol yn ariannu tua 43% o fuddsoddiad VER. Mae sefydliadau'r GIG wedi nodi eu gallu i ddefnyddio £20 miliwn o gyllid yn 2013/14 er mwyn mynd i'r afael â her costau'r rhyddhau cychwynnol yn ystod y flwyddyn a pharhau â chynllun VER ar raddfa. Fodd bynnag, dros gyfnod ariannu Buddsoddi i Arbed, heb yr arian Buddsoddi i Arbed, ni fyddai bron 60% o fuddsoddiad VER wedi'i gyflawni, a fyddai wedi gwneud y prosiect yn llai effeithiol o ran graddfa a chyflymder y newid trawsnewidiol a alluogwyd. Ar ben hynny, roedd sefyllfa ariannol sefydliadau'r GIG yn ystod cyfnod y prosiect (2010/11 hyd 2012/13) yn heriol, gyda chystadleuaeth fewnol am unrhyw gyllid oedd ar gael (e.e. cynnydd mewn darpariaeth gwasanaeth).

*Beth weithiodd yn dda…*

Hyd yma, tystiolaeth yr astudiaeth achos yw bod cynllun cenedlaethol VER wedi'i gyflawni ar amser ac yn unol â'r gyllideb, gan gyflawni'r amcanion a'r ad-daliadau fel y cynlluniwyd.  Mae'r prosiect wedi cael budd o ymrwymo cryf ymhlith sefydliadau'r GIG sy'n rhanddeiliaid a'r gweithlu ei hun: fel cynllun gwirfoddol yn ôl disgresiwn, nid oedd sicrwydd o'r nifer fyddai'n manteisio arno, ond bu'n gryf o ystyried y targedau cychwynnol.  Ymhlith elfennau allweddol llwyddiant y prosiect, mae:

- ei gynllun a'i gyfleu i randdeiliaid, cysyniad gweddol syml a gyda chanllawiau eglur, cafodd y prosiect ei dderbyn yn rhwydd a daeth yn 'eiddo' pob sefydliad y GIG, ac roedd iddo ddigon o hyblygrwydd o ran cyd-destun pob swydd a ystyriwyd.

- rheoli risg ac ansicrwydd yn effeithiol: sianelwyd gwariant yn uniongyrchol i weithgareddau rhyddhau arian, heb yr angen i ymrwymo na ‘pheryglu’ costau sefydlu helaeth cyn gwybod faint o ddiddordeb oedd yn y cynllun.
- dull o fynd ati fesul cam: yn galluogi i’r gweithgarwch brysuro’n raddol gydag amser i ystyried ac addasu prosesau ym mhob sefydliad wrth i’r prosiect ddatblygu.

*… a beth allai fod wedi gweithio’n well*

Mae tri phwynt allweddol yn ymddangos o ran yr hyn a allai fod wedi gweithio’n well:

- Er nad adroddodd y prosiect ar unrhyw broblemau ar lefel GIG Cymru, roedd her gychwynnol ar lefel sefydliadau unigol y GIG, sef integreiddio’r hyn a oedd yn broses Adnoddau Dynol newydd i mewn i arferion a oedd eisoes yn bodoli - fodd bynnag, daethant dros y mater hwn gyda chymorth ac arweiniad gan y tîm prosiect.
- Mae proses ddysgu yn amlwg o ran cymhwysedd ceisiadau a chryfder yr achos busnes dros VER penodol. Unwaith eto, roedd cynllun VER yn integreiddio mesurau i fynd i’r afael â’r materion hyn mewn canllawiau, a thrwy’r broses gymeradwyo ffurfiol, ond mae’r achosion busnes wedi cryfhau dros amser. Ar ddechrau cyfnod y VER, roedd perygl na sicrhawyd y gwerth gorau am arian ym mhob achos.
- Er bod monitro arbedion rhyddhau arian uniongyrchol yn gadarn - er yn syml ar sail costau cyflog rhagweladwy - a bod Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am fanteision cysylltiedig â chwtogi niferoedd, mae’r monitro ehangach sydd ar waith wedi bod yn gyfyngedig, a byddai gwelliannau i’r adrodd ynglŷn â manteision y tu hwnt i arbedion arian syml yn ei gwneud hi’n bosibl i naratif ‘gyfoethocach’ gael ei chreu o amgylch y cynllun VER: honnir bod cynllun VER yn galluogi newid trawsnewidiol o fewn sefydliad ond ni chaiff manylion, na thystiolaeth ynglŷn â pham na sut y gwireddir y fath newid, eu cofnodi’n ffurfiol, ac maent braidd yn gyfyngedig hyd yma. I raddau, gallai hyn roi anhawster wrth gysylltu VER penodol i newid trawsnewidiol penodol

yng nghyd-destun rhaglen ddiwygio bellgyrhaeddol, ac wrth i bwysau cyllidol eraill a newidiadau gweithredol yn y GIG gael eu cyflawni ochr yn ochr â'r cynllun. Ar ben hynny, mae rhyddhau staff wedi'i gysylltu â rhyddhau staff anghlinigol dros ben a rhyddhau niferoedd cymedrol o staff mewn nifer o ardaloedd daearyddol a meysydd staffio.

*Gwersi allweddol*

Amlinellir y gwersi allweddol a ddaeth o brosiect VER fel a ganlyn:

- Roedd strwythur Buddsoddi i Arbed yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r mater canolog ar gyfer sefydliadau gafodd fudd o'r cynllun: nid oes gan y mwyafrif o sefydliadau yr adnoddau i gwrdd â chostau'r rhyddhau cychwynnol yn ystod y flwyddyn; roedd manteisio ar gynllun Buddsoddi i Arbed yn hanfodol er mwyn galluogi cynllun VER, ac felly achosi newid sy'n drawsnewidiol. Defnyddiodd y prosiect gyfle rheoli ariannol Buddsoddi i Arbed yn ddeallus.
- Cafodd VER fudd o ddyluniad syml, cyfathrebu effeithiol a risg ariannol wedi'i leihau i'r eithaf. Roedd VER yn ddibynnol ar gael cyrff GIG i'w dderbyn ac roedd gallu'r cynllun i fod yn hyblyg yn ôl y cyd-destun yn galluogi i bob sefydliad fod yn 'berchen' arno, er gwaethaf ei broffil a'i faes gorchwyl cenedlaethol.
- O ystyried maint y prosiect, a oedd yn gweithredu ar draws sefydliadau ac yn cynnwys symiau mawr o arian cyhoeddus, mae'r prosiect yn elwa o gael ei weithredu fesul cam, gan ei gwneud yn bosibl i gynyddu gweithgarwch yn raddol gydag amser i ystyried ac addasu prosesau ym mhob sefydliad wrth i'r prosiect ddatblygu.
- Ni wnaeth y prosiect nodi canlyniadau 'trawsnewidiol' penodol yn ychwanegol at arbedion uniongyrchol. Er mwyn cael tystiolaeth ffurfiol o fanteision llawn y proseict, yn ddelfrydol byddai mesuriadau canlyniadau o'r fath wedi eu rhoi mewn lle ar ddechrau'r prosiect. Dylai prosiectau tebyg mewn mannau eraill sicrhau bod canlyniadau ansoddol a meintiol ehangach yn cael eu nodi er mwyn olrhain effeithiau gweithredu yn eu holl agweddau ar y cyd â'r arbedion ariannol.

## Caffael ar y Cyd Cymru-gyfan y GIG

- Ceisiodd y prosiect alinio prisio a galluogi caffael fel grŵp yn system caffael y GIG drwy gyflwyno tîm cyd-drefnu canolog yn cefnogi timau caffael ym mhob Bwrdd Iechyd.
- Cyflawnwyd y prosiect yn llwyddiannus gan sicrhau gwerth £1.26 miliwn o arbedion o fuddsoddiad gwerth £300,000. Ers hynny mae'r tîm prosiect wedi derbyn cyllid am bum mlynedd arall a rhagamcannir y bydd yn rhoi £3 miliwn o arbedion y flwyddyn. Mae manteision ychwanegol yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau perfformiad yn treiddio drwy'r system gaffael ehangach.
- Elwodd y prosiect gan gynllunio effeithiol, lleihau ansicrwydd a risg drwy symlrwydd cynllunio, ymgysylltiad rhanddeiliaid a chyrchoedd ymchwil. O ganlyniad, cyflawnwyd manteision y gellid eu priodoli'n uniongyrchol yn gyflym.
- Heb gefnogaeth Buddsoddi i Arbed byddai'r gallu i gyflawni wedi ei leihau'n sylweddol. Gan weithredu ar y raddfa lai hon, byddai'r arbedion a'r manteision wedi bod yn llai sylweddol ac yn arafach i'w gwireddu, a byddai'r prosiectau wedi bod yn llai abl i sicrhau'r gefnogaeth a arweiniodd i'r ymrwymiad i hunan-ariannu: fe wnaeth Buddsoddi i Arbed ysgogi gweithgaredd yn y tymor byr a gwella ei gynaliadwyedd dros yr hirdymor.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Yn draddodiadol mae caffael wedi ei gydlynu ar y lefel leol gan arwain at amrywiadau o ran costau, ac mae gwasanaeth tameidiog yn llesteirio arbedion maint<br>• Methiannau o ran gwybodaeth lle nad yw timau caffael yn ymwybodol o'r 'pris gorau' y gellir ei gael ar gyfer eitemau penodol<br>• Colli cyfleoedd i leihau cost yr uned am eitemau penodol drwy lunio grwpiau caffael ar draws y gwasanaeth | • Sefydlu tîm caffael ar draws y gwasanaeth, yn cydlynu prynu ar y cyd a mynegeio 'pris gorau' er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arbedion costau<br>• Canoli caffael ar gyfer categorïau caffael cynllun peilot dethol | • Tîm caffael wedi ei ariannu gan Buddsoddi i Arbed ac wedi ei ddewis o dimau caffael ar draws GIG Cymru<br>• Adnoddau ac amser wedi eu hymrwymo gan dimau caffael ymddiriedolaethau a byrddau<br>• Cam 1: Alinio prisiau i nodi meysydd nwyddau ar gyfer caffael a rennir<br>• Cam 2: Contractio - cynllun gweithredu i roi ar waith gontractau newydd a phrynu ar y cyd | • Arbedion cost ar gategorïau caffael: arweiniodd cynllun peilot at arbedion rhyddhau arian gwerth £1.26 miliwn (Chwefror 2010 hyd Ionawr 2011); y prosiect ers hynny wedi cyflawni arbedion rhyddhau arian gwerth £3 miliwn y flwyddyn drwy'r mecanwaith hwn<br>• Manteision ehangach yn cynnwys gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y system caffael ar draws y gwasanaeth | • Arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth a lleihad mewn costau cyffredinol prynu y GIG<br>• O ganlyniad i arian Buddsoddi i Arbed cafwyd ymrwymiad i hunan-ariannu dwy flynedd arall, ac yna 5 mlynedd arall<br>• Gweithredodd y prosiect fel rhagflaenydd, 'prawf o'r cysyniad' ar gyfer Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir ehangach GIG Cymru yn cyflenwi ystod eang o brosiectau effeithlonrwydd a gwella gwasanaeth |

*Cefndir y prosiect*

Cafodd prosiect Caffael ar y Cyd Cymru-gyfan y GIG ei ddatblygu a'i arwain gan dîm prosiect dynodedig o blith cyn dimau Cyflenwadau, Caffael a

Chyfrifon Taladwy Iechyd Cymru a oedd ar waith ledled GIG Cymru. Byddai'r tîm hwn yn y pen draw yn ffurfio rhan o weithgarwch Gwasanaethau Caffael ar gyfer Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru.

Cymhelliant y prosiect oedd yr agenda 'gwasanaethau a rennir' a ysgogwyd gan raglen effeithlonrwydd GIG gyfan. Yn y cyd-destun hwn roedd ymchwil wedi dangos yr arbedion a'r effeithlonrwydd posibl y gellid eu cyflawni drwy aliniad prisiau a phrynu fel grŵp. Yn rhannol, gwnaed yr achos dros y prosiect drwy dystiolaeth o'r amrywiaeth eang yn y prisiau a dalwyd gan bob Bwrdd Iechyd am yr un eitemau neu eitemau tebyg, yn aml gan yr un cyflenwr: nid oedd llawer o'r Byrddau Iechyd yn cael y 'pris gorau'.

Wedi ei strwythuro'n wreiddiol fel cynllun peilot blwyddyn o hyd, ceisiodd y prosiect bennu a dangos y cyfleoedd arbed costau y gellid eu cyflawni gyda dull 'Cymru gyfan' ar gyfer caffael yn y GIG: alinio prisiau, mynegeio meincnodau 'pris gorau', a gwireddu arbedion maint drwy brynu fel grŵp. Ymgysylltodd a chefnogodd y prosiect weithgareddau'r timau Caffael a Chyfrifon Taladwy oedd yn bodoli ar draws GIG Cymru, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar bryniant eitemau penodol. Yn dilyn y cynllun peilot mae'r gweithgarwch Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru wedi datblygu i ddarparu system Caffael i Daliadau gyfan ar gyfer pob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd yng Nghymru.

Mae'r prosiect yn enghraifft o ddull newydd o gaffael ar gyfer y GIG yng Nghymru, wedi ei lywio gan yr arfer gorau a ddangoswyd gan wasanaethau yn y DU. Gwnaed y gwaith o gynllunio'r prosiect gan gyfarwyddwyr caffael profiadol gyda chefnogaeth prosesau ymchwil a chynllunio. Cyflwynwyd y prosiect gan dîm profiadol a recriwtiwyd yn arbennig, yn gweithredu gyda chefnogaeth system caffael y GIG. Ceisiwyd arian Buddsoddi i Arbed er mwyn gallu sefydlu tîm prosiect oedd yn canolbwyntio ar gyflawni dyheadau caffael ar y cyd. Heb gefnogaeth Buddsoddi i Arbed dywedodd partneriaid y prosiect y byddai'r gallu hwn i gyflawni wedi ei leihau'n sylweddol. Ystyriwyd Buddsoddi i Arbed fel mecanwaith ariannu priodol ar gyfer prosiect cynllun peilot o'r math hwn.

*Gweithrediad y prosiect*

Dechreuwyd y prosiect yn 2009 dan arweiniad y tîm prosiect Caffael ar y Cyd GIG Cymru gyfan, a recriwtiwyd o staff caffael ar draws GIG Cymru ar ddechrau'r prosiect. Roedd dau gam gweithgarwch i'r prosiect:

Cam 1 - 'Alinio Pris' - yn cynnwys dau weithgaredd wedi eu llywio gan ddadansoddiad System Rheolaeth Ariannol Oracle yn cyd-grynhoi gweithgarwch caffael ar draws y gwasanaeth:

- Nodi 'meysydd nwyddau blaenoriaeth' sy'n cyflwyno cyfleoedd ar gyfer arbedion costau drwy brynu fel grŵp
- Alinio'r holl brisiau ar draws GIG Cymru gyda'r 'pris gorau', gan drafod ailbrisio gyda chyflenwyr fel y caniatâ contractau.

Cam 2 - 'Contractio' - gosod grŵp dethol o gontractau caffael cynnyrch ar draws y gwasanaeth, wedi ei lywio gan ddadansoddiad y System Rheolaeth Ariannol Oracle (gan sicrhau trefn lywodraethol dda a chydymffurfiad â rheolau caffael cyhoeddus yr UE).

Cefnogodd y gwaith y gweithgarwch caffael a wneir gan Fyrddau Iechyd. Yn ychwanegol at y gweithgarwch 'alinio' a 'chontractio', canolbwyntiwyd ymdrech sylweddol ar roi fframwaith rheoli perfformiad a gwella ar waith ar gyfer caffael ledled y gwasanaeth, wedi ei hwyluso gan weithrediad ddangosyddion perfformiad allweddol (yn rhychwantu arfer, cydymffurfiad a threfn lywodraethol).

Roedd dibyniaeth y prosiect ar gael cefnogaeth timau caffael partner yn galw am ymdrech ymgysylltiad rhanddeiliaid fawr, wedi ei chefnogi gan gylch misol o adrodd ar berfformiad gan y tîm prosiect.

Yn 2010/11, y flwyddyn a ariannwyd gan Gronfa Buddsoddi i Arbed, defnyddiwyd cyfanswm o £300,000 i ddechrau'r prosiect ac ariannu'r tîm prosiect (costau staff). Roedd y ffigur yn cynnwys dim ond arian Buddsoddi i Arbed (gyda pheth buddsoddi mewn adnoddau gan dimau caffael a rhanddeiliaid cysylltiedig). O ganlyniad, mae £250,000 o'r gyllideb fewnol wedi ei hymrwymo i'r prosiect, bob blwyddyn am bum mlynedd arall.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Ers ei sefydlu mae'r tîm prosiect wedi dadansoddi dros £40 miliwn o wariant caffael, yn rhychwantu dros 2,500 o linellau cynnyrch caffael. O ran pennawd cyflawnodd y prosiect arbedion rhyddhau arian gwerth £1.26 miliwn yn y cyfnod a ariannwyd gan arian Buddsoddi i Arbed (Chwefror 2010 hyd Ionawr 2011). Roedd yr arbedion hyn y bennaf wedi dod o ostyngiadau pris a gyflawnwyd o ganlyniad i'r gweithgareddau 'alinio' a 'chontractio'.

Adroddwyd bod y prosiect ers hynny wedi cyflawni arbedion rhyddhau arian gwerth £3 miliwn y flwyddyn drwy'r mecanwaith, gyda'r gwerth hwn yn cael ei wireddu ar ôl cyfnod ariannu ffurfiol Buddsoddi Arbed ond yn elwa yn uniongyrchol o'r prosesau a'r systemau a roddwyd ar waith gan y cynllun peilot.

Yn ychwanegol at y manteision rhyddhau arian a grewyd, mae'r ymchwil astudiaeth achos yn dynodi bod manteision ehangach y prosiect yn cynnwys:

- **Gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y system caffael ar draws y gwasanaeth,** wedi ei gyflawni drwy gyflwyno fframwaith Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer rheoli ansawdd a lleihau cost uned gweithdrefnau caffael drwy gaffael mathau o gynhyrchion cyffredin fel grŵp
- **Gwella rheolaeth a chydymffurfiad y prosesau caffael sector gyfan, gan ddileu diffygion a sefydlu fframwaith rheoli perfformiad parhaus;** roedd hyn yn cynnwys datblygu dull cyson tuag at reoli data o fewn y system Oracle, gwella integriti data a chydymffurfiad â'r Model Gweithredu Cyffredin Cymru gyfan.

Adroddodd tîm prosiect Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru ei fod wedi derbyn adborth cadarnhaol gan randdeiliaid, yn cynnwys ei dimau caffael cleientiaid. Yn y pen draw prif gyflawniad yr elfen a ariennir gan Buddsoddi i Arbed oedd dangos effeithiolrwydd y cysyniad, gan sicrhau hyder y Cyfarwyddwyr Cyllid ac arwain at ymrwymiadau i ariannu'r prosiect drwy gyllidebau mewnol yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Heb arian Buddsoddi i Arbed, adroddodd partneriaid y prosiect y byddai prosiect ar raddfa lai wedi digwydd wedi ei ysgogi gan yr agenda ‘gwasanaethau a rennir’ ehangach. Gan weithredu ar y raddfa lai hon, byddai’r arbedion a’r manteision wedi bod yn llai sylweddol ac yn arafach i’w gwireddu. Yn hollbwysig, efallai y byddai’r prosiect llai hwn wedi cyflwyno achos llai cymhellon i Gyfarwyddwyr Cyllid wrth iddynt ystyried buddsoddi ym mharhad y prosiect. Yn hyn o beth roedd cefnogaeth Buddsoddi i Arbed wedi sbarduno gweithgaredd y prosiect yn y tymor byr ac wedi gwella ei gynaliadwyedd dros yr hirdymor. Gweithredodd elfen Buddsoddi i Arbed y prosiect yn effeithiol fel prawf neu ‘brawf o’r cysyniad’ ar gyfer y Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru ehangach a ddatblygwyd ar ôl hynny ac a gyflwynwyd yn genedlaethol er mwyn gwella darbodusrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau cefnogaeth, yn cynnwys caffael.

*Beth weithiodd yn dda…*

Cwblhawyd yr elfen o’r prosiect a ariannwyd gan Buddsoddi i Arbed ar amser ac yn unol â’r gyllideb, gan gyflawni ei hamcanion ac ad-dalu fel y cynlluniwyd. Yn y bôn mae llwyddiant y prosiect wedi ei seilio ar y ffactorau allweddol canlynol:

- Cynllunio cadarn, wedi ei danategu gan ymchwil yn ystod y broses gynllunio ac ymgysylltiad eang a chynnar rhanddeiliaid
- Recriwtio tîm prosiect medrus a phrofiadol sy’n gysylltiedig â’r system caffael bresennol
- Gallu i gyflawni canlyniadau diriaethol ar gyfer partneriaid yn y Byrddau Iechyd yn gyflym ac o ganlyniad roedd y gefnogaeth ymhlith partneriaid yn sylweddol.

Yn y pen draw, roedd y prosiect yn lleihau ansicrwydd a risg drwy symlrwydd ei gysyniad, ynghyd ag ymchwil ac ymgysylltiad rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod cynllunio. Hwylusodd llwyddiant cynnar y prosiect ei gyflwyniad yn ehangach, gan ymestyn ei gwmpasiad drwy’r system caffael a’i allu i greu arbedion pellach yn y dyfodol.

*… a beth allai fod wedi gweithio'n well*

Ni ddaeth y prosiect ar draws unrhyw heriau nas rhagwelwyd heblaw am yr anhawster cyntaf mewn recriwtio tîm prosiect i gontract tymor byr yn ei flwyddyn gyntaf (h.y. nid oedd personnel profiadol yn dueddol i fod am adael swydd er mwyn rôl y gellid ond ei gwarantu am flwyddyn). Ymdriniwyd â'r her hon drwy geisio, a sicrhau, ymrwymiadau ariannu mewnol am gyfnod o bum mlynedd, wedi ei gyplysu â mwy o gefnogaeth gan dimau AD.

*Gwersi allweddol*

Gellir crynhoi'r gwersi allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr ymchwil astudiaeth achos yn y modd canlynol:

- Gweithredodd y prosiect gyflwyniad graddol, a arweiniwyd gan gynllun peilot lle cafodd y cysyniad ei arddangos. Bu'r canlyniadau cynnar a gyflawnwyd gan y cynllun peilot yn allweddol mewn sicrhau cefnogaeth y rhanddeiliaid i gyflwyniad ehangach a mwy ei faint.
- Mae ymgysylltiad cynnar rhanddeiliaid i'w gweld fel y ffactor hollbwysig yn y llwyddiant. Sicrhau ymgysylltiad a chefnogaeth ei rhanddeiliaid sy'n 'gleientiaid' yn y Byrddau Iechyd a alluogodd y prosiect i gryfhau ei effaith.
- Mewn cysyniad a chynllun ceisiodd y prosiect leihau ansicrwydd, ac felly risg, drwy ymchwil ac ymgysylltiad rhanddeiliaid yn ystod y cam cynllunio.
- Mae'r prosiect yn cyflwyno perthynas uniongyrchol iawn rhwng gweithgarwch ac arbedion, ac mae'r gadwyn resymeg yn gymharol syml ac yn un sy'n hawdd i'w chyfathrebu/deall ac mae gan y prosiect ganlyniadau diriaethol hawdd eu priodoli. Unwaith eto roedd hyn yn gymorth i gyflwyniad/derbyniad y prosiect.
- Profodd y prosiect yn gyflym ei allu i hunan-ariannu: hyd yma mae'r prosiect wedi arbed mwy nag y mae wedi ei gostio i'w gynnal a dangoswyd arbedion arwyddocaol ym mlwyddyn gyntaf ei weithrediad. O ganlyniad mae'r prosiect wedi ennill etifeddiaeth yn gyflym.

- Ar y dechrau heriwyd y prosiect gan agwedd byr dymor yr ymrwymiad ariannu, gwnaeth ymrwymiad blwyddyn o hyd hi’n anodd recriwtio’r tîm a buddsoddi mewn arbedion tymor hir. Mae estyniad dilynol o’r ymrwymiad ariannu wedi galluogi’r prosiect i gynllunio a gweithredu gwelliannau sy’n gweithredu ar amserlen tymor hwy.

## Ymgyrch Wyn: Adennill a Chadw Annibyniaeth

- Mae Ymgyrch Wyn yn ceisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau gwasanaeth mewn gofal ar gyfer pobl hŷn yn ardal Caerdydd a Bro Morgannwg, drwy roi cefnogaeth i'r Timau Ymateb Cymunedol (CRTau). Derbyniodd y prosiect £3.2 miliwn o Gronfa Buddsoddi i Arbed, a defnyddiwyd yr arian hyd ddiwedd 2013, ac wedi hynny bydd yr ymgyrch yn dal i gyflawni
- Cyflwynir y prosiect gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mewn partneriaeth â Chynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'n rhoi arbedion effeithlonrwydd drwy leihau'r angen i ddarparu gallu ar gyfer cyfnodau o ymchwydd mewn ysbytai, drwy osgoi'r angen i gleifion gael eu derbyn i'r ysbyty, a lleihau hyd arhosiad os derbynnir hwy, drwy ddarparu gwasanaethau sydd â mwy o amrywiaeth ac ansawdd i bobl hŷn yn y gymuned.
- Rhagflaenodd cam cyntaf y prosiect Gronfa Buddsoddi i Arbed. Fodd bynnag, heb arian Buddsoddi i Arbed ni fyddai'r ymgyrch wedi gweld y newid mawr a alluogwyd gan y Gronfa, gan y byddai datblygiad CRTau wedi mynd rhagddo ond ar raddfa lai.
- Tra ei fod yn mynd rhagddo adroddwyd bod y prosiect wedi sicrhau gwelliannau i ganlyniadau cleifion. Mae disgwyl hefyd i'r prosiect, ymhen amser, i greu arbedion sylweddol drwy osgoi cost ychwanegol a fyddai ei hangen fel arall ar gyfer darparu gallu ychwanegol yn y sector aciwt

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Yn gynnar ym mhroses cwmpasu'r prosiect sylweddolwyd bod gwasanaethau iechyd yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn yn annigonol<br>• O ganlyniad i'r ddarpariaeth annigonol hon roedd niferoedd diangen o gleifion yn cael eu derbyn i'r ysbyty, ac yn aros yno yn hwy nag y dylent, gyda hyn yn rhoi straen ar gapasiti ysbyty, ac yn cael ei ystyried yn anghynaladwy | • Felly cynlluniwyd Ymgyrch Wyn gyda'r bwriad o wella gofal yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn, er mwyn atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a lleihau hyd arhosiad a hyrwyddo annibyniaeth ymhlith pobl hŷn<br>• Ffactor galluogi pwysig yw'r nod o symud tuag at integreiddiad rhwng meysydd iechyd a gofal cymdeithasol | • £3.2 miliwn oedd y cyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer Cam 1c, gyda £1.9 miliwn yn 2012/13 ac £1.3 miliwn yn 2013/14 - er na ddefnyddiodd Caerdydd ei £0.8 miliwn yn y flwyddyn gyntaf<br>• Mae gweithgareddau'r ymgyrch hyd yma yn cynnwys recriwtio tua 50 o staff, ac ehangu gweithgarwch CRT, yn cynnwys datblygiad CRT ychwanegol er mwyn cwmpasu ardal ddaearyddol gyfan y bwrdd iechyd | • Gyda'r prosiect yn mynd rhagddo, nid yw'r allbynnau a'r canlyniadau yn gwbl glir hyd yma<br>• Serch hynny, mae tystiolaeth o rai canlyniadau gwell i gleifion, a gan fod cwmpas CRT ar draws yr ardal gyfan mae'n golygu, am y tro cyntaf, bod darpariaeth gwasanaeth CRT ar gael ar draws ardal ddaearyddol lawn y bwrdd iechyd | • Unwaith eto, gan fod y prosiect yng nghamau cynnar ei weithrediad, ni ddisgwylir i'r effeithiau fod yn gwbl glir am dair blynedd arall<br>• Wedi dweud hynny, mae tystiolaeth bod yr ymgyrch wedi arwain at well gweithio mewn partneriaeth, sy'n bwysig er mwyn cyflawni nodau'r prosiect partneriaeth hwn |

*Cefndir y prosiect*

Ymddangosodd prosiect Buddsoddi i Arbed Ymgyrch Wyn[4], a arweinir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mewn partneriaeth â Chynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg, mewn ymateb i nifer o heriau:

- **methiannau mewn cydgysylltu** - roedd y modd yr oedd gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn cael eu rhedeg yn yr ardal cyn y prosiect yn cael ei ystyried yn annigonol o ran cydgysylltu, gyda phartneriaid ddim yn gweithio'n ddigon agos i ganolbwyntio ar newid cynaliadwy yn y gwasanaethau. Er bod Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol integredig yn bodoli rhwng y Cynghorau, y Bwrdd Iechyd a'r trydydd sector, nid oedd pobl hŷn yn faes yr oedd y Bwrdd wedi ceisio mynd i'r afael ag ef yn flaenorol. Nid oedd y dull tameidiog felly yn ddigon da, ac roedd hynny'n golygu system gefnogaeth ddryslyd i gleifion.
- **Pwysau cyllidebol** - ystyriwyd bod y gwasanaeth presennol yn annerbyniol, ac yn or-ddibynnol ar ymateb i argyfyngau, megis dod â gallu ymchwydd dros fisoedd y gaeaf, a gostiodd tua £4 miliwn i'r Bwrdd Iechyd dros gyfnod gaeaf 2011/12 yn unig. Ychwanegodd gorddibyniaeth ar ofal ysbyty, oherwydd bod gofal cymunedol yn annigonol, at y straen tra bod awdurdodau lleol yn wynebu mwy o alw am gefnogaeth cartref gofal a gofal yn y cartref, ar yr un adeg ag y wynebir cyfyngiadau ariannol sylweddol.
- **Bwriadau polisi strategol** - mae nifer o bolisïau Llywodraeth Cymru wedi galw am well gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer newid, gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn awgrymu y gallai'r gwasanaeth gael ei wella yn yr ardal.

Ni ystyriwyd bod aros yn yr unfan yn ddewis, gan ei fod wedi methu â rhoi'r newidiadau oedd eu hangen i gyflawni arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau. Y dewis arall i wella gwasanaeth fyddai cynyddu nifer y

[4] A elwir yn hyn gan fod hwn yn enw Cymraeg gwrywaidd neu fenywaidd cyfarwydd, er mwyn pwysleisio natur person-ganolog yr ymgyrch

gwelyau mewn ysbytai a chartrefi gofal, ond byddai hyn wedi bod yn anfforddiadwy ac felly'n ddull anghynaliadwy. Byddai wedi rhoi rhagor o allu i ymateb i'r broblem ond heb wella'r gwasanaeth ei hun.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, ysgogi arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, ceisiodd y partneriaid weithredu'r model "Tîm o Amgylch Wyn", drwy gefnogi ehangiad Timau Ymateb Lleol (CRTau). Mae'r model yn hyrwyddo byw'n annibynnol ac yn mwyhau lles trigolion yr ardal, wedi ei adeiladu o amgylch tystiolaeth gyhoeddedig ynglŷn â pha wasanaethau yn ymwneud ag iechyd y mae pobl hŷn eu hangen a'u heisiau, ynghyd â chyfres o adroddiadau a arweiniodd y Bwrdd Iechyd i weld y model fel modd o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy. Dechreuodd Ymgyrch Wyn yn 2011, fel ffrwd waith Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gyda'r Bwrdd Iechyd yn rheoli'r arian ar gyfer y prosiect, ar ran ei bartneriaid, a gyda Grŵp Llywio yn ei le â'i aelodau o sefydliadau sy'n chwarae rhan mewn goruchwylio'r prosiect.

Fodd bynnag, o gofio'r heriau cyllidebol (yr ymatebodd y prosiect ei hun iddynt) roedd gofyniad i ysgogi ariannu i ymestyn a datblygu'r ymgyrch, yn dilyn cam cyntaf a ariannwyd gan y Bwrdd Iechyd ei hun. Gyda nifer cyfyngedig o ddewisiadau ariannu ar gael i'r Bwrdd Iechyd oherwydd rheoliadau cenedlaethol, nodwyd Buddsoddi i Arbed fel ffrwd ariannu briodol.

*Gweithrediad y prosiect*

Mae'r ymgyrch, yn cynnwys elfennau nad sy'n rhan o Gronfa Buddsoddi i Arbed, wedi cynnwys y camau gweithgarwch canlynol:

- **Cam 1a**, yn costio £325 mil ac wedi ei ariannu dim ond gan y Bwrdd Iechyd, ac a oedd yn ceisio datblygu CRTau yr ardal. Mae'r CRTau yn darparu gofal cymunedol ar ffurf ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, therapi lleferydd ac iaith, dieteg, nyrsio, cefnogaeth dechnegol aml-broffesiynau (therapïau), Rheolwr Gofal Cartref, Cymorth Staff Gofal, a gweithwyr Cymdeithasol Cymunedol. Bu Cam 1a yn weithredol o fis Medi 2011 - er mwyn bod yn glir, roedd y Cam hwn o'r gwaith yn rhag-ddyddio ariannu Buddsoddi i Arbed.

- **Cam 1b**, yn costio £498 mil, wedi ei ariannu dim ond gan y Bwrdd Iechyd, ac yn rhedeg yn gynnar ym mlwyddyn ariannol 2012/13. Bwriadwyd i Gam 1b ddatblygu ymhellach y CRTau, fel eu bod i gyd yn gweithredu o'r un waelodlin, gan eu hymestyn a'u hehangu i adlewyrchu dyheadau'r prosiect i osgoi bod cleifion yn cael eu derbyn i'r ysbty a hwyluso rhyddhau cynnar - er mwyn bod yn glir, roedd y Cam hwn o'r gwaith yn rhag-ddyddio ariannu Buddsoddi i Arbed.

- **Cam 1c**, bwriadwyd iddo gostio £4.4 miliwn, gyda £3.2 miliwn o hwn yn arian Buddsoddi i Arbed (h.y. roedd arian Buddsoddi i Arbed yn weithredol ar y pwynt hwn), ac yn rhedeg o fis Tachwedd 2012 ymlaen, ac yn dal i fynd rhagddo nawr. O'r £3.2 miliwn y gwnaed cais amdano, dyrannwyd £1.9 miliwn i'r Bwrdd Iechyd, £0.8 miliwn i Gyngor Caerdydd, a £0.5 miliwn i Gyngor Bro Morgannwg.

Defnyddir yr arian hwn i wella ymhellach allu'r CRTau, a mynd â hwy i'r "lefel nesaf", gan gael effeithiau ystyrlon ar lif gofal eilaidd a gallu, a gwneud hynny drwy gynyddu nifer y staff llinell flaen, datblygu staff ac ar yr un pryd rhoi system TG ar waith ar gyfer rheoli perfformiad. Nodwyd y penderfynodd Gyngor Caerdydd i beidio â chymryd ei ddyraniad, er gyda newidiadau ar lefel uwch swyddogion, a'r prosiect ddim yn cyrraedd targedau gallu yn y flwyddyn gyntaf, mae Cyngor Caerdydd wedi chwarae mwy o ran yn ystod y misoedd diwethaf. Fel arall, mae gwariant a darpariaeth wedi digwydd yn ôl y disgwyl hyd yma. Er mwyn adennill yr arian a ddyfarnwyd ar gyfer Cam 1c mewn arbedion cost ac effeithlonrwydd bydd angen cyfanswm o leihad mewn gwelyau ar draws y Bwrdd Iechyd o tua 80 gwely.

Y bwriad i ddechrau oedd y byddai Cam 2, er mwyn ymestyn yr ymgyrch ymhellach, gyda'r posibilrwydd i hyn gael ei ariannu gan gais Buddsoddi i Arbed arall, gan ddod â chyfanswm cost cyflwyno'r model i tua £10 miliwn. Fodd bynnag, ni aethpwyd ymlaen â hyn - byddai angen ymarferiad modelu capasiti a galw trylwyr er mwyn asesu effaith ymestyn yr ymgyrch ymhellach, rhywbeth nad oes llawer o awydd ei wneud yn lleol, tra bod y cymhlethdod a'r amrywiadau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r model yn ein gwneud hi'n anodd mesur gwireddiad manteision, a byddai angen tair i bum mlynedd er mwyn

dangos arbedion cost. Oherwydd hyn, a gyda'r holl bartneriaid o dan straen ariannol, ni cheisir rhagor o gyllid.

Wedi dweud hynny, penderfynwyd y byddai'r partneriaid yn datblygu strategaeth 10 mlynedd ar gyfer pobl hŷn, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, ac a fydd yn gwreiddio cam presennol Ymgyrch Wyn ac yn ymestyn y model fel rhan o waith integreiddio'r bartneriaeth.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Mae'r prosiect yn mynd rhagddo, a disgwylir i'r newidiadau gymryd hyd at bum mlynedd i ymwreiddio'n llawn. Oherwydd hyn nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i nodi'r cyflawniadau a'r manteision yn llawn. O ran arbedion mewn arian, mae *disgwyl* i brosiect Buddsoddi i Arbed, yn y pen draw, greu arbedion sylweddol drwy osgoi capasiti ychwanegol a fyddai ei angen fel arall yn y sector aciwt, er enghraifft, osgoi derbyniadau diangen i ysbyty, a byrhau hyd arhosiad. Fodd bynnag, mae'n anodd dangos tystiolaeth o'r arbedion hyn, gyda'r dulliau cyfrifo arbedion mewn arian sy'n ymwneud ag arian Buddsoddi i Arbed ddim yn cael eu hystyried yn gadarn yn lleol.

Mae'r gwerthuswyr yn deall y caiff y CRTau eu hariannu'n ymarferol drwy adnodd craidd y Bwrdd Iechyd, gyda'r arbedion yn rhai 'tybiedig' yn hytrach na rhai wedi eu gwireddu'n ymarferol mewn termau rheolaeth ariannol - ad-delir y buddsoddiad yn gorfforaethol drwy adnodd craidd, nid yn uniongyrchol o ganlyniad i'r arbedion a grëir. Wedi dweud hyn, mae'r manteision mewn arian yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, a gallai hyn yn y pen draw olygu y gellir darparu ffigurau cadarn. Ar adeg yr astudiaeth achos nid oedd y data hwn ar gael.

Mae cyflawniadau mesuradwy wedi eu cyflawni. Er enghraifft, ers i Gam 1c ddechrau ym mis Tachwedd 2012, recriwtiwyd tua 50 o bobl i'r CRT, gan alluogi i ddarpariaeth gwasanaeth CRT gael ei hymestyn ar draws ardal ddaearyddol y Bwrdd Iechyd, er bod recriwtio wedi cymryd yn hwy nag a ddisgwyliwyd. Roedd rhywfaint o hyn yn uniongyrchol briodoladwy i Buddsoddi i Arbed - nid oedd Gogledd a Gorllewin Caerdydd yn cefnogi CRTau cyn y cam a ariannwyd gan Buddsoddi i Arbed o'r gweithgarwch. Mae datblygiad CRTau yn allweddol i leihau'r angen am dderbyn i'r ysbyty a lleihau

arosiadau hir, ac felly mae'r gwaith ymestyn hwn yn cynorthwyo i ysgogi arbedion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi'r anhawster i ddeall, ar y cyfan, pa wahaniaeth y mae'r arian Buddsoddi i Arbed wedi ei wneud, gyda pheth gweithgarwch eisoes wedi ei wneud, tra byddai peth gweithgarwch wedi digwydd pe bai'r arian Buddsoddi i Arbed wedi ei sicrhau ai peidio.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu cyfres o fetrigau perfformio ansoddol, gyda'i bartneriaid a gan ddilyn cyngor y Cronfa'r Brenin a Swyddfa Archwilio Cymru, er mwyn darparu casgliad mor gadarn â phosibl o ddata perfformiad ynglŷn â'r gwelliannau perfformiad o'r ymgyrch. Erbyn mis Gorffennaf 2013, nodwyd cyflawniadau ar bedwar o'r 12 metrig mewn:

- symud y cydbwysedd o ddarpariaeth cartref gofal i ofal yn y cartref, yn cynnwys cymorth strôc yn y cartref
- data cwympiadau yn ymddangos ei fod yn dangos gwelliannau
- rhyddhau i fan preswyl arferol yn cynyddu gan 3%
- gweithgarwch yn yr Uned Asesu Gofal i'r Henoed ac Ysbyty Dydd yn Lleihau.

Roedd datblygiad staff hefyd yn elfen bwysig o brosiect Buddsoddi i Arbed. I'r perwyl hwn cynhaliwyd gweithdai, a rhoddwyd adnoddau ar gael i ddatblygu'r gweithlu, gan ddwyn gwahanol bartneriaid ynghyd. Adroddwyd, yn anecdotaidd, bod y cynnydd hwn mewn gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn un o fanteision mawr y prosiect, gyda'r gwahanol bartneriaid nawr yn cydweithio mewn modd mwy unedig. Mae hyn yn bwysig, o gofio mai'r dull tameidiog blaenorol oedd un o'r ffactorau a oedd yn tanseilio ymdrechion i ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn cyn Buddsoddi i Arbed. Ystyrir y newid diwylliannol y mae hyn wedi ei feithrin - gyda phartneriaeth yn cael ei weld yn fwyfwy fel y norm, yn hytrach na'r eithriad - yn fantais interim bwysig i'r prosiect

*Beth weithiodd yn dda…*

Ar y cam hwn nid yw'n bosibl i fod yn ddiffiniol ynglŷn â beth sydd wedi gweithio'n dda, gyda'r prosiect yn "waith sy'n mynd rhagddo". Er gwaethaf

hyn, nodwyd bod yr arian Buddsoddi i Arbed yn hollbwysig ar gyfer y cam hwn o'r ymgyrch wrth symud ymlaen, mewn prosiect sy'n arloesol a chymhleth i'r Bwrdd Iechyd a'r partneriaid.

Un maes y mae'r prosiect wedi perfformio'n dda ynddo hyd yma yw mewn meithrin ymddiriedaeth rhwng y sefydliadau sy'n rhan ohono, lle'n flaenorol roedd rhywfaint o ddrwgdybiaeth a rhwystredigaeth ynglŷn â'r diffyg adnoddau oedd ar gael. Mewn partneriaeth a phroses, mae'r prosiect wedi gweithio'n dda hyd yma.

*… a beth allai fod wedi gweithio'n well*

Fel uchod, mae'n rhy gynnar i fod yn ddiffiniol. Fodd bynnag, ar y cam hwn nodwyd nifer o bwyntiau:

- Mae peth ansicrwydd rhwng partneriaid (er nad Llywodraeth Cymru) ynglŷn â phwy fyddai'n ad-dalu'r arian i Lywodraeth Cymru, a sut, o gofio bod dim proses glir i gasglu a dangos tystiolaeth o arbedion arfaethedig.
- Mae ymrwymiad i'r ymgyrch ymhlith awdurdodau cyfranogol wedi bod yn amrywiol, fel y dangosir wrth i Gyngor Caerdydd ddymuno peidio defnyddio'r arian Buddsoddi i Arbed, mewn gwrthgyferbyniad i'r Bwrdd Iechyd a Bro Morgannwg. Oherwydd hyn, fe'u gadawyd ar ei hôl hi ychydig, gan fethu'r targed osgoi capasiti a fwriadwyd yn y flwyddyn gyntaf.
- Byddai cael cyllideb wedi'i chydgrynhoi yn ddefnyddiol, gyda chyllidebau ar hyn o bryd yn cael eu rheoli ar wahân, er bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud yma.

*Gwersi allweddol*

Er bod y prosiect yn mynd rhagddo, mae'r gwersi allweddol o'r prosiect hwn hyd yma yn cynnwys:

- Yr angen i ddarparu metrigau priodol ar gyfer mesur perfformiad. Er bod y dewis o fetrigau ansoddol wedi cael eu dangos, ac y casglwyd data ar eu cyfer, mae'n ymddangos y bu hi'n anoddach nag a ddisgwyliwyd i fesur yr arbedion mewn arian uniongyrchol a

gyflawnwyd o’r prosiect. Er bod gwelliannau ansoddol yn bwysig, y bwriad oedd i’r prosiect gyflawni arbedion mewn arian uniongyrchol. Mae eglurder o’r dechrau ynglŷn â sut y cyfrifir arbedion ar gyfer pob prosiect yn allweddol.

- Mae’r prosiect yn ymwneud ag ailddyrannu staff, gyda pheth dadsefydlogi o ganlyniad, gan amlygu agwedd bwysig o brosiectau lle mai’r bwriad yw creu gwasanaeth newydd gan ddefnyddio staff presennol. Rhaid i’r canlyniadau hyn gael eu hystyried cyn dechrau ar unrhyw brosiect, gan y gall lleihad gallu mewn un maes wrthbwyso’r manteision a gafwyd mewn maes arall o ganlyniad i weithredu’r prosiect.
- Mewn prosiect lle mae nifer o bartneriaid wedi eu hariannu, pob un â rôl bwysig i’w chwarae, mae’n hollbwysig bod yr holl bartneriaid wedi ymrwymo’n llawn o’r dechrau. Er bod effaith Caerdydd yn peidio â manteisio ar arian Buddsoddi i Arbed yn y flwyddyn gyntaf wedi ei leihau, mae ymgysylltiad ac ymrwymiad partneriaid drwy gydol prosiect mor gymhleth yn allweddol.
- Gyda’r prosiect hwn yn drydydd cam yr ymgyrch, â phrosiect Buddsoddi i Arbed yn llunio rhan o ymyrraeth a oedd yn llawer mwy, roedd gwahanu’n glir beth mae Buddsoddi i Arbed wedi, a heb, ei gyflawni yn anodd. Unwaith eto mae’n bwysig cael eglurder o’r dechrau ynglŷn â phriodoli manteision, yn ogystal â chostau.

**Rhaglen Cydweithio Gwell Adferiad ar ôl Llawdriniaeth 1000 o Fywydau a Mwy Cymru**

- Ceisiodd prosiect y colon a'r rhefr Rhaglen Gwell Adferiad ar ôl Llawdriniaeth (ERAS) gyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau gwasanaeth mewn llawfeddygaeth yn GIG Cymru drwy ledaenu egwyddorion ERAS. Dyfarnwyd tua £569 mil o adnodd Buddsoddi i Arbed i'r prosiect hwn.
- Ysgogwyd y dull cyffredinol y prosiect yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag fe'i cyflenwyd gan y Byrddau Iechyd unigol gyda hyblygrwydd lleol. O ganlyniad, nid oes 'un farn' o'r prosiect; yn syml roedd yn gweithredu'n wahanol mewn gwahanol fannau.
- Canfu'r ymchwil astudiaeth achos amrywiaeth o farn gan y partneriaid ynglŷn â llwyddiant, neu beidio, y prosiect: adlewyrchir y ddau safbwynt yn yr adroddiad astudiaeth achos hwn. O ran pennawd, un farn oedd bod y prosiect yn llwyddiant, gan roi gwelliannau ar gyfer cleifion ac ysgogi arbedion effeithlonrwydd. Yr ail oedd nad oedd y prosiect yn llwyddiant, a'i fod wedi llesteirio gwelliant gwasanaeth.
- Lle'r ystyriwyd bod y prosiect yn llwyddiant, heb Buddsoddi i Arbed mae'n debygol y byddai'r prosiect wedi ei gyflawni, ond nid ar yr un cyflymder, nac ychwaith yn rhoi'r un hwb a momentwm i gyflwyno ymhellach y gwaith yr oedd yr ariannu wedi ei alluogi.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Cyfle i wella gofal cleifion a chanlyniadau cleifion yn sylweddol drwy weithredu egwyddorion Gwell Adferiad ar ôl Llawdriniaeth (ERAS) mewn meysydd clinigol penodol mewn Byrddau Iechyd ledled Cymru<br>• Cyflawni yn erbyn amcanion polisi Ymgyrch 1000 o Fywydau i wella gofal llawfeddygol a lleihau cymhlethdodau llawfeddygol | • Gwella ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion sy'n derbyn llawdriniaeth fawr, a lleihau niwed<br>• Gwella mesuriadau effeithlonrwydd gwasanaeth drwy leihau hyd arosiadau, cymhlethdodau ar ôl llawdriniaeth, llawdriniaethau yn cael eu canslo a chyfraddau ail dderbyn gan arwain at arbedion rhyddhau arian | • Gwerth tua £570 mil o arian Buddsoddi i Arbed wedi ei ddosbarthu ar draws Byrddau Iechyd<br>• Byrddau Iechyd a chydlynwyr cenedlaethol i gefnogi cyflwyniad egwyddorion ERAS ym meysydd y colon a'r rhefr ac orthopaedeg<br>• Gweithrediad ERAS gan Fyrddau Iechyd Lleol mewn Bwndeli gofal dethol (gofal sylfaenol, gofal asesu cyn llawdriniaeth, gofal yn ystod llawdriniaeth, gofal wedi llawdriniaeth, gofal wrth ryddhau a gofal dilynol)<br>• Lledaenu a rhannu arfer gorau yn lleol a chenedlaethol | • Manteision rhyddhau arian drwy fod llai yn aros mewn gwelyau<br>• Gwireddu manteision yn ymarferol fel manteision nad sy'n rhyddhau arian drwy ddefnydd mwy effeithlon o ofodau gwelyau o ganlyniad i leihau arosiadau e.e. gweld rhagor o bobl, yn gyflymach<br>• Bwriedir gwell profiad a chanlyniadau ar gyfer y claf drwy broses ERAS | • Gwell canlyniadau gofal iechyd ar gyfer cleifion, yn cyfrannu at leihad mewn marwolaethau ataliadwy<br>• Gwell effeithlonrwydd gwasanaeth y GIG ar draws Cymru<br>• Cyflwyno egwyddorion ERAS i feysydd clinigol eraill a ddewisir, gan roi manteision hirdymor mewn canlyniadau cleifion |

*Cefndir y prosiect*

Bwriad datganedig Rhaglen Cydweithio Gwell Adferiad ar ôl Llawdriniaeth (ERAS), a oedd yn gweithredu mewn Byrddau Iechyd ledled Cymru o dan ymgyrch 1000 o Fywydau a Mwy, oedd gwella canlyniadau ansawdd a phrofiad cleifion a hybu arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau mewn gwasanaeth.  Dewiswyd llawfeddygaeth y colon a'r rhefr[5] ar gyfer prosiect Buddsoddi i Arbed o fewn y rhaglen, oherwydd fe'i ystyriwyd yn faes llawfeddygaeth lle gellid gwneud gwelliannau sylweddol drwy fabwysiadu ERAS, gyda'r rhaglen hefyd yn gweithio'n fwy eang mewn cyflwyno ERAS ym maes llawfeddygaeth pen-gliniau a chluniau cyflawn (llawfeddygaeth TKR a THR).

Gan orwedd o fewn y corff Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) blaenorol, mae 1000 o Fywydau a Mwy wedi cynnal nifer o raglenni cydweithredol eraill - ni wnaeth y rhaglenni eraill dderbyn arian gan Buddsoddi i Arbed ac ni chanolbwyntir arnynt yn yr astudiaeth achos hon.

Dechreuodd ERAS yn Sgandinafia, UDA a Lloegr.  Egwyddorion craidd ERAS yw sicrhau bod cleifion yn y cyflwr gorau posibl ar gyfer llawfeddygaeth, bod y claf yn cael y llawdriniaeth feddygol orau posibl, a bod gan y claf yr adferiad gorau posibl wedi llawdriniaeth, gan alluogi adferiad mor gyflym â phosibl. Trefnwyd yr egwyddorion yn bump "Bwndel Gofal" gan 1000 o Fywydau a Mwy, yn adlewyrchu'r egwyddorion ERAS hyn, ac y byddai'r prosiect Buddsoddi i Arbed yn gweithio iddynt, ac yn cynnwys gweithgareddau penodol i ddatblygu arfer a darpariaeth:

- gofal sylfaenol
- gofal asesu cyn llawdriniaeth
- gofal yn ystod y llawdriniaeth ei hun
- gofal ar ôl llawdriniaeth
- rhyddhau a gofal dilynol.

[5] Cyflawnir llawfeddygaeth y colon a'r rhefr i atgyweirio difrod i'r colon, y rhefr a'r anws, a achosir gan glefyd ar y llwybr treulio isaf, megis canser, llid y diferticwlwm, a Clefyd Llidiol y Coluddyn.

Gallai gweithredu egwyddorion ERAS o fewn y Bwndeli Gofal hyn gynnwys, er enghraifft, ffyrdd newydd o weithio ym meysydd ffisiotherapi, dieteg, nyrsio arbenigol y colon a'r rhefr, neu anaesthesia.  Felly, yn y bôn, ceisiodd y prosiect wella canlyniadau ansawdd a phrofiad y claf, yn cynnwys lleihad mewn cymhlethdodau ar ôl llawdriniaeth, llawdriniaethau'n cael eu canslo ac ail-dderbyn drwy weithrediad egwyddorion ERAS mewn llawfeddygaeth y colon a'r rhefr mewn Byrddau Iechyd ar draws Cymru.

Y ganlyneb yw y bydd y gwell gwasanaeth yn arwain ar leihad yn hyd arhosiad y claf yn yr ysbyty, sy'n arwain ar arbedion cost.  Yr amcan gwreiddiol ar gyfer prosiect Buddsoddi i Arbed oedd cyflawni arbedion rhyddhau arian gwerth £1.15 miliwn y flwyddyn ledled Cymru drwy arosiadau byrrach yn yr ysbyty.

Yn anarferol ar gyfer prosiect Buddsoddi i Arbed, er ei fod wedi ei gwmpasu a'i ddatblygu'n wreiddiol gan Fyrddau Iechyd unigol, ysgogwyd y prosiect yn ganolog fel prosiect Cymru-gyfan.  Y sail resymegol ar gyfer hyn oedd er mwyn sefydlu a chynorthwyo i ledaenu arfer da yn genedlaethol.  Gwelodd yr ymchwil astudiaeth achos wahanol farn ar briodoldeb ac effeithiolrwydd y dull 'o'r brig i lawr' a strategol hwn, fel y trafodir yn fwy manwl isod. Er ei bod yn canolbwyntio ar weithgareddau clinigol, ceisiodd y rhaglen sicrhau arian Buddsoddi i Arbed gan nad oedd digon o adnoddau yn yr Ymddiriedolaethau a'r Byrddau Iechyd ar draws GIG Cymru i ysgogi gweithgarwch o'r fath gan ddefnyddio adnoddau craidd.

*Gweithrediad y prosiect*

Yn 2010, dyfarnodd Cronfa Buddsoddi i Arbed £569,000 i Raglen ERAS Cymru gyfan, sydd, gydag elfen arian cyfatebol gwerth 25%, yn dod â chyfanswm cost y prosiect i tua £760,000.  Dosbarthwyd yr arian i bob Bwrdd Iechyd, ac yna pob Bwrdd yn gweithredu'r prosiect ar lefel leol, yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol, ond gyda Buddsoddi i Arbed yn cefnogi timau ym maes llawfeddygaeth y colon a'r rhefr yn benodol.

Fel y tîm canolog, sefydlodd 1000 o Fywydau a Mwy y pum bwndel o fathau gofal y soniwyd amdanynt yn flaenorol, a hefyd cynigodd arweiniad i Fyrddau Iechyd ar ERAS, ar gyfer llawfeddygaeth y colon a'r rhefr, yn ogystal â

llawfeddygaeth TKR a THR.  Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ar gyfer y rheiny oedd yn ymwneud â’r prosiect Buddsoddi i Arbed er mwyn sefydlu arfer gorau a dealltwriaeth ar draws y sefydliadau oedd yn gysylltiedig. Awgrymodd y canllawiau y dylai un tîm clinigol o fewn pob Bwrdd Iechyd dderbyn arian drwy Raglen ERAS er mwyn addasu, treialu a lledaenu arferion ERAS. Yna byddai disgwyl i dimau clinigol eraill yn yr ardal fabwysiadu arferion o’r fath, drwy ledaenu arfer gorau.

Cynhaliwyd yr ymdrechion cyntaf gan Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, lle’r oedd cynnydd eisoes wedi ei wneud cyn dechrau’r prosiect Buddsoddi i Arbed.  Mae’n bwysig nodi nad oedd yr holl Fyrddau Iechyd ar yr un cam o fabwysiadu dull ERAS ar y dechrau.

Ar y pwynt hwn mae’r elfen a ariannwyd gan Buddsoddi i Arbed wedi ei chwblhau, er bod ad-daliad yr arian yn dal i ddigwydd, gyda’r taliadau terfynol i’w disgwyl yn 2014/15.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Fel y nodwyd uchod, roedd model gweithredu'r prosiect yn wahanol ym mhob Bwrdd Iechyd. Er mwyn cyflwyno dau brofiad gwahanol o’r prosiect, cysylltwyd â dau Fwrdd Iechyd at ddiben yr astudiaeth achos.  O gofio’r gwahaniaeth barn, rydym wedi adrodd ar wahân isod ar yr adborth a roddwyd ynglŷn â’r prosiect gan bob Bwrdd Iechyd (yn ddienw). Ni nodwyd manteision rhyddhau arian, gan y naill ymatebwr na’r llall, gydag unrhyw ofod gwely a grëir yn cael ei lenwi gan gleifion eraill.

***Adborth gan Fwrdd Iechyd A***

Roedd manteision a chyflawniadau’r prosiect, yn ôl Bwrdd Iechyd A, yn sylweddol.  Roeddent yn cynnwys:

- o ran manteision i gleifion, adroddwyd bod hyd arhosiad wedi lleihau, er ei fod yn anodd meintioli hyn o ran lleihad mewn nifer gwelyau, gan y caiff gwelyau eu llenwi eto unwaith y byddant wedi eu gwagio
- cyflawnwyd manteision ansoddol ehangach gyda’r prosiect yn rhoi cymhelliant i weithrediad egwddorion ERAS, gan ddangos i ymarferwyr yn ardal ddaearyddol y Bwrdd Iechyd bod gan ERAS y gallu i wella’n

sylweddol y canlyniad ansawdd a phrofiad y claf ar gyfer llawfeddygaeth ddewisol ac annewisol.

Yn wir, erbyn hyn mae camau'n cael eu cymryd i gyflwyno ERAS mewn meysydd llawfeddygaeth ddewisol eraill. Mae'r prosiect wedi creu brwdfrydedd ymhlith meddygon, nyrsys a therapyddion i barhau i'w gyflwyno. O ran hyn, mae gan Raglen ERAS y potensial i arwain at ragor o fanteision nag a ddisgwyliwyd, drwy ymledu i arbenigeddau llawfeddygol eraill. Nodyn pwysig yw bod ymrwymiad wedi ei roi i barhau gydag egwyddorion ERAS, gan roi etifeddiaeth a chynaliadwyedd ar gyfer y prosiect yn y dyfodol.

Yn yr achos hwn, ystyriwyd bod ychwanegedd y prosiect (ac yn ei dro arian Buddsoddi i Arbed) yn sylweddol. Adroddodd Bwrdd Iechyd A, heb gymorth Buddsoddi i Arbed mae'n debygol y byddai'r prosiect wedi ei gyflawni, ond nid ar yr un cyflymdra, nac ychwaith yn rhoi'r un hwb i'w gyflwyno'n fwy eang ag yr oedd yr ariannu wedi ei alluogi.

***Adborth gan Fwrdd Iechyd B***

Roedd yr adborth gan Fwrdd Iechyd B yn llai cadarnhaol. Teimlwyd bod Rhaglen ERAS a ariannwyd gan Gronfa Buddsoddi i Arbed fel petai'n dal yn ôl, yn hytrach na chyflymu neu'n gynyddu maint, gweithrediad a lledaeniad egwyddorion ERAS. Mae'n ymddangos bod y cyd-destun yn ffactor bwysig yma - roedd ERAS eisoes wedi ei sefydlu fel egwyddor yn y Bwrdd Iechyd hwn (ym maes llawfeddygaeth y colon a'r rhefr), wedi ei ysgogi'n fewnol yn hytrach na thrwy brosiect allanol megis Rhagen ERAS. Soniwyd bod prosiectau allanol wedi arwain at beth gwrthwynebiad ar lefel leol. Hefyd, ni lwyddodd y cydlynydd ERAS a benodwyd gan y prosiect i roi'r hwb a obeithiwyd i'r broses ERAS. Gadawodd y swydd yn gynnar ac ni phenodwyd rhywun yn ei le.

Yn nodedig, arddodwyd bod gweithrediad ERAS yn y maes orthopedig wedi cynyddu wedi i gydgysylltydd Rhaglen ERAS symud ymlaen. Yr eglurhad am hyn oedd bod staff yn elwa o lefel uwch o hyblygrwydd heb rôl ffurfiol y cydlynydd, eu bod gallu i wneud cynnydd o ran yr egwyddorion yn ôl eu cyflymder eu hunain, ac oherwydd llai o ofynion i ddarparu data a monitro ar ddiwedd y cyfnod ariannu.

*Beth weithiodd yn dda…*

Fel y nodwyd uchod, roedd gan y ddau Fwrdd Iechyd yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth achos hon wahanol safbwyntiau ynglŷn â beth a weithiodd yn dda gyda'r prosiect a beth na weithiodd cystal. Mae'r ddau safbwynt yn bwysig, ac maent yr un mor ddilys o gofio gweithrediad lleol Rhaglen ERAS. Lle gwelwyd bod y prosiect wedi gweithio'n dda gwnaed y pwyntiau canlynol:

- lle nad oedd ERAS eisoes wedi ei sefydlu, rhoddodd Rhaglen ERAS gymhelliant ffres a momentwm i gynnal cynllun peilot ohoni a'i chyflwyno - yn hyn o beth, roedd newydd-deb y gweithgaredd prosiect (er wedi ei seilio ar dystiolaeth glinigol gadarn) yn bwysig
- rhoddodd arian Buddsoddi i Arbed ffocws ac atebolrwydd i'r prosiect, a thrwy'r gofynion adrodd, sicrhaodd bod y gweithgaredd wedi ei ddatblygu a bod gweithdrefnau monitro ar waith
- roedd y dysgu a rennir ar draws ac o fewn Byrddau Iechyd, yn cynnwys gweithdai, ymweliadau safle, cyfnewid negeseuon e-bost, a lledaenu arfer gorau yn cynorthwyo i safoni a gwneud y defnydd gorau o'r dulliau . Ystyriwyd hon yn ffordd arloesol o rannu syniadau ar draws ffiniau gofodol a chlinigol gan Fwrdd Iechyd A (roedd Bwrdd Iechyd B yn llai cadarnhaol ynglŷn â'r dysgu a rennir).

*… a beth allai fod wedi gweithio'n well*

Roedd 'baich' canfyddedig y prosiect yn fater craidd i Fwrdd Iechyd B, gan danategu safbwyntiau ehangach ar briodoldeb y prosiect. Fodd bynnag, un maes lle gwelwyd adborth cyson ar draws y ddau Fwrdd Iechyd cyfranogol dan sylw oedd defnydd metrigau mesuradwy ar gyfer arosiadau mewn gwely fel mesuriadau allweddol ar gyfer llwyddiant y prosiect. Adroddodd y ddau Fwrdd Iechyd bod asesiad mesuradwy o nifer arosiadau gwely, neu leihad mewn hyd arosiadau gwely, ddim yn fesur priodol o lwyddiant, gan argymell canolbwyntio ar ansawdd a'r canlyniadau ar gyfer cleifion.

Mae'r pwynt hwn yn adlewyrchu'r tensiwn clir rhwng manteision datganedig y prosiect a ddefnyddiwyd i sicrhau arian Buddsoddi i Arbed - sef manteision

rhyddhau arian drwy leihad mewn arosiadau gwely - a gwireddiad ymarferol o’r prosiectau lle bod model ERAS yn canolbwyntio ar fanteision nad sy'n rhyddhau arian drwy well gofal (am yr un adnodd), neu’r gallu i drin mwy o bobl (drwy leihau hyd arhosiad cleifion unigol). Mae dau bwynt arall yn werth eu nodi:

- ystyriwyd bod y prosesau monitro yn feichus gan Fwrdd Iechyd B, gyda 43 o fesuriadau i’w cymryd ar gyfer ERAS (a sefydlwyd gan NLIAH), ac ni ystyriwyd pob un yn berthnasol. Cyfunodd y Bwrdd Iechyd y rhain yn 12
- gyda thîm canolog yn cydgysylltu ymdrechion yn genedlaethol, mae’r Byrddau Iechyd wedi gorfod ad-dalu lefelau uwch o adnodd nag y gwnaethant ei dderbyn, gydag arbedion rhyddhau arian hyd yma heb eu cyflawni (ac ni ddisgwylir iddynt gyflawni oherwydd y pwyntiau a godwyd uchod). Golygai hyn bod y prosiect wedi costio, yn hytrach nag arbed (o ran llif arian yn unig) arian y Byrddau Iechyd.

*Gwersi allweddol*

Nid yw’r gwersi a ddysgir gan y prosiect yn syml. Fodd bynnag, mae tair neges allweddol yn ymddangos.

- Yn gyntaf, lle bo prosiectau’n ymwneud â newid ymddygiad, mae sicrhau cefnogaeth a pherchnogaeth leol yn allweddol, yn arbennig pan fo’r ymyrraeth yn ceisio addasu arferion sydd wedi eu sefydlu, ac o bosibl yn arbennig mewn sefyllfaoedd proffesiynol arbenigol megis gofal iechyd. Mae profiad Bwrdd Iechyd B yn awgrymu mai ‘baich’ ganfyddedig o broses o’r tu allan i’r sefydliad a arweiniodd yn bennaf at yr heriau mewn gweithredu. Wrth gwrs, *nid* yw hyn yn golygu na all prosiectau a arweinir yn ganolog weithio neu na ddylid eu datblygu yn y dyfodol; ond mae’n golygu pan fyddant, y dylid cymryd gofal i sicrhau bod arferion sy’n bodoli’n lleol eisoes yn cael eu deall ac yr adeiladir arnynt cyn belled ag y bob hynny’n ymarferol drwy fframwaith ar lefel leol. Yn syml, er mwyn i newidiadau ymddygiad weithio mae’n allweddol cael cefnogaeth y rheiny sy’n ymwneud mewn arfer y

technegau hyn ar lawr gwlad a dylent fod yn ganolbwynt craidd y gwaith cynllunio prosiect cychwynnol a'r gweithredu.

- Yn ail, pan fydd yn cefnogi gweithgaredd mewn un maes penodol o fewn sefydliad, mae'n bwysig ymgysylltu â, a cheisio, cyn belled ag sy'n ymarferol, i sicrhau ymrwymiad timau nas ariennir ond sy'n gysylltiedig. Yr adborth gan Fwrdd Iechyd A oedd bod darpariaeth arian 'ychwanegol' i un tîm yn y Bwrdd Iechyd wedi achosi rhai problemau gyda thimau na ariannwyd; mae hyn yn dangos pwysigrwydd sicrhau cefnogaeth nid yn unig gan y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol ond hefyd y rhai hynny sy'n "colli allan" yn uniongyrchol ar yr ariannu. Gyda phrosiect sy'n ceisio yn y pen draw arwain at dechnegau newydd i'w lledaenu o gynllun peilot/tîm prawf i rannau eraill mewn sefydliad, mae'n hollbwysig i sicrhau nad yw grwpiau eraill yn teimlo eu bod wedi eu 'cau allan' o'r broses.
- Yn drydydd, yr angen am eglurder llwyr ynglŷn â nodau ac amcanion y prosiect o'r dechrau. Mae Rhaglen ERAS fel petai wedi gweld datgysylltiad ym model rhesymeg y prosiect rhwng y cais Buddsoddi i Arbed, a gafodd ei ddarogan ar leihad mewn hyd arosiadau (yn creu arbedion effeithlonrwydd), a phartneriaeth gydweithredol 1000 o Fywydau a Mwy, prosiect a oedd yn y bôn yn ymwneud â chanlyniadau i gleifion nid arbedion effeithlonrwydd. Wrth gwrs, gall prosiectau wneud y ddau, ond mae eglurder ar y ffocws craidd (y naill, y llall, neu'r ddau) yn wers bwysig a ddysgwyd o Raglen ERAS.

**Gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru**

- Roedd Gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru yn ymwneud â thrawsnewid gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal, gan ddwyn ynghyd dri gwahanol wasanaeth yn un mewn dwy ganolfan, yng Nghonwy ac Ynys Môn, er mwyn ysgogi arbedion effeithlonrwydd o ran costau, galluogi i wasanaethau Cymraeg gael eu ehangu, darparu gwasanaethau adfer mewn trychineb ar gyfer y gwasanaeth, cynnal achrediad y Gymdeithas Gwasanaethau Teleofal, a chontractau gyda sefydliadau sy'n gwsmeriaid.
- Arweiniwyd y prosiect gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mewn partneriaeth â Chynghorau Ynys Môn, Gwynedd a Sir y Fflint, gyda'r prosiect yn derbyn £300,000 o arian Buddsoddi i Arbed er mwyn cynorthwyo'r gwasanaeth i ddod yn weithredol.
- Drwy gyfrwng y prosiect mae disgwyl gweld arbedion gwerth dros £1.46 miliwn dros gyfnod o bedair blynedd rhwng 2011/12 a 2014/15 a hefyd gwelliannau sylweddol eraill mewn cynhyrchiant a darpariaeth gwasanaeth.
- Mae'r prosiect wedi rhoi'r hwb i ragor o weithio mewn partneriaeth rhwng y partneriaid rhanbarthol, gyda'r prosiect yn gweithio fel patrwm o'r arbedion effeithlonrwydd y gellid eu gwneud drwy weithio'n rhanbarthol yng Ngogledd Cymru.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Ystyriwyd y drefn bresennol yn anghynaladwy, gyda'r perygl y byddai'r tri gwasanaeth yn cau a'r gwasanaeth yn cael ei roi ar gontract, o bosibl y tu allan i'r ardal leol<br>• Byddai hyn yn peryglu gwasanaeth Cymraeg y rhanbarth, a'r brand lleol, ac o bosibl yn cynyddu cost ar yr un pryd<br>• Gydag ariannu Buddsoddi i Arbed gellid ymgymryd â'r prosiect i ranbartholi'r gwasanaeth yn gyflymach nag y gellid ei wneud heb y cyllid, gan gynyddu'r siawns o ranbartholi llwyddiannus | • Ceisiodd y prosiect gyflawni nifer o amcanion. Yn bennaf ceisiodd greu gwasanaeth cynaliadwy ar gyfer y rhanbarth, wedi ei achredu a gyda darpariaeth Cymraeg ledled y rhanbarth<br>• I'r perwyl hwn, ceisiodd y prosiect:<br>• Gyfuno darpariaeth mewn dwy ganolfan<br>• Lleihau cost uned<br>• Gwella gallu adfer mewn trychineb<br>• Rhoi fframwaith trefn lywodraethol gadarn ar waith | • £300 mil o arian Buddsoddi i Arbed, £50 mil CLlLC, £30 mil amser Prif Weithredwr<br>• Derbyniwyd arian Buddsoddi i Arbed er mwyn pontio bwlch ariannu disgwyliedig ym mlwyddyn gyntaf y gwasanaeth, o ganlyniad i gostau diswyddiadau ac ail-gyflunio<br>• Darparwyd arian gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd ar gyfer rheoli prosiect a chwmpasu'r prosiect<br>• Roedd arian Buddsoddi i Arbed wedi galluogi i un o'r canolfannau, yn Sir y Fflint, gael ei chau ac i'r gwasanaeth newydd gael ei gyflwyno ar draws y ddwy ganolfan arall | • Disgwylir y bydd cost uned fesul galwad wedi gostwng i 76c yr alwad erbyn 2014/15<br>• Dylai cyfanswm yr arbedion hyd ddiwedd 2014/15 fod dros £1.46 miliwn<br>• Nid yn unig bod gwasanaeth Cymraeg wedi ei gadw, mae hefyd wedi ei ehangu<br>• Gwasanaeth adfer mewn trychineb llawn ar waith, tra bod mwy o gefnogaeth ar gael tu allan i oriau<br>• Mae'r gwasanaeth yn gweithredu technolegau GPS a symudol, gan alluogi defnydd ehangach o'r cyfleusterau a gynigir<br>• Mae pob contract cwsmeriaid wedi ei gadw | • Mae'r gwasanaeth nawr ar sylfeini mwy cynaliadwy o ganlyniad i gostau uned is<br>• Drwy gynnydd mewn darpariaeth mae'r gwasanaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar feysydd eraill gofal cymdeithasol<br>• Mae'r prosiect wedi dangos rhinweddau gweithio'n rhanbarthol ar gyfer partneriaid yn rhanbarth Gogledd Cymru |

*Cefndir y prosiect*

Arweiniwyd prosiect Gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru Buddsoddi i Arbed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ynghyd â'i Gynghorau partner yn Ynys Môn, Gwynedd a Sir y Fflint. Nod y prosiect oedd sefydlu un gwasanaeth monitro galwadau technoleg gynorthwyol 24 awr y dydd rhanbarthol (teleofal a tele-iechyd) ar draws Gogledd Cymru, gan gyfuno'r gwasanaethau presennol.

Roedd gwaith eisoes wedi dechrau ar ranbartholi monitro galwadau cyn Buddsoddi i Arbed, gyda'r ymdrechion yn dechrau yn 2006/7, a'u datblygu gan gwmnïau Cydweithredol Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Comisiynwyd yr ymgynghoriaeth teleofal T-Cubed gan y bartneriaeth i gynnal astudiaeth er mwyn argymell ffyrdd ymlaen ar gyfer rhanbartholi darpariaeth teleofal, ac o hynny deilliodd Cytundeb Partneriaeth Adran 101 rhwng pedwar Cyngor: Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint a Gwynedd. Deilliodd nifer o ffrydiau gwaith a argymhellwyd o astudiaeth T-Cubed, gyda gwasanaeth monitro wedi ei ranbartholi yn y pen draw yr agwedd gyntaf i gael ei datblygu. Ariannwyd achos busnes ar gyfer rhanbartholi'r gwasanaeth monitro galwadau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chronfa Gwella Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cymru.

Cyn y prosiect Buddsoddi i Arbed, roedd tri gwahanol wasanaeth ar waith ar draws y rhanbarth, yn Ynys Môn (Gofal Môn), Conwy (Llinell Ofal Conwy) a Sir y Fflint (Cyswllt Gofal Sir y Fflint). Fodd bynnag, arweiniodd hyn at adroddiadau am aneffeithlonrwydd mewn darpariaeth gwasanaeth. O gofio'r straen ar gyllidebau Cynghorau, daeth yn amlwg i'r partneriaid bod y gost uchel o weithredu'r tri gwasanaeth gwahanol yn anghynaliadwy. Datblygwyd cynigion i wella cynaliadwyedd drwy gyflunio'r gwasanaethau hyn, gyda gwasanaeth Sir y Fflint i gael ei gau, a gwasanaethau Conwy ac Ynys Môn i'w cyfuno yn un gwasanaeth ar draws dau leoliad gan wasanaethu'r rhanbarth yn gyfan.

Felly, heb Buddsoddi i Arbed, mae'n debygol y byddai peth symud tuag at wasanaeth monitro galwadau rhanbarthol wedi digwydd, gyda'r camau cynnar

eisoes wedi cael ymrwymiad sylweddol gan y partneriaid rhanbarthol. Heb arian Buddsoddi i Arbed, byddai'r Cynghorau wedi gorfod trafod ffynonellau eraill, megis ariannu darbodus, a fyddai wedi gallu cymryd amser hir i'w drefnu, a byddai angen rhagor o drafod a chynllunio. Po hiraf y byddai'r broses yn ei gymryd, mwyaf fyddai'r perygl na fyddai'r prosiect yn ymestyn ar draws ardal ddaearyddol sylweddol, a fyddai wedi lleihau'r arbedion effeithlonrwydd fyddai'n cael eu cyflawni. O ran hyn, teimlwyd y byddai Buddsoddi i Arbed yn fanteisiol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn mynd rhagddo mewn modd amserol. Gyda'r gronfa, cytunodd Cyngor Conwy i gynnal rheolwr y prosiect a rheoli'r arian Buddsoddi i Arbed, gydag Ynys Môn, Sir y Fflint a Gwynedd yn bartneriaid, a Sir Ddinbych yn gwsmer, heb yr angen am drafodaethau ynglŷn â chostau pontio wrth sefydlu'r gwasanaeth[6].

Her sylfaenol i sefydlu'r prosiect oedd cwmpasu'r gwasanaethau ar draws y rhanbarth er mwyn canfod faint oedd y gwasanaethau monitro yn ei gostio, oherwydd nad oedd gweithdrefnau pob gwasanaeth wedi eu diffinio'n glir neu'n debyg. Er enghraifft, roedd cyllideb gwasanaeth Ynys Môn yn cynnwys gosod teledu cylch cyfyng, ac nid oedd cyllidebau eraill yn cynnwys hynny. Felly, roedd dadgyfuno'r gwasanaethau monitro galwadau oddi wrth eu cyllidebau gwasanaeth ehangach yn bwysig, ac roedd angen strwythur "ailgodi tâl" cytunedig ar gyfer y gwasanaeth, fel y gallai costau cynnal y gwasanaeth gael eu dadgyfuno'n gywir ar draws pob Cyngor. Cymerodd hyn beth amser, ond unwaith y cytunwyd arno caniatawyd i Gronfa Buddsoddi i Arbed gamu i mewn a rhoi'r gwasanaeth newydd ar waith.

Yn y pen draw, ceisiodd y prosiect sicrhau cynnydd mewn cynaliadwyedd, o ganlyniad i gostau is, a gwelliannau i'r gwasanaeth a gynigwyd, yn cynnwys cadw ac ehangu ei wasanaeth Cymraeg ar draws y rhanbarth, a'i allu i fodloni safonau adfer wedi trychineb a osodir gan y corff achredu, y Gymdeithas Gwasanaethau Teleofal (TSA). Roedd cwrdd â'r agendâu hyn, ynghyd â defnyddio'r feddalwedd fwyaf datblygedig oedd ar gael, yn golygu yr ystyriwyd y prosiect fel dull o ddiogelu'r gwasanaeth at y dyfodol, drwy roi i'r rhanbarth

[6] Hyd yn oed gydag arian Buddsoddi i Arbed, ni aeth y prosiect rhagddo ar draws y rhanbarth cyfan, gyda Wrecsam eisoes wedi ymrwymo'n gontractiol i ddarparwr allanol.

wasanaeth mewn sefyllfa unigryw unigryw wrth symud ymlaen, o gymharu â rhannau eraill o Gymru.

*Gweithrediad y prosiect*

Wedi cynhyrchu'r achos busnes ar gyfer gwasanaeth rhanbarthol, ceisiwyd cynnal trafodaeth fewnol ynglŷn â'r strwythur codi tâl a lluniodd Gyngor Conwy gyllideb ar gyfer y gwasanaeth. Gwnaethpwyd cais am arian Buddsoddi i Arbed ar ddiwedd 2010. Derbyniwyd yr arian ym mis Ionawr 2011 ac fe'i defnyddiwyd i fynd i'r afael â diffyg mewn refeniw wrth ddechrau'r gwasanaeth, yn cynnwys costau'n ymwneud ag uno'r gwasanaethau a cholli swyddi o wasanaeth Sir y Fflint.

Cytunwyd i ad-dalu'r arian Buddsoddi i Arbed dros gyfnod o ddwy flynedd, gyda £150 mil yn cael ei dalu yn 2011/12 a 2012/13. Roedd yr ad-daliad cyntaf ddeufis wedi dechrau'r gwasanaeth. Dechreuodd y gwasanaeth ar 1 Mehefin 2011, er bod hyn ddeufis yn hwyrach na'r amserlen oherwydd oedi mewn trosglwyddo ymgymeriadau gyda staff y gwasanaeth.

Dim ond un rhan o gost y prosiect oedd y £300 mil o arian Buddsoddi i Arbed. Roedd ffynonellau eraill yn cynnwys: cymorth gan CLlLC ar ffurf grant gwerth £50 mil ar gyfer rheoli a gweithredu'r prosiect, yn cynnwys ffrydiau gwaith cyfreithiol, TG, AD a chysylltiadau cyhoeddus, ac amser Prif Weithredwr a swyddog, a oedd yn dod i gyfanswm o tua £50 mil.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Mae prosiect Gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cyflawni manteision rhyddhau arian sylweddol ers dechrau'r gwasanaeth yn 2011, a rhagwelir y bydd yn gwneud hynny cyn belled â diwedd 2014/15, a disgwylir i arbedion barhau hefyd wedi hynny. Erbyn diwedd 2014/15 disgwylir y bydd dros £1.46 miliwn wedi ei arbed, gyda'r arian hwn yn cael ei amsugno i gyllidebau gwasanaeth gofal pob Cyngor yn eu tro. Y gost targed ar gyfer pob galwad yw 77c erbyn 2014/15, ac mae'r gwasanaeth ar y llwybr cywir i gyflanwi 76c am bob galwad. Ar y cyfan, ar draws y rhanbarth, mae lleihad posibl mewn costau yn dod i gyfanswm o tua 40% o'r hyn oedd cyllideb gweithredu'r tri gwasanaeth gwreiddiol, o ganlyniad i leihad mewn costau staffio, a hefyd gyfuno gofynion gofod a seilwaith.

Wedi dweud hynny, mae twf mewn gwasanaeth, gyda thwf o 7% mewn cysylltiadau a thwf o 38% mewn galwadau hyd yma, yn golygu nad yw'r arbedion wedi eu gwireddu'n llwyr yn uniongyrchol, o ganlyniad i gynnydd mewn staff o 19 i 21.42 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn, gydag arbedion effeithlonrwydd yn hytrach yn cael eu gwireddu drwy gynnydd mewn cynhyrchiant. Teimlir bod y twf yn dwf naturiol, ond gall hefyd fod o ganlyniad i well proffil ar gyfer y gwasanaeth, o ganlyniad i'r prosiect rhanbartholi. Yn ogystal, ni wireddwyd gwerth £10 mil o arbedion a ddisgwyliwyd o ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd wrth i Gonwy newid ei drefniadau meddalwedd ar gyfer monitro galwadau tu allan i oriau, gan na ddigwyddodd y trosglwyddo hwn fel y rhagwelwyd.

Mae manteision mewn arian yn un o nifer o fanteision y prosiect. Mae manteision eraill yn cynnwys:

- **Cadw gwasanaeth Cymraeg**, rhywbeth a allai fod wedi ei golli pe bai'r gwasanaeth wedi gorfod ei gyrchu'n allanol, ond ystyriwyd hwn yn bwysig yn rhanbarthol. Cyn dechrau'r gwasanaeth, nid oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael ar draws y rhanbarth cyfan beth bynnag, gan olygu bod hyn yn cynrychioli ehangiad o'r ddarpariaeth hon.
- Mae'r gwasanaeth yn rhedeg **24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn, gyda gwell cefnogaeth tu allan i oriau gwaith, a gyda darpariaeth adfer wedi trychineb llawn**, drwy fabwysiadu dull "un ganolfan, dau safle". Mae adfer mewn trychineb, gydag un ganolfan yn barod i gymryd drosodd gan un arall pe bai'n rhaid cau un ohonynt, yn elfen bwysig mewn cynnal achrediad TSA, a ystyrir yn allweddol er mwyn cynnal cynaliadwyedd masnachol y gwasanaeth, drwy gynorthwyo i gadw contractau gyda darparwyr allanol. Mae nifer o sefydliadau oedd â chontract ar gyfer y gwasanaethau cyn rhanbartholi, a chafodd yr holl gontractau hyn eu cadw yn dilyn rhanbartholi - yn eu plith contractau gyda chwmnïau rheoli tai cymdeithasol, a Chyngor Sir Ddinbych. Cyn mabwysiadu'r system bresennol, ni fyddai'r modd yr oedd y gwasanaethau hyn wedi eu sefydlu wedi hwyluso trosglwyddiad di-dor gweithrediadau o un ganolfan i ganolfan wrth gefn, a byddai hyn wedi tanseilio achrediad TSA.

- **Defnydd mwy effeithlon o allu a seilwaith**. Un amod o achrediad oedd bod yn rhaid i o leiaf dau berson fod wrth law i dderbyn galwadau bob amser. O dan yr hen system roedd yn rhaid cael o leiaf chwe pherson yn barod i dderbyn galwadau ar bob adeg, gyda thri gwasanaeth yn cael ei redeg ar wahân. Nawr gellir defnyddio isafswm o ddau ar draws y rhanbarth, gan ei fod yn un gwasanaeth unedig. O ran seilwaith, mae angen i becynnau meddalwedd a ddefnyddir gael eu diweddaru bob tair i bedair blynedd. Gyda thri gwasanaeth, byddai costau hyn wedi eu cael dair gwaith, ar gost o £80-90 mil. O dan y gwasanaeth wedi ei gyfuno dim ond unwaith mae'n rhaid talu am hwn.
- **Diogelu at y dyfodol**, oherwydd y cyfleusterau datblygedig y mae'r gwasanaeth nawr yn eu gweithredu. Yn ogystal â'r gwasanaeth adfer mewn trychineb llawn, yr unig enghraifft yng Nghymru, y gwasanaeth hwn yw'r unig un yng Nghymru sydd â galluoedd band eang optig ffibr a Protocol Llais dros y Rhyngrwyd, ochr yn ochr â galluoedd GPS a symudol, sy'n ddefnyddiol ar gyfer gweithio unigol, a chymwysiadau gofal a tele-iechyd eang. Mae hyn wedi golygu, yn ogystal â chadw ei gontractau, bod y gwasanaeth wedi gallu ehangu ei ddarpariaeth, gan greu mwy o incwm, ac felly gwneud y gwasanaeth yn fwy cynaliadwy.
- **Gweithio'n agosach mewn partneriaeth**, gydag awdurdodau yn deall ei gilydd yn well, a'r partneriaid yn fwy bodlon cydweithio, er bod hyn yn rhannol o ganlyniad i'r Bwrdd Rhaglen Ranbarthol, nid Buddsoddi i Arbed. Wedi dweud hynny, er bod y Bwrdd wedi rhoi llwyfan i ranbartholi, y prosiect sydd wedi bod yn feincnod ar gyfer darpariaeth rhannu gwasanaeth. Er mwyn dangos y newid hwn, ers sefydlu'r prosiect bu mwy o weithio traws-ffiniol ym maes gofal cymdeithasol yn fwy cyffredinol.
- **Gwelliannau i broses**, yn cynnwys fframwaith sicrwydd ansawdd a threfniadau trefn lywodraethol gadarn er mwyn sicrhau safon gorau posibl o weithredu ar draws y rhanbarth.

*Beth weithiodd yn dda…*

Mewn nifer o ffyrdd, yn ogystal â'r manteision sydd wedi deillio o'r prosiect, ystyriwyd bod rhanbartholi' gwasanaeth monitro galwadau wedi mynd yn dda:

- Heb ddarpariaeth yn y cyllidebau ar y pryd i ddiweddaru systemau ar gyfer y tri gwasanaeth monitro galwadau, byddai wedi bod yn anodd dadlau o blaid ariannu ar gyfer y gwasanaeth, ac ar yr un pryd bod y gwasanaethau angen buddsoddiad sylweddol. Drwy gael Buddsoddi i Arbed roedd hi'n **bosibl gwrthbwyso costau yn ymwneud â buddsoddi yn y gwasanaeth**, gan gynorthwyo i bontio'r bwlch ariannu a fyddai wedi bodoli ar gyfer blwyddyn gyntaf y gweithredu. Felly, cadwodd Buddsoddi i Arbed, y bartneriaeth gyda'i gilydd mewn ceisio dull rhanbarthol ar gyfer monitro galwadau, drwy ganiatáu i'r rhanbartholi ddigwydd yn gynharach nag y byddai wedi ei wneud fe arall. Teimlwyd bod perygl mai nid felly y byddai hi heb arian Buddsoddi i Arbed.
- Teimlwyd mai **ymrwymiad i gydweithio** gan Gynghorau Conwy ac Ynys Môn, i sicrhau eu bod yn cadw gwasanaethau mewnol er gwaethaf eu anghynaliadwyedd, oedd yr ysgogwr tu ôl i'r prosiect, tra teimlwyd mai'r **ymdrech i sicrhau arbedion effeithlonrwydd** gan Gynghorau Gwynedd a Sir y Fflint oedd yn ysgogi'r agwedd hon. Yn y pen draw, roedd ewyllys gref ar ran y partneriaid i wneud i'r prosiect weithio.

*… a beth allai fod wedi gweithio'n well*

Roedd ambell i elfen o'r prosiect a allai fod wedi mynd rhagddi'n well:

- Teimlwyd bod yr **amser rhwng derbyn yr arian a'i dalu'n ôl yn fyr** ac nad oedd hyn o gymorth. Er bod cais gwreiddiol y bartneriaeth wedi galw am gyfnod o bum mlynedd i ad-dalu, roedd yn rhaid iddi dalu arian Buddsoddi i Arbed yn ôl mewn dwy flynedd, gyda'r cyntaf o ddau randaliad yn digwydd dim ond wyth mis wedi derbyn yr arian, a dim ond dau fis wedi dechrau'r gwasanaeth. Felly, er bod Buddsoddi i Arbed wedi gwneud gwaith gweinyddu'r prosiect yn haws, ac felly'n

gynt i ddod yn weithredol ar raddfa ranbarthol, fel y nodir uchod, nid oedd mor ddefnyddiol o ran lleihau'r baich ariannol.

- **Roedd rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn ag a fyddai Sir Ddinbych yn bartner neu a fyddai'n comisiynu'r gwasanaeth**. O ganlyniad, mewn cyfarfodydd rhwng y Cynghorau cafwyd trafodaethau a oedd yn fasnachol sensitif o flaen Cyngor a fyddai yn y pen draw yn dod yn gwsmer, nid yn bartner.
- **Roedd cael cadarnhad gan Sir y Fflint ynglŷn â'r fformiwla "ailgodi tâl" , a therfynu ei wasanaeth, a'r colli swyddi a fyddai'n dilyn hynny, yn anodd**, oherwydd y sefyllfa wleidyddol anodd yr oedd hyn yn rhoi Sir y Fflint ynddi.

*Gwersi allweddol*

Mae nifer o wersi allweddol y gellir eu dysgu o'r prosiect hwn, yn arbennig, ond nid yn unig, o ran gweithio mewn partneriaeth:

- Mae'r prosiect hwn yn amlinellu pwysigrwydd, wrth weithio mewn partneriaeth, **o osod paramedrau cydweithio** clir iawn yn union ar ddechrau'r broses partneriaeth. Roedd hyn yn rhywbeth a ddigwyddodd yn yr achos hwn. Roedd dod i gytundeb ynglŷn â'r fformiwla "ailgodi tâl" yn hollbwysig er mwyn i'r trefniant partneriaeth weithio. Fodd bynnag, mae'r amser a dreuliwyd er mwyn dod i gytundeb yn amlygu'r posibilrwydd o oedi mewn sefydlu trefniadau o'r fath. O ganlyniad, mae'n hollbwysig y neilltuir digon o amser ar gyfer y trafodaethau hyn mewn unrhyw brosiect partneriaeth tebyg.
- Yn ogystal, mae nodi'n glir, yn gynnar yn y broses, **pwy fydd yn rhan yn y cytundeb partneriaeth** hefyd yn bwysig. Fel yr amlygir yn yr achos hwn achosodd ansicrwydd ynglŷn â rôl Cyngor Sir Ddinbych yn y prosiect beth dryswch yn ystod y broses datblygu, er yn y pen draw ni achosodd unrhyw broblemau i weithrediad y prosiect. Mae sefydlu'n gynnar yn y broses pwy fydd y partneriaid, a sicrhau eu hymrwymiad i'r broses, yn allweddol er mwyn galluogi partneriaeth gref, gydag ymrwymiadau clir gan bob partner.

- Mae **cwmpasu sut y gallai'r dyfodol effeithio ar y prosiect sy'n cael ei gynnal** yn bwysig hefyd. Trwy fabwysiadu'r technolegau mwyaf diweddar, a dull dwy ganolfan, un gwasanaeth, mae'r gwasanaeth hwn wedi gallu bod yn hyblyg ac addasu i ofynion a marchnadoedd newydd, gan sicrhau ei hyfywedd masnachol. Gall newid trawsnewidiol gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus i addasu nid yn unig i'r amodau y maent yn eu hwynebu heddiw, ond hefyd i baratoi ar gyfer heriau a chyfleoedd posibl y gallent eu hwynebu yn y dyfodol.

## 2 Prosiectau Dim Buddsoddi i Arbed

Mae’r adran hon yn cyflwyno crynodeb o bedwar prosiect na dderbyniodd arian Buddsoddi i Arbed a adolygwyd fel rhan o’r gwerthusiad at ddibenion cymharu.

Roedd y pedwar prosiect mewn dau grŵp:

- dau brosiect ‘aflwyddiannus’ a wnaeth gais am arian Buddsoddi i Arbed ond na dderbyniodd gefnogaeth gan y Gronfa
- dau brosiect ‘allanol’ oedd â dim ymgysylltiad â’r Gronfa ond a oedd yn ceisio cyflawni gweithgareddau tebyg a sicrhau arbedion effeithlonrwydd ariannol a gwelliannau gwasanaeth tebyg

Mae crynodeb o’r astudiaethau achos i’w gweld isod ac yn amlinellu siwrneiau’r prosiectau, o gefndir y prosiectau hyd at eu cyflawni, a’r gwersi a ddysgwyd.

**Moderneiddio Ystâd Cadwraeth Heddlu De Cymru (prosiect na chafodd ei gefnogi)**

- Ceisiodd prosiect Moderneiddio Ystâd Cadwraeth Heddlu De Cymru resymoli'r ystâd cadwraeth fesul cam, gan gyfuno nifer o'r cyfleusterau presennol mewn pedair canolfan gadwraeth wydn a phwrpasol
- Gwnaeth y prosiect gais am gymorth Buddsoddi i Arbed ond ni fu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, oherwydd ei flaenoriaeth strategol, aed ymlaen â'r prosiect, ac fe'i ariannwyd yn fewnol o gyllideb Heddlu De Cymru a ailgyfeiriwyd o raglenni blaenoriaeth eraill, gan olygu y gwnaed toriadau i wasanaethau eraill
- Oherwydd diffyg cymorth Buddsoddi i Arbed bu'n rhaid gwneud ychydig o ailstrwythuro ariannol, ond ni newidiwyd maint a chanolbwynt y prosiect yn sylweddol. Fodd bynnag, cyflawnwyd y prosiect yn hwyrach a dros amserlen hwy nag a fyddai wedi digwydd gyda chymorth Buddsoddi i Arbed.
- Mae'r prosiect wedi rhoi manteision fel y cynlluniwyd yn cynnwys lleihad mewn adnodd staff sydd ei angen i reoli cyfleusterau cadwraeth, cadwraeth gyda mwy o allu, a lleihad mewn costau rheoli cyfleusterau.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Ystâd cadwraeth aneffeithlon ac sy'n dirywio ar draws ardal yr heddlu, darparu bwriad strategol hirdymor i gyfuno'r ystâd cadwraeth<br>• Angen ysgogi arbedion effeithlonrwydd ac arbedion costau mewn rheolaeth a gweithrediad yr ystâd cadwraeth fel rhan o ymgyrch effeithlonrwydd sefydliadol ehangach | • Cyfuno'r ystâd cadwraeth gan roi arbedion effeithlonrwydd ar ffurf arbedion cost o ganlyniad i<br>➢ lai o staff<br>➢ costau cynnal a chadw is<br>➢ costau cyfleustodau is<br>• Sicrhau bod ystâd cadwraeth yr heddlu yn Ne Cymru yn cydymffurfio â safonau a gofynion perthnasol | • Cyflwynwyd cais i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn ariannu'r prosiect, ond nid oedd yn llwyddiannus<br>• Datblygwyd y prosiect yn ôl y cynllun gan gyfuno'r canolfannau presennol mewn pedwar cyfleuster cadwraeth pwrpasol<br>• Cyflenwir ac arweinir y prosiect gan Heddlu De Cymru yn unig<br>• Rheolir y prosiect gan fframwaith rheoli perfformiad a ysgogir gan Ddangosyddion Perfformiad Allweddol | • Angen llai o staff i reoli cyfleusterau cadwraeth<br>• Cadwraeth capasiti uwch ar gyfer yr heddlu<br>• Lleihad yng nghostau rheoli cyfleusterau<br>• Mae gwaredu hen gyfleusterau cadwraeth wedi datgloi asedau tir ar gyfer prosiectau adfywio cymdogaeth yn y dyfodol ar draws yr ardal ac wedi agor cyfleoedd ar gyfer refeniw newydd<br>• Cael ei gydnabod fel arfer gorau ar gyfer ateb cadwraeth | • Effeithlonrwydd mewn darpariaeth sector cyhoeddus, lleihau cost gwasanaethau cadwraeth a phrif ffrwd<br>• Gwell gallu gwasanaeth o gofio'r cyfleusterau gwell ac estynedig |

*Cefndir y prosiect*

Bwriad prosiect 'Moderneiddio Ystâd Cadwraeth Heddlu De Cymru' (y prosiect moderneiddio) oedd rhesymoli ystâd cadwraeth Heddlu De Cymru raddol fesul, gan gyfuno'r nifer mawr o gyfleusterau cadwraeth presennol mewn pedair canolfan gadwraeth wydn a phwrpasol a fyddai'n cael eu galw'n Bridewells.

O dan arweiniad Heddlu De Cymru - hynny yw, nid oedd yr un sefydliad partner arall yn rhan yn natblygiad y prosiect - cafwyd y syniad gwreiddiol ar gyfer y cynllun oherwydd agenda hirsefydledig ar gyfer y llu, yn seiliedig ar ddau ysgogwr craidd ailatgyfnerthol:

- yn gyntaf, **ystâd cadwraeth a oedd yn dadfeilio ac yn aneffeithlon** ar draws ardal Heddlu De Cymru, gyda'r angen i gyfuno a gwella gwasanaethau er mwyn galluogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol
- yn ail ac yn gysylltiedig â'r ysgogwr cyntaf, yr angen i **ysgogi arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cost** o ran rheolaeth a gweithrediad yr ystâd gadwraeth fel rhan o ymgyrch effeithlonrwydd sefydliadol ehangach.

Amcan y prosiect oedd ysgogi arbedion effeithlonrwydd drwy leihau staffio, lleihau costau cynnal a chadw, a lleihau costau cyfleustodau yn y canolfannau a gyfunwyd.

Roedd hi'n fwriad gan y prosiect moderneiddio hefyd i sicrhau bod ystâd cadwraeth yr heddlu yn Ne Cymru yn cydymffurfio â'r safonau a'r gofynion perthnasol, gwella hygyrchedd i gelloedd carchar drwy eu lleoli'n strategol ledled ardal yr heddlu, a sicrhau bod y prosesau cadwraeth yn fwy effeithlon ac effeithiol yn eu gweithrediad.

Gwnaeth Heddlu De Cymru gais am gymorth tuag at gostau cyfalaf y prosiect moderneiddio, gyda chais am £13 miliwn i'r adnodd Buddsoddi i Arbed ar gyfer cefnogaeth i adeiladu cyfleusterau newydd.

*Gweithrediad y prosiect*

Fel y nodwyd uchod, ni fu'r prosiect yn llwyddiannus yn ei gais i sicrhau

buddsoddiad gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed. Dywedodd arweinydd y prosiect yn Heddlu De Cymru wrth y tîm gwerthuso mai eu dealltwriaeth hwy oedd mai polisi Llywodraeth Cymru oedd peidio â darparu arian cyfalaf ar gyfer y prosiect gan ei fod yn fater ar gyfer y Swyddfa Gartref.

Er gwaethaf diffyg cymeradwyaeth y cais Buddsoddi i Arbed, parhaodd y prosiect yn flaenoriaeth ar gyfer Heddlu De Cymru, a pharhaodd y sail resymegol ar gyfer yr ymyrraeth o gofio'r ystâd oedd yn dirywio a'r angen i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Felly ailgyfeiriodd Heddlu De Cymru adnoddau o raglenni blaenoriaeth eraill o fewn y sefydliad fel bod y prosiect moderneiddio yn gallu cael ei gyflawni.

O ganlyniad, ariannwyd y prosiect yn fewnol heb arian Buddsoddi i Arbed. Ail-strwythurwyd ychydig ar y costau er mwyn lleihau costau'r ymyrraeth arfaethedig, megis symleiddio manyleb y cyfleuster a defnyddio system gaffael cyn-gymhwyso (Escape Procure). Fodd bynnag, aeth y prosiect yn ei flaen yn bennaf fel y cynlluniwyd yn y cais ac achos busnes Buddsoddi i Arbed gwreiddiol, gan arwain at gyfuno cyfleusterau cadwraeth ar draws De Cymru mewn adeiladau a godwyd o'r newydd, er yn ddiweddarach o gofio'r amser a dreuliwyd i ddatblygu'r cais Buddsoddi i Arbed a gan ddefnyddio adnoddau mewnol yn unig.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Dywedodd arweinydd y prosiect bod ystod o fanteision wedi eu cyflawni gan y prosiect moderneiddio, fel y bwriadwyd ar y dechrau ac yn natblygiad gwreiddiol y prosiect, ac roeddent yn cynnwys:

- lleihad yn yr adnoddau staff oedd eu hangen i reoli cyfleusterau cadwraeth
- cadwraeth capasiti uwch
- costau rheoli cyfleusterau is.

Mae'r manteision ychwanegol a adroddwyd yn cynnwys dadflocio asedau tir ar gyfer prosiectau yn y gymdogaeth yn y dyfodol, o ganlyniad i waredu'r hen gyfleusterau, gan roi'r potensial ar gyfer gweithgaredd codi refeniw.

Adroddodd arweinydd y prosiect hefyd fod y prosiect wedi cael ei gydnabod yn eang fel ateb “arloesol” ac “arfer gorau” ym maes cadwraeth ar gyfer heddluoedd y DU, ar sail agweddau arloesol yr adeiladau, a’r defnydd o asiantau dan gontract yn yr ateb gwasanaeth a ddatblygwyd.

Fodd bynnag, cymerodd y prosiect yn hwy nag a disgwylid pe bai arian Buddsoddi i Arbed wedi bod ar gael. Hefyd, arweiniodd yr angen i ddatblygu’r prosiect mewn rhyw ffurf at leihad mewn gwariant ar wasanaethau eraill a wnaed gan y sefydliad cyflenwi, ac ystyriwyd hyn yn anfantais - er nad oedd hi’n bosibl rhoi manylion penodol o ba wasanaethau yr effeithiwyd arnynt.

*Safbwyntiau ar y broses*

Ni dderbyniodd prosiect Moderneiddio Ystâd Cadwraeth Heddlu De Cymru gymorth Buddsoddi i Arbed, fodd bynnag mae nifer o negeseuon a gwersi yn deillio o’r prosiect sy’n berthnasol ac o ddiddordeb i gynllun ehangach a gwerthusiad y Gronfa:

- roedd y prosiect yn un oedd â blaenoriaeth uchel i’r sefydliad, ac ni wnaeth methu â sicrhau buddsoddiad Cronfa Buddsoddi i Arbed atal yr angen i barhau â’r prosiect ar ryw ffurf, sy’n awgrymu bod y sail resymegol ar gyfer ymyrraeth yn gadarn ac wedi ei seilio ar heriau a materion oedd wedi eu nodi a’u hegluro’n dda
- o gofio’i bwysigrwydd strategol, roedd y rhaid i’r sefydliad cyflenwi ail-ddyrannu adnoddau o weithgareddau eraill unwaith yr oedd Buddsoddi i Arbed ddim ar gael ac ystyriwyd hyn o bosibl yn anfantais i weithgarwch cyflenwi gwasanaeth ehangach
- rheolwyd y prosiect gan Ddangosydd Perfformiad Allweddol a ysgogwyd gan fframwaith rheoli perfformiad. Galluogodd hyn i fanteision y gweithgarwch dros y tymor canolig a’r tymor hwy, gan gynnwys arbedion a manteision ehangach, gael eu cofnodi.

**Gwella Ansawdd ac Effeithlonrwydd mewn Iechyd Plant Cymunedol a Mamolaeth (prosiect heb ei gefnogi)**

- Roedd y prosiect yn ceisio darparu buddsoddiad yn y gallu clinigol a rheoli perfformiad sydd ei angen i leihau atgyfeiriadau pediatrig dewisol arferol gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gyfer gwasanaethau pediatrig y tu allan i Bowys (yn cynnwys y rheiny yn Lloegr).
- Yn ymarferol, bwriad y prosiect oedd sefydlu tîm penodedig i gefnogi meddygon teulu ym Mhowys i gynorthwyo i gyfeirio cleifion at gyfleusterau'r Bwrdd Iechyd; a rhaglen adeiladu gallu uwchsain sy'n ceisio lleihau llif cleifion tu allan i'r ardal a gwella ansawdd gofal.
- Roedd cais Buddsoddi i Arbed yn aflwyddiannus. Arweiniodd y methiant i sicrhau cymorth gan y Gronfa at ychydig o leihad yn niffiniad, ffocws a chwmpas y prosiect. Er bod y dyhead datganedig yn parhau'n ddilys, unwyd gweithgarwch arwyddbostio meddygon teulu gyda gweithgarwch prif ffrwd ar raddfa lai, a chafodd y rhaglen adeiladu gallu uwchsain ei hoedi am gyfnod amhenodol.
- Roedd y prosiect yn flaenoriaeth uchel ar gyfer Gwasanaethau Menywod a Phlant ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys. Ni wnaeth methiant i sicrhau buddsoddiad y Gronfa Buddsoddi i Arbed ddileu'r angen i ddatblygu'r prosiect mewn rhyw ffurf, er y gwnaeth y prosiect ail-ganolbwyntio i flaenoriaethu enillion ansawdd gofal dros arbedion ariannol.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Arweiniodd diffyg capasiti at gyfradd uchel o atgyfeiriadau o Bowys i wasanaethau tu allan i'r bwrdd iechyd, gan arwain at gostau uchel ar gyfer triniaethau sy'n daladwy gan y bwrdd iechyd<br>• Prosiect wedi ei danategu gan ffocws strategol sefydliadol hirdymor ar sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn darpariaeth gwasanaeth | • Lleihau cost darpariaeth gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau pediatrig, drwy wneud y defnydd gorau o gyfleusterau iechyd a danddefnyddir ym Mhowys a dychwelyd gwasanaethau o fewn sir Powys<br>• Lleihau llif trawsffiniol cleifion o Bowys i leoliadau eraill, gwella ansawdd gofal ar gyfer trigolion Powys | • Cyflwynwyd cais i Gronfa Buddsoddi i Arbed, ond nid oedd yn llwyddiannus<br>• Dwy elfen i'r prosiect<br>➢ sefydlu tîm i gefnogi meddygon teulu i gyfeirio cleifion at gyfleusterau'r bwrdd iechyd - heb Buddsoddi i Arbed cwblhawyd gweithgarwch ar raddfa lai<br>➢ rhaglen adeiladu gallu uwchsain, gan geisio lleihau llif cleifion allan o'r ardal a gwella ansawdd gofal - heb ei chyflwyno oni bai am Buddsoddi i Arbed | • Bwriad i gyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy arbedion cost<br>• Er gwaethaf diffyg arian Buddsoddi i Arbed amcangyfrifir y gall dychwelyd gwasanaethau o fewn sir Powys arwain at arbedion gwerth £230 mil<br>• Bwriad i ddarparu gwell ansawdd gofal i drigolion Powys | • Potensial ar gyfer gwell canlyniadau gofal iechyd ar gyfer cleifion drwy ddychweliad<br>• Potensial ar gyfer gwell effeithlonrwydd gwasanaeth y GIG ar draws Cymru |

*Cefndir y prosiect*

Ceisiodd prosiect Gwella Ansawdd ac Effeithlonrwydd mewn Iechyd Plant Cymunedol a Mamolaeth (y prosiect) ysgogi'r gallu clinigol a rheoli perfformiad oedd ei angen i ailgynllunio gwasanaeth systemig a llwybr clinigol ym maes iechyd plant a mamolaeth, gan gyflawni arbedion a gwelliannau gwasanaeth ym Mhowys.

Wedi ei arwain gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, nod y prosiect, yn ymarferol, oedd lleihau nifer yr atgyfeiriadau pediatrig dewisol gan feddygon teulu'r Bwrdd Iechyd i wasanaethau allanol - mewn rhannau eraill o Gymru ac ar draws y ffin i asiantaethau iechyd yn Lloegr.

Roedd y prosiect yn ymateb i gynllun strategol y Bwrdd Iechyd ar gyfer effeithlonrwydd - uchelgais pedair i bum mlynedd a oedd yn dyddio'n ôl i gyfnod cyn cyfle Buddsoddi i Arbed, ochr yn ochr â'r angen am welliannau i wasanaethau a gwell canlyniadau gofal iechyd, a gwneud y defnydd gorau posibl o'r gallu a'r cyfleusterau yn ardal Powys, er budd cleifion a sefydliadau.

*Gweithrediad y prosiect*

Ceisiwyd cymorth gan Gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn cefnogi dwy elfen benodol, ond atgyfnerthol, o'r prosiect a ddatblygwyd gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, y ddwy'n canolbwyntio ar leihau atgyfeiriadau tu allan i'r ardal:

- yn gyntaf, sefydlu tîm penodedig i gefnogi meddygon teulu ym Mhowys i gyfeirio cleifion at gyfleusterau'r bwrdd iechyd - her allweddol a nodwyd fel un a wynebwyd gan y prosiect oedd 'llesgedd diwylliannol' a adroddwyd mewn ymddygiad atgyfeirio meddygon teulu, gan bwysleisio'r angen ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu ac adeiladu gallu cydunol fel y rhagwelwyd yn y cais Buddsoddi i Arbed
- yn ail, datblygu rhaglen adeiladu gallu uwchsain, sy'n ceisio lleihau'r llif cleifion allan o'r ardal a gwella ansawdd gofal.

Y buddsoddiad a geisiwyd gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed oedd tua £430,000, er mwyn sicrhau lleihad cynlluniedig o 35% mewn atgyfeiriadau

pediatrig dewisol arferol o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys i wasanaethau pediatrig tu allan i Bowys, gan gynnwys y rheiny yn Lloegr.

Fel y nodwyd uchod, nid oedd y prosiect yn llwyddiannus yn ei gais i sicrhau cyllid gan Gronfa Buddsoddi i Arbed. Dywedodd y sefydliad cyflenwi y gwrthodwyd y cais Buddsoddi i Arbed oherwydd pryderon ynglŷn â'r effaith y byddai'r prosiect yn ei gael ar refeniw byrddau iechyd eraill, a phryderon ynglŷn â sut y byddai'r arbedion yn cael eu cyflawni ochr yn ochr â gwella a/neu gynnal ansawdd gwasanaeth.

Oherwydd diffyg cymorth Buddsoddi i Arbed cafodd y prosiect cynlluniedig ei ailstrwythuro'n sylweddol gan y sefydliad arweiniol.  Gan ystyried yn eu tro'r ddwy elfen o'r prosiect a nodir uchod:

- **sefydlu tîm penodedig i gefnogi meddygon teulu ym Mhowys i gynorthwyo i gyfeirio cleifion at gyfleusterau'r bwrdd iechyd** - nid oedd hi'n bosibl i ffurfio tîm penodedig ar gyfer yr elfen gwasanaethau pediatrig heb adnodd Buddsoddi i Arbed. Fodd bynnag, mae'r elfen hon wedi ei datblygu ar raddfa lai ac wedi ei hariannu drwy gyllidebau mewnol a oedd eisoes yn bodoli o fewn y sefydliad, a'r gweithgaredd arwyddbostio ar y cyfan yn cael ei 'brif ffrydio' o fewn gwaith ehangach presennol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

- **datblygiad rhaglen adeiladu gallu uwchsain** - ni chyflawnwyd yr elfen hon o'r prosiect a gynlluniwyd, er ei bod wedi ei hamserlennu ar gyfer ei gweithredu dros y tymor hwy, os a phan y bydd amser ac adnoddau yn caniatáu hynny.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Oherwydd diffyg maint y buddsoddiad gellid bod wedi ei wneud gyda'r prosiect Buddsoddi i Arbed ac, o ganlyniad, cwmpas llai i'r prosiect, mae'r manteision a gynlluniwyd ar gyfer y prosiect wedi eu lleihau'n sylweddol, ac maent wedi cymryd mwy o amser i gael eu gwireddu nag y byddent o dan y cynllun gwreiddiol. Nododd arweinydd y prosiect y byddai cymorth Buddsoddi i Arbed wedi chwyddo elfen gwasanaethau pediatrig y prosiect yn sylweddol gan roi hwb dechreuol a chanlyniadau mwy, cyflymach, a rhyddhau adnoddau

ar gyfer rhaglen strategol ehangach h.y. yr elfen uwchsain.

Wedi dweud hynny, adroddodd partneriaid y prosiect bod manteision wedi eu creu gan y prosiect llai, gyda'r prosiect yn cael ei redeg yn effeithlon ac effeithiol er mwyn sicrhau'r enillion gorau posibl ar y buddsoddiad. Er bod y prosiect wedi colli rhywfaint o'i siâp, gyda'r model cyflawni wedi ei erydu a'i uno gyda gweithgarwch prif ffrwd yn hytrach nag fel casgliad o weithgareddau ar wahân gyda ffocws iddynt, mae partneriaid y prosiect yn amcangyfrif, drwy leihau atgyfeiriadau pediatrig allanol, bod arbedion wedi eu creu ac y gall y Bwrdd Iechyd greu arbedion gwerth oddeutu £230 mil dros y tymor hwy.

*Safbwyntiau ar y broses*

Ni dderbyniodd prosiect Gwella Ansawdd ac Effeithlonrwydd mewn Iechyd Plant Cymunedol a Mamolaeth **gymorth gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed**. Fodd bynnag, mae nifer o negeseuon a gwersi yn ymddangos drwy'r prosiect moderneiddio sy'n berthnasol ac o ddiddordeb i'r cynllun ehangach ac i werthusiad y Gronfa:

- yn gyntaf, heb gymorth Buddsoddi i Arbed, canolbwyntiodd y prosiect yn fwy ar ansawdd gofal nac arbedion ariannol - er, yn wir, na wnaeth y cais ei hun ymrwymiad amlwg i gyflawni arbedion, gan bwysleisio yn hytrach welliannau ansawdd gofal; mae'r ffaith bod canolbwynt y gwaith a aeth rhagddo yn blaenoriaethu gwella ansawdd yn hytrach nag arbedion yn awgrymu bod y sail resymegol ar gyfer y prosiect yn gadarn o safbwynt gwella gwasanaeth, er efallai y byddai angen datblygu'r cyfiawnhad o ran arbedion effeithlonrwydd ymhellach er mwyn cyfiawnhau defnydd adnodd Buddsoddi i Arbed
- yn ail, mynegwyd rhai mân bryderon gan feddygon teulu ynglŷn â bod hyn yn ymyrryd ar eu hannibyniaeth. Fodd bynnag, cymerwyd gofal i flaenoriaethu enillion ansawdd gofal o flaen arbedion ariannol gan gynorthwyo i sicrhau cefnogaeth gan y meddygon teulu. Er bod hwn yn fater penodol ar gyfer y prosiect hwn, mae'n awgrymu gwers bwysig ar gyfer prosiectau ehangach - boed y rheiny'n cael eu hariannu gan Gronfa Buddsoddi i Arbed neu drwy ryw ffrwd ariannu arall - ynglŷn â

gwerth a phwysigrwydd cael ymgysylltiad grŵp rhanddeiliaid allweddol drwy negeseuon a chyfathrebu priodol

- yn drydydd, fel prosiect blaenoriaeth uchel ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, roedd angen i'r prosiect ddatblygu ar ryw ffurf, hyd yn oed heb gymorth Buddsoddi i Arbed - fodd bynnag, oherwydd diffyg arian Buddsoddi i Arbed gwelwyd lleihad yn effaith posibl y prosiect, drwy leihau'n sylweddol gyflymder a maint gweithgarwch
- yn bedwerydd, codwyd materion cymhwyster fel mater gan y sefydliad arweiniol, gan awgrymu o safbwynt proses, yr angen am eglurder o'r dechrau ynglŷn â beth sydd a beth sydd ddim yn gymwys i gael ei gefnogi gan Gronfa Buddsoddi i Arbed; Yn arbennig, golygodd isafswm cais o £250 mil y byddai prosiectau o Bowys yn cael eu huno; ac felly byddent yn llai tebygol o gael cymorth nag y byddai ceisiadau gan sefydliadau GIG mawr sy'n darparu gwasanaethau ysbyty aciwt.

## Adolygiad Asedau Sir Gâr (prosiect allanol)

- Cynhaliwyd prosiect Adolygiad Asedau Sir Gâr er mwyn cydgasglu a choladu gwybodaeth gynhwysfawr am asedau'r Cyngor Sir a phartneriaid sector cyhoeddus lleol eraill er mwyn gwneud gwell defnydd o'r sail asedau lleol. Ymatebodd y prosiect i ysgogwyr ar lefel genedlaethol a lleol a oedd yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd asedau cyhoeddus.
- Ariannwyd y prosiect gan ddefnyddio adnoddau mewnol Cyngor Sir Gâr; ni chysylltwyd â Chronfa Buddsoddi i Arbed o ystyried y camau ac amseru'r prosiect a ddatblygwyd cyn y potensial ar gyfer sicrhau arian Buddsoddi i Arbed.
- Yn dilyn cam ymchwil a oedd yn cynnwys mapio asedau, gweithdai gyda phartneriaid, ac adolygiad o'r opsiynau ar gyfer yr asedau, roedd manteision y prosiect yn cynnwys derbynebau cyfalaf gwerth £2 miliwn yn y flwyddyn gyntaf, gyda mwy i'w disgwyl yn y dyfodol, ac ystod o fanteision partneriaeth a strategol, yn cynnwys trosglwyddo asedau wedi'u cwblhau a gwell gweithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau lleol.
- Roedd gwersi allweddol y prosiect yn cynnwys pwysigrwydd adnoddau pwrpasol, ffocws ar reoli eiddo ac asedau fel elfen graidd o ddarpariaeth gwasanaeth ehangach, ymgysylltu eang â phartneriaid lleol, a sefydlu llinell amser glir, gan gynorthwyo i 'ganolbwyntio'r meddwl' a rhoi eglurder pwrpas yn ei gyflawniad.

*Model rhesymeg prosiect cryno*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Ymateb lleol i agenda Cymru gyfan i wella defnydd asedau sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus, yn dilyn adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru<br>• Angen sicrhau arbedion effeithlonrwydd cost mewn defnyddio a rheoli asedau cyhoeddus<br>• Angen annog asiantaethau cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth<br>• Mynd i'r afael â methiannau mewn gwybodaeth, gyda dim dealltwriaeth gynhwysfawr o raddfa, ystod na photensial asedau cyhoeddus ar draws yr ardal leol | • Diben cyffredinol i wneud gwell defnydd o'r sail asedau lleol<br>• Nodau penodol y cynnwys<br>➢ Nodi cyfleoedd posibl i rannu llety<br>➢ Nodi asedau dros ben "ar unwaith" a "phosibl" ar gyfer eu gwaredu<br>➢ Cyfle i drosglwyddo asedau<br>➢ Darparu gwell dealltwriaeth strategol o'r sail asedau | • Sefydlu Tîm Adolygu Asedau<br>• Cam ymchwil yn cynnwys mapio trylwyr o asedau lleol sy'n eiddo i'r Cyngor ac asiantaethau eraill, gweithdai gyda phartneriaid lleol<br>• Cam adrodd yn cynnwys nodi safleoedd ar gyfer eu gwaredu/newid eu defnydd<br>• Cyfanswm cost a amcangyfrifir – tua £150 mil | • Derbyniadau o waredu - arweiniodd yr adolygiad asedau at dderbyniadau gwerth £2 miliwn hyd yma a disgwylir rhagor<br>• Lleihad mewn costau refeniw drwy rannu llety<br>• Gwelliant mewn cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng timau eiddo mewn cyrff cyhoeddus<br>• Gwell ymgysylltu rhwng gwasanaethau cyhoeddus lleol<br>• Trosglwyddo asedau i sefydliadau cymunedol lleol | • Arbedion effeithlonrwydd drwy dderbyniadau cyfalaf a lleihad mewn costau yn creu costau refeniw is<br>• Gwell darpariaeth gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid a phobl leol, yn cynnwys clystyru gwasanaethau cyhoeddus mewn adeiladau<br>• Gwell ymgysylltiad cyfalaf cymdeithasol a chymunedol, yn cynnwys trosglwyddo asedau i sectorau gwirfoddol cymunedol |

*Cefndir y prosiect*

Roedd prosiect Adolygiad Asedau Sir Gâr, a arweiniwyd gan Gyngor Sir Gâr, yn ymwneud ag adolygu asedau adeiledig, ar draws dosbarthiadau ddefnydd (hynny yw cwmpasu defnydd swyddfeydd, darpariaeth gwasanaeth a defnyddiau eraill), ym mherchnogaeth Cyngor Sir Gâr ac asiantaethau cyhoeddus eraill ar draws ardal yr Awdurdod Lleol, er mwyn llywio gweithgareddau cynllunio strategol a defnydd adnoddau yn fwy eang ac i'r graddau mwyaf.

Roedd y prosiect Adolygiad Asedau yn ymateb lleol i agenda Cymru gyfan i wella defnydd asedau sydd mewn perchnogaeth leol, a sbardunwyd yn bennaf gan adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Reolaeth Adeiladau ledled Cymru.

Roedd y prosiect Adolygiad Asedau yn Sir Gâr hefyd yn ymateb i nifer o ysgogwyr lleol, yn cynnwys:

- yr angen i sicrhau **arbedion effeithlonrwydd cost** mewn defnydd a rheolaeth asedau cyhoeddus, yn cynnwys y rheiny sydd ym mherchnogaeth y Cyngor a'r sector cyhoeddus yn ehangach
- yr angen i **annog asiantaethau cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth** drwy well defnydd (yn cynnwys y potensial ar gyfer rhannu) asedau adeiledig, gan gynorthwyo i fynd i'r afael â materion cydgysylltu safonol rhwng asiantaethau lleol
- yr angen i fynd i'r afael â rhai **diffygion gwybodaeth o fewn y Cyngor**, gyda diffyg dealltwriaeth gynhwysfawr ynglŷn â maint, ystod a photensial asedau cyhoeddus ar draws yr ardal leol cyn yr adolygiad asedau.

O fewn y cyd-destun hwn, diben penodol yr Adolygiad Asedau oedd i gydgasglu a choladu gwybodaeth gynhwysfawr am asedau'r Cyngor a phartneriaid sector cyhoeddus lleol eraill er mwyn gwneud gwell defnydd o'r sail asedau lleol, yn cynnwys drwy:

- ganfod cyfleoedd posibl ar gyfer rhannu llety

- nodi asedau sydd dros ben “ar unwaith” y gellir eu datblygu’n hawdd a’u gwerthu ac felly creu arbedion drwy waredu ac arbedion refeniw parhaus
- amlygu asedau dros ben “posibl” a fyddai angen gwaith paratoadol ar wahanol raddau o gymhlethdod er mwyn galluogi iddynt gael eu gwaredu
- rhoi’r cyfle i drosglwyddo asedau i Gynghorau Tref, Cymuned a’r trydydd sector
- cefnogi gwell gwasanaeth yn ymwneud â materion eiddo gyda gwell dealltwriaeth strategol o’r sail asedau ar draws yr ardal leol a’i sector cyhoeddus.

*Gweithrediad y prosiect*

Datblygwyd y prosiect cyn i’r cyfle i gyrchu adnodd Buddsoddi i Arbed ddod i’r amlwg. Felly cafodd y prosiect ei ariannu’n llawn gan ddefnyddio adnoddau mewnol y Cyngor gan nad ystyriwyd bod unrhyw ariannu arall yn ymarferol nac ar gael ar y pryd. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm cost y prosiect i’r Cyngor oedd £150 mil.

Sefydlwyd tîm penodedig (yn cyfateb i 3 gweithiwr llawn amser) i gynnal yr adolygiad asedau, dan oruchwyliaeth Pennaeth Eiddo Corfforaethol Cyngor Sir Gâr, gyda chyfeiriad strategol cyffredinol a goruchwyliaeth ar y drefn lywodraethol yn cael eu darparu gan Fwrdd Gwasanaeth Lleol Sir Gâr.

Yn ymarferol roedd y gwaith, wedi ei gyflawni o fis Ebrill 2010 hyd fis Mawrth 2011, yn cynnwys cam ymchwil cychwynnol o gydgrynhoi gwybodaeth ynglŷn ag asedau’r cyngor, ac asedau sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Cynhaliwyd y gwaith mewn trefn ddilyniannol ar draws chwe ardal y Sir.

Yn dilyn yr asesiad desg cychwynnol hwn, cynhaliwyd cyfres o weithdai ar draws yr ardal i sicrhau cefnogaeth ac ymgysylltiad i’r broses ac i nodi cyfleoedd ar gyfer yr asedau a nodwyd gan y broses mapio.

Ar sail y dystiolaeth a’r adborth o’r gweithdai, profwyd yr asedau yn erbyn cyfleoedd er mwyn gweld sut i wneud y defnydd gorau ohonynt, yn cynnwys:

gwaredu, trosglwyddo i grŵp cymunedol, pennu ail-ddiben (yn cynnwys rhannu defnydd), a chadw.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Arweiniodd yr adolygiad asedau yn uniongyrchol at waredu asedau gan roi derbyniadau cyfalaf gwerth £2 miliwn yn y flwyddyn gyntaf a’r ail flwyddyn, gyda gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni derbyniadau cyfalaf pellach - hyd at 2020 nodwyd cyfanswm gwerth £50 miliwn o dderbyniadau cyfalaf yn y cynllun rheoli asedau, gyda chynllun treigl pum mlynedd manwl ar gyfer gwaredu erbyn hyn ar waith yn dilyn yr adolygiad asedau.

Hefyd llwyddwyd i leihau costau refeniw - er enghraifft drwy gostau is mewn trethi, costau ynni a rheolaeth asedau ehangach - er, ar adeg ymchwil yr astudiaeth achos nid oedd y rhain wedi eu meintioli’n ffurfiol, ac efallai y bydd yn anodd eu holrhain/priodoli yn uniongyrchol i’r prosiect.

Yn ogystal llywiodd yr adolygiad asedau ddatblygiad llety swyddfa a strategaeth ystadau ehangach ar gyfer y Cyngor. Mae manteision ansoddol eraill y prosiect yn cynnwys:

- adrodd ar welliant mewn cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng timau eiddo mewn cyrff cyhoeddus, ac yn fwy eang ymgysylltiad gwell rhwng gwasanaethau cyhoeddus lleol, yn cynnwys sefydlu adolygiadau asedau/cyfarfodydd ar y cyd traws sector cyhoeddus rheolaidd a pharhaus
- trosglwyddiad asedau yn llwyddiannus i sefydliadau cymunedol lleol, yn cynnwys parciau, meysydd chwarae, canolfannau dydd a chyfleusterau cyhoeddus, gan roi perchnogaeth leol i asedau, ac yn fwy eang ddatblygu gallu a gwybodaeth mewn sut i drosglwyddo asedau er mwyn llywio gweithgareddau yn y dyfodol
- nodi tir nas hawlir ar hyn o bryd gan unrhyw sefydliad, i’w ddefnyddio o bosibl ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, neu ei drosglwyddo i berchnogaeth gymunedol.

Adroddodd partneriaid lleol wrth y gwerthuswyr bod y prosiect wedi dod i gael ei ystyried fel ‘arfer da’ mewn rheoli asedau, gyda’r tîm prosiect yn Sir Gâr yna’n gwneud gwaith cynghori ar gyfer nifer o asiantaethau lleol eraill ledled Cymru.

*Gwersi*

Ni wnaeth Adolygiad Asedau Sir Gâr geisio (nac wedyn derbyn) buddsoddiad gan Gronfa Buddsoddi i Arbed. Felly, mae’r gwersi sy’n ymddangos o’r ymchwil astudiaeth achos yn canolbwyntio ar y negeseuon y gall y Gronfa, a rheolwyr prosiect, eu dysgu gan y prosiect ar gyfer ymyriadau tebyg yn y dyfodol. Mae tair neges allweddol yn dod i’r amlwg:

- roedd adnodd penodol i gyflawni’r cam ymchwil yn hollbwysig i lwyddiant yr ymyrraeth, gan sicrhau mai’r prosiect oedd canolbwynt craidd y rheiny oedd yn arwain ei weithrediad, yn hytrach nag elfen o ymdrechion corfforaethol ehangach
- nodwyd ystod o ffactorau llwyddiant at gyfer y prosiect, yn cynnwys
    - ffocws clir ar reoli eiddo ac asedau fel elfen graidd darpariaeth gwasanaeth ehangach yn hytrach na diben ynddo’i hun
    - ymgysylltiad eang gyda grwpiau a sefydliadau lleol (yn cynnwys drwy weithdai)
    - sefydlu llinell amser glir ar gyfer cyflawni’r gwaith, gan gynorthwyo i ‘ganolbwyntio’r meddwl’ a rhoi eglurder diben
    - sicrhau cefnogaeth aelodaeth etholedig lleol.
- mae’r prosiect wedi ei ‘brif ffrydio’ gyda’r canfyddiadau yn llywio cynlluniau rheoli asedau parhaus, gan sicrhau bod gan y prosiect etifeddiaeth a gwerth dros y tymor hwy; roedd y broses ymchwil eang, a oedd yn creu hygrededd ar ddechrau’r broses ac yn ei chanfyddiadau, yn ffactor bwysig yn hyn.

**Teleofal a Thai Gofal Ychwanegol Consortiwm Gwella De Ddwyrain Cymru (prosiect allanol)**

- Roedd prosiect Teleofal a Thai Gofal Ychwanegol (yn ddiweddarach Llety â Gofal), a arweinir gan Gonsortiwm Gwella De Ddwyrain Cymru (sewic) sefydledig yn ymwneud ag ymchwil a chymorth adeiladu gallu er mwyn gwella cydweithio rhanbarthol ym maes teleofal a llety â gwasanaethau gofal.
- Roedd y prosiect yn ymateb i reidrwydd strategol sefydledig ar gyfer mwy o gydweithio rhanbarthol mewn darpariaeth gofal cymdeithasol, er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth ac o bosibl ysgogi arbedion effeithlonrwydd drwy gydweithio, caffael a chomisiynu.
- Wedi ei ariannu gan grant y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd, roedd y manteision allweddol yn cynnwys gwell partneriaeth, rhannu arfer da, a datblygu proses gydnabyddedig ar gyfer mynd i'r afael â materion a heriau cyflenwi gwasanaeth.  Mae potensial ar gyfer manteision sy'n rhyddhau arian a/neu nad sy'n rhyddhau arian dros y tymor hwy, er nad yw'r rhain wedi eu cyflawni hyd yma.
- Roedd gwersi allweddol y prosiect yn cynnwys yr angen i fod yn realistig ac ymarferol mewn gosod amcanion ar ddechrau prosiectau, cydnabod y gall fod yn anodd newid systemau sefydledig mewn darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus, pwysigrwydd datblygu partneriaeth a chefnogaeth o fewn yn ogystal ac ar draws sefydliadau, a gallu ac adnodd penodedig os yw ymgysylltiad cynaliadwy a gwirioneddol i'w greu.

*Model rhesymeg cryno y prosiect*

| Sail resymegol | Amcanion | Mewnbynnau a gweithgareddau | Allbynnau a deilliannau | Effeithiau |
|---|---|---|---|---|
| • Gofyniad strategol ar gyfer mwy o gydweithio rhanbarthol mewn darpariaeth gofal cymdeithasol ar draws De Ddwyrain Cymru<br>• Angen hyrwyddo arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cost mewn darpariaeth gwasanaeth o gofio'r cyd-destunau cyllidebol anodd<br>• Angen mynd i'r afael â methiannau cydgysylltu mewn darpariaeth gwasanaeth ar draws y rhanbarth yn y meysydd gwasanaeth teleofal a llety ychwanegol | • Gwell cysondeb yn y meysydd gwasanaeth (i) teleofal a (ii) llety ychwanegol a gynigir ar draws rhanbarth sewic<br>• Cyflawni arbedion effeithlonrwydd mewn darpariaeth gwasanaeth, yn cynnwys drwy gostau is ac effeithlonrwydd maint drwy gaffael a chomisiynu ar y cyd<br>• Gwneud y defnydd gorau posibl o botensial technoleg newydd a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg er mwyn cyflawni canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth | • Arian grant ESF ar gyfer gweithgareddau (i) teleofal a (ii) llety ychwanegol yn eu tro, ac wedyn eu cysylltu<br>• Teleofal<br>➢ Ymchwil i'r achos busnes ar gyfer cyfuno gwasanaeth<br>➢ Cefnogaeth hwyluso a datblygu gallu ar gyfer gweithio rhanbarthol<br>• Llety ychwanegol<br>➢ Cefnogaeth hwyluso a datblygu gallu ar gyfer gweithio rhanbarthol | • Arbedion effeithlonrwydd cynlluniedig drwy gyfuno gwasanaeth a/neu arbedion maint drwy gaffael a chomisiynu ar y cyd - yn debygol o fod yn dymor hwy os cânt eu creu<br>• Ystod o allbynnau yn cynnwys astudiaethau achos, pecynnau cymorth ac allbynnau ymchwil i lywio darpariaeth mewn teleofal a llety ychwanegol<br>• Canlyniadau partneriaeth strategol, a throsglwyddiad gwybodaeth ac arfer da | • Gwell gallu ar draws asiantaeth darparu gwasanaeth o ran gweithio ar y cyd a chydweithredu, gyda'r potensial i greu gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth dros y tymor hwy<br>• Potensial ar gyfer gwell effeithlonrwydd mewn darpariaeth sector cyhoeddus drwy weithio ar y cyd a rhannu arfer gorau |

*Cefndir y prosiect*

Roedd prosiect Teleofal a Thai Gofal Ychwanegol (yn ddiweddarach Llety â Gofal), a arweinir gan Gonsortiwm Gwella De Ddwyrain Cymru (*sewic*) sefydledig yn ymwneud ag ymchwil er mwyn gwella cydweithio rhanbarthol yn y sectorau teleofal a llety â gwasanaethau gofal yn Ne Ddwyrain Cymru.

Ymatebodd y prosiect, a'i ddwy elfen, i ofyniad hirdymor a sefydledig ar gyfer mwy o gydweithio rhanbarthol mewn darpariaeth gofal cymdeithasol, yn gysylltiedig yn bennaf â'r angen i wella'r cynnig gwasanaeth ar draws yr ardal gan gynnwys:

- gwella cysondeb teleofal a llety â gwasanaethau gofal a gynigir ar draws y rhanbarth, yn cynnwys mynd i'r afael â methiannau cydgysylltu rhwng sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol
- manteisio i'r eithaf ar botensial technoleg newydd a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg er mwyn sicrhau canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth

Roedd y bwriad hwn o ran gwella gwasanaeth yn gorwedd yn gyfochrog, ac yr un mor berthnasol yn strategol, ag ysgogwr ar gyfer hyrwyddo arbedion effeithlonrwydd mewn darpariaeth gwasanaeth, yn cynnwys y potensial ar gyfer arbedion maint drwy gaffael a chomisiynu.

*Gweithrediad y prosiect*

Wedi ei ariannu drwy grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) (yn hytrach nac arian ad-daladwy oedd ar gael drwy'r Gronfa Buddsoddi i Arbed), datblygwyd y prosiect teleofal/ llety â gofal drwy gydweithrediad rhanbarthol a oedd yn bodoli, *sewic* - consortiwm sy'n cwmpasu gofal cymdeithasol yn ardaloedd lleol:

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerdydd
- Casnewydd
- Torfaen
- Blaenau Gwent
- Caerffili
- Bro Morgannwg
- Rhondda Cynon Taf

- Sir Fynwy
- Merthyr Tudful

Drwy gonsortiwm *sewic*, roedd teleofal a llety â gofal wedi eu nodi fel meysydd posibl ar gyfer gwella gwasanaeth a chreu arbedion effeithlonrwydd cost. Roedd dwy elfen y prosiect ar wahân yn wreiddiol (h.y. prosiectau teleofal a llety â gofal penodol o dan faner *sewic*). Fodd bynnag, dygwyd y ddwy elfen ynghyd o gofio'r cysylltiadau thematig rhyngddynt a'r cyfleoedd o ran aliniad strategol a rheoli arbedion effeithlonrwydd proses rheoli prosiect sengl.

Yn ymarferol roedd y gwaith yn cynnwys ystod o weithgarwch dros gyfnod 2011-2014 (gydag arian y prosiect i ddod i ben ym mis Mawrth 2014). Disgrifir y gwaith a wnaed gan y ddwy elfen isod.

Ar gyfer teleofal, roedd y gwaith gwreiddiol yn canolbwyntio ar ddatblygu a phrofi'r achos busnes ar gyfer cyfuno canolfannau monitro ar wahân ar draws rhanbarth *sewic* er mwyn lleihau costau a gwella cysondeb y gwasanaeth. Roedd yr ymchwil yn cynnwys ymgysylltu sylweddol â phartneriaid ar draws y rhanbarth a datblygwyd achos busnes. Fodd bynnag, penderfynodd Bwrdd *sewic* nad oedd cyfuno yn ymarferol o gofio'r heriau a'r cymhlethdodau cysylltiedig.

Arweiniodd hyn at symud ffocws y prosiect tuag at gefnogi gallu er mwyn gwella lefelau cydweithio rhwng awdurdodau drwy ymchwil a hwyluso cyfarfodydd, cyhoeddi adroddiadau a gweithio mewn partneriaeth ehangach a gweithgarwch broceriaeth. Mae hyn yn cynnwys sefydlu grŵp cyfeirio teleofal er mwyn rhannu arfer gorau a phrofiad, er enghraifft mewn agwedd tuag at hyfforddiant, gosodiad ac adolygu. Cefnogodd y grant ESF benodiad rheolwr prosiect ar secondiad o awdurdod a oedd yn bartner er mwyn cyflawni'r prosiect. Mae'r rheolwr prosiect hefyd wedi goruchwylio'r swyddog llety ychwanegol (gweler isod).

Ar gyfer llety â gofal, cefnogi hwyluso ar gyfer gwella cysylltiadau rhwng adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol ar draws y rhanbarth, yn cynnwys sefydlu grŵp partneriaeth er mwyn rhannu syniadau ac arfer gorau, a chefnogaeth ymchwil yn cynnwys ymarferiad mapio darpariaeth llety â gofal

ar draws y rhanbarth. Cefnogodd y grant ESF benodiad rheolwr prosiect i ddechrau, ac yn dilyn uno'r ddau brosiect, penodwyd swyddog prosiect, wedi'i oruchwylio gan reolwr prosiect teleofal.

*Cyflawniadau a manteision y prosiect*

Y bwriad gwreiddiol gydag elfen teleofal y prosiect oedd y potensial ar gyfer creu arbedion effeithlonrwydd drwy gyfuno canolfannau monitro. Fodd bynnag, o gofio symud ffocws y prosiect a eglurwyd uchod, nid yw'r arbedion uniongyrchol (rhyddhau arian neu nad sy'n rhyddhau arian) wedi eu cyflawni. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o welliant mewn gwasanaeth wedi eu hadrodd o ganlyniad i'r gwell cydweithio a gweithio mewn partneriaeth, gyda'r potensial i gyflawni arbedion rhyddhau arian diriaethol dros y tymor hwy e.e. drwy rannu contractau a phrosesau comisiynu.

Mae'r manteision a grëwyd hyd yma gan y prosiect yn fwy eang ac felly maent yn canolbwyntio'n bennaf ar weithio mewn partneriaeth strategol a phartneriaeth well ar draws y rhanbarth, yn y cyd-destun teleofal a llety â gofal, gan alluogi partneriaid gofal cymdeithasol i rannu problemau, heriau ac arfer da, a datblygiad proses gydnabyddedig ar gyfer mynd i'r afael â materion a heriau o ran darpariaeth.  Fel y dywedodd un partner prosiect, mae'r prosiect 'wedi rhoi dealltwriaeth, a gwybodaeth, nid arbedion arian parod'.

Ychwanegedd y prosiect oedd datblygu a gwella safon y cydweithio hwn.

Y prawf allweddol wrth symud ymlaen fydd i sicrhau bod effeithiau'r bartneriaeth yn cael eu cynnal wedi i gefnogaeth ffurfiol yr ESF ddod i ben, ynghŷd â'r gallu rheoli a hwyluso ac adnodd a geir drwy hyn, gydag ymgynghoriadau yn dynodi bod trafodaethau ar strategaeth gadael clir ar waith ar adeg ymchwil yr astudiaeth achos.

Mae'r prosiect hefyd wedi datblygu ystod o offer a deunyddiau - er enghraifft, amlinellu canllawiau ac arfer da ar addasu eiddo ar gyfer llety ychwanegol - i'w defnyddio gan bartneriaid er mwyn gwella ansawdd gwasanaeth i ddefnyddwyr, a chyfres o astudiaethau achos ar gyfer eu lledaenu yn fwy eang, er enghraifft arfer caffael.

*Gwersi*

Ni wnaeth y prosiect geisio (nac wedyn derbyn) buddsoddiad gan Gronfa Buddsoddi i Arbed. Felly, mae'r gwersi sy'n ymddangos o'r ymchwil astudiaeth achos yn canolbwyntio ar y negeseuon y gall y Gronfa, a rheolwyr prosiect, eu dysgu gan y prosiect ar gyfer ymyriadau tebyg yn y dyfodol.

Mae nifer o negeseuon allweddol yn ymddangos o'r ymchwil astudiaeth achos gyda'r prosiectau:

- mae gweithio integredig yn llorweddol rhwng sefydliadau ac yn fertigol o fewn sefydliad yn bwysig er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ar lefel uwch a gweithredol a bod ymrwymiad i weithio rhanbarthol
- mae gwella gweithio mewn partneriaeth *o fewn* yn ogystal â rhwng sefydliadau yn bwysig, er enghraifft rhwng adrannau tai a gofal cymdeithasol heb awdurdodau lleol
- mae ymchwil, a gosod sylfaen gref o'r dechrau yn bwysig, er bod angen cydnabod bod hyn yn cymryd amser, ac yn gofyn am allu ac adnoddau penodedig os am sicrhau ymgysylltiad cynaliadwy a sylweddol
- cyfathrebu eang, yn arbennig pan ymgysylltir mewn prosiectau gyda'r posibilrwydd ar gyfer newid sefydliadol

Nodd y prosiect Teleofal a Thai Gofal Ychwanegol (yn ddiweddarach Llety â Gofal) hefyd yr angen i fod yn realistig ac ymarferol mewn gosod amcanion ar ddechrau prosiectau, cydnabod y gall fod yn anodd newid systemau sefydledig mewn darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus, a phwysigrwydd felly bod yn hyblyg mewn darpariaeth gwasanaeth a chanolbwyntio i gynnal cefnogaeth partneriaid tra'n cynnal ymrwymiad i ddiben a chanolbwynt cyffredinol y gweithgarwch.